Rhif: WG36310

Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

# Dangosyddion arfaethedig ar gyfer Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019

Dyddiad cyhoeddi: 22 Hydref 2018

Ymatebion erbyn: 17 Rhagfyr 2018

OGL © Hawlfraint y goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â dangosyddion arfaethedig ar gyfer Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019. |
| **Sut i ymateb** | Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw canol nos ar 17 Rhagfyr 2018. Gellir cyflwyno ymatebion drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein. Fel arall, mae ffurflen ymateb ar gael, a gellir dychwelyd hon drwy e-bost i: ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru<br><br>Neu drwy'r post:<br><br>Tîm Ystadegau Cyfiawnder Cymdeithasol<br><br>Llywodraeth Cymru<br><br>Parc Cathays<br><br>Caerdydd<br><br>CF10 3NQ |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Mae fersiynau o'r ddogfen hon ar gael mewn print bras, Braille ac ieithoedd eraill ar gais.**<br><br>Mae'r ddogfen ymgynghori ar gael i wefan Llywodraeth Cymru.<br><br>Bydd Gweminar Ymgynghori (seminar ymgynghori ar-lein) yn cael ei chynnal ar 7 Tachwedd a 3 Rhagfyr, a bydd sesiwn Gymraeg ar gael ar 29 Tachwedd. |
| **Manylion cyswllt** | I gael rhagor o wybodaeth:<br><br>Tîm Ystadegau Cyfiawnder Cymdeithasol<br><br>Llywodraeth Cymru<br><br>Parc Cathays<br><br>Caerdydd<br><br>CF10 3NQ<br><br>ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru |

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolwr data ar gyfer unrhyw ddata personol y byddwch yn ei rhoi yn rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru rymoedd statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn, a fydd yn eu galluogi i feddu ar yr wybodaeth i wneud penderfyniadau ynglŷn â sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion y mae'r ymgynghoriad yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol yn gweld unrhyw ymateb yr ydych yn ei anfon atom yn eu cyfanrwydd. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o ymatebion i ymgynghoriad, mae'n bosibl y caiff y gwaith hwn ei gomisiynu i drydydd parti achrededig ei wneud (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Bydd unrhyw waith o'r fath yn cael ei wneud drwy gontract yn unig. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion llym o ran prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos y cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o'r cyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. **Os nad ydych yn dymuno i'ch enw neu'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, dywedwch wrthym yn ysgrifenedig pan fyddwch yn anfon eich ymateb.** Byddwn ni wedyn yn eu tynnu allan cyn cyhoeddi.

Dylech chi fod yn ymwybodol hefyd o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi yn rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau cyhoeddedig hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Fel arall, ni chaiff unrhyw ddata sydd gan Lywodraeth Cymru amdanoch ei gadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael gwybod am y data personol a gedwir amdanoch a sut i gael gafael arni
- i ofyn i ni gywiro unrhyw anghywirdeb yn y data hwnnw
- (mewn rhai amgylchiadau) i wrthod neu gyfyngu ar brosesu
- (mewn rhai amgylchiadau) i sicrhau bod eich data wedi'i 'ddileu'
- (mewn rhai amgylchiadau) symud data
- gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) sef y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth sydd gan Lywodraeth Cymru a'i defnydd, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan GDPR, gweler y manylion cyswllt isod:
Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@llyw.cymtu

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

## Cynnwys

1. Cyflwyniad .....5

2. Crynodeb .....6

3. Cefndir Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) .....13

4. Datblygu cynigion ar gyfer MALIC 2019 .....17

5. Cynigion ar gyfer meysydd a dangosyddion .....18

5.1. Incwm .....20

5.2. Cyflogaeth .....25

5.3. Iechyd .....29

5.4. Addysg .....35

5.5. Mynediad at Wasanaethau .....40

5.6. Tai .....47

5.7. Yr Amgylchedd Ffisegol .....54

5.8. Diogelwch Cymunedol .....58

5.9. Pwysoli .....62

Atodiad A: Methodoleg .....64

Atodiad B: Uned Ddaearyddol .....67

Atodiad C: Aelodau'r Grŵp Llywodraethu .....69

Atodiad D: Dangosyddion MALIC 2014 .....75

Atodiad E: Y Fethodoleg a ddefnyddiwyd gan Ofcom ar Signal Band Eang .....76

Atodiad F: Crynodeb o Ddata Tystysgrifau Perfformiad Ynni .....78

# 1. Cyflwyniad

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yw'r dull swyddogol gan Lywodraeth Cymru o fesur amddifadedd cymharol mewn ardaloedd bach yng Nghymru. Ei nod yw canfod yr ardaloedd bach hynny sydd â'r crynoadau uchaf o fathau gwahanol o amddifadedd. Mae'n dod o dan faner Ystadegau Gwladol, ac yn cael ei baratoi gan ystadegwyr Llywodraeth Cymru.

Cafodd y mynegai diweddaraf ei gyhoeddi yn 2014. Mae gwybodaeth am MALIC 2014 ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Caiff mynegai wedi'i ddiweddaru ei gyhoeddi yn yr hydref 2019, gan ddefnyddio data mwy diweddar pan fo hynny'n bosibl a dangosyddion newydd yn dilyn adolygiad o'r data sydd ar gael.

Ers paratoi ar gyfer y mynegai diwethaf yn 2014, bu newid sylweddol yng nghyd-destun mesur amddifadedd mewn ardaloedd bach yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o ysgogiadau y gŵyr amdanynt dros ddefnyddio'r mynegai (fel y disgrifir yn adran 3.3) yn parhau. Fodd bynnag, mae Cymunedau'n Gyntaf, rhaglen allweddol gan Lywodraeth Cymru a oedd yn targedu'r ardaloedd mwyaf difreintiedig (a defnydd allweddol o'r MALIC cyntaf yn 2000), wedi'i dirwyn i ben. Ar y llaw arall, mae darnau newydd allweddol o ddeddfwriaeth wedi'u rhoi ar waith â phwyslais ar asesiadau lleol a chynlluniau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Ers 2014 bu llawer o newidiadau hefyd i'r ffynonellau data a allai arwain at ddangosyddion MALIC o bosib. Ym mhob parth namyn un rydym naill ai wedi ein hysgogi i newid dangosyddion trwy ddatblygiadau strategol (fel Credyd Cynhwysol, a mesurau cyrhaeddiad ysgol Cyfnod Allweddol 4) neu'n bwriadu defnyddio setiau data newydd sy'n cynnig mesur o gysyniadau perthnasol (fel pwysau plant, a mynediad at fannau gwyrdd).

Y dangosyddion unigol sy'n sail i MALIC yw'r blociau adeiladu ar gyfer y mynegai cyfan. Mae'r gwaith datblygu dangosyddion sylweddol a nodir uchod wedi arwain at gynnig sawl gwelliant i MALIC ar gyfer 2019, yn fwy nag yn y diweddariadau diwethaf i'r Mynegai. Diben yr ymgynghoriad hwn yw amlygu cynigion presennol y dangosyddion i'w cynnwys ym MALIC 2019 i'w hadolygu'n feirniadol. Rydym yn ymgynghori ar y cam hwn er mwyn rhoi amser i weithredu ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, pan fo hynny'n bosibl, cyn llunio'r manylion terfynol ar gyfer MALIC 2019.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi manylion ein syniadau presennol ar gyfer dangosyddion a sut y cânt eu pwysoli at ei gilydd. Nod rhai o'r cynigion yw manteisio ar ddata newydd sydd ar gael, a gall hyn olygu ein bod yn disgrifio gwaith sy'n mynd rhagddi yn hytrach na disgrifiad o ddangosydd wedi'u ffurfio'n llawn ar y cam hwn.

Mae'r ymgynghoriad yn agored i bob unigolyn a sefydliad. Nid yw'n ofynnol i ymatebwyr ateb pob cwestiwn.

Bydd crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2019.

Mae'r ymgynghoriad yn dechrau ar 22 Hydref 2018 a **17 Rhagfyr 2018 yw'r dyddiad cau ar gyfer ymatebion**.

## 2. Crynodeb

Nod yr ymgynghoriad hwn yw canfod barn y defnyddwyr ar gynigion ar gyfer dangosyddion MALIC 2019. Er mwyn datblygu cynigion y dangosyddion, bu ystadegwyr Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda saith grŵp pwnc arbenigol er mwyn adolygu'r dangosyddion a ddefnyddiwyd ym MALIC 2014, materion a godwyd yn ymgynghoriad 2014, ac ystyried ffynonellau data newydd posibl.

Lle bo'n bosibl, mae'r dangosyddion arfaethedig yn cydymffurfio â rhestr o feini prawf dangosyddion. Mae rhagor o wybodaeth am y broses o ddatblygu'r cynigion hyn i'w gweld yn Adran 4.

Mae manylion llawn y dangosyddion arfaethedig ar gyfer MALIC 2019 wedi'u rhestru yn Adran 5. Rhoddir hefyd fanylion y dangosyddion a ystyriwyd ond a wrthodwyd, gan nodi a fyddwn yn eu hadolygu unwaith eto ar gyfer fersiynau o'r mynegai yn y dyfodol. Mae rhai adrannau yn disgrifio'r gwaith sy'n parhau i archwilio hwylustod ac addasrwydd y dangosyddion ar gyfer MALIC 2019. Mewn rhai achosion, rydym yn disgrifio dewis o ddull ar gyfer dangosydd, ynghyd ag opsiynau eraill. Rydym yn croesawu barn defnyddwyr ar yr holl gynigion hyn ar gyfer dangosyddion.

Ceir crynodeb o gwestiynau'r ymgynghoriad ar dudalen 10. Mae'r cwestiynau wedi'u rhestru hefyd yn y mannau priodol yn y ddogfen ymgynghori.

Mae ffurflen ymateb arlein neu ar wahân ar gael o wefan Llywodraeth Cymru.

Nid oes yn rhaid i chi ateb pob cwestiwn.

Cynhelir gweminar ymgynghori (seminar ymgynghori ar-lein) yn Saesneg ar 7 Tachwedd a 3 Rhagfyr, a chynhelir sesiwn yn Gymraeg ar 29 Tachwedd. Byddant yn cynnwys cyflwyniad ar y cynigion yn ogystal â chyfle i ofyn cwestiynau.

### 2.1. Trosolwg o'r cynigion

Mae'r adran hon yn crynhoi'r cynigion ar gyfer pob maes ar lefel uchel. Ar y cyfan, mae ein hymchwil wedi awgrymu y gellid gwella MALIC o bosibl trwy:

A. ddatblygu modelau amcangyfrifon o safon tai gwael

B. datblygu gwahanol ddangosyddion ar gyfer cyrhaeddiad ysgol Cyfnod Allweddol 4, ansawdd aer a marwoldeb

C. archwilio ffynonellau data newydd ar gyfer dangosyddion:
   - incwm isel aelwydydd
   - pwysau afiach ymhlith plant
   - cyflyrau iechyd meddwl a chronig wedi'u cofrestru â meddyg teulu
   - addysg a sgiliau blynyddoedd cynnar
   - symud ymlaen i Addysg Uwch
   - mynediad at fannau gwyrdd naturiol, a
   - mynediad at fand eang cyflym iawn

Byddai gweithredu'r holl welliannau hyn yn cynnwys llawer iawn o waith i'r tîm o ystadegwyr sy'n llunio MALIC. Ar ôl cynnal arolwg o'n defnyddwyr yn 2016, rydym wedi ymrwymo'n flaenorol i roi blaenoriaeth i wella'r maes tai fel y disgrifir yn A. Mae newidiadau a restrir yn B naill ai'n angenrheidiol neu'n syml. Wrth ystyried y ffynonellau data newydd posibl y cyfeirir atynt ym mhwynt C, rydym yn croesawu'ch barn ar sut y dylem ni flaenoriaethu'r meysydd arfaethedig, os oes angen.

- A oes gennych unrhyw farn ar roi blaenoriaeth i archwilio ffynonellau data newydd ar gyfer MALIC 2019 yn unol â'r disgrifiad yn adran 2.1 pwynt C?

**Maes Incwm**

Rydym yn cynnig defnyddio data o rywbryd cyn dechrau cyflwyno gwasanaeth llawn Credyd Cynhwysol yng Nghymru (blwyddyn ariannol 2016-17). Nid yw hyn yn effeithio'n fawr iawn ar ba mor gyfredol yw'r data o'i gymharu â mynegeion blaenorol.

Rydym hefyd yn archwilio canlyniadau ymchwil newydd ar incwm o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), sydd wedi'u seilio ar ddata gweinyddol cysylltiedig. Rydym yn gobeithio datblygu dangosydd ar aelwydydd ag incwm isel i'w gynnwys ochr yn ochr â'r dangosydd presennol.

**Maes Cyflogaeth**

Rydym yn cynnig defnyddio data o rywbryd cyn dechrau cyflwyno gwasanaeth llawn Credyd Cynhwysol yng Nghymru (blwyddyn ariannol 2016-17). Nid yw hyn yn effeithio'n fawr iawn ar ba mor gyfredol yw'r data o'i gymharu â mynegeion blaenorol.

**Maes Iechyd**

- Dangosyddion sy'n ymwneud â phlant
    - Rydym yn cynnig ategu mesur o bwysau geni â mesur newydd ar blant dosbarth derbyn sydd â phwysau afiach
- Dangosyddion sy'n mesur cyflyrau penodol â diagnosis
    - Rydym yn gobeithio ymestyn yr amrywiaeth i ddangosyddion o nifer yr achosion o ganser yn unig, i gynnwys mesur addas o gyflyrau cronig ac o iechyd meddwl
- Dangosyddion sy'n nodi statws iechyd y boblogaeth yn ehangach
    - Rydym yn bwriadu cadw dull hunanadrodd o salwch cyfyngus hirdymor a mireinio'r mesur marwoldeb i ganolbwyntio ar farwolaethau cyn pryd.

**Maes Addysg**

- Dangosyddion blynyddoedd cynnar:
    - Rydym yn cynnig cynnwys dangosydd sy'n deillio o Asesiadau dechreuol o ddisgyblion dosbarth derbyn er mwyn cofnodi datblygiad addysgol yn y blynyddoedd cyn ysgol.
- Dangosyddion deilliannau/absenoldeb ysgol:
    - Rydym yn bwriadu cadw'r sgôr pwyntiau cyfartalog yng Nghyfnod Allweddol 2 ac ailadrodd dangosyddion absenoldeb o MALIC 2014, datblygu sgôr pwyntiau cyfartalog newydd ar gyfer Cyfnod Allweddol 4, a chyflwyno sgôr pwyntiau cyfartalog yn y Cyfnod Sylfaen sy'n deillio o ddata deilliannau ar ddiwedd blwyddyn 2.
- Dangosyddion addysg ôl-orfodol / y boblogaeth ehangach:
    - Rydym yn bwriadu cadw'r dangosyddion ar gyfer y gyfran o bobl nad ydynt yn mynd i addysg uwch yn 18-19 oed a nifer yr oedolion 25-64 oed heb unrhyw gymwysterau o MALIC 2014. Fodd bynnag, rydym yn bwriadu archwilio ffynonellau data eraill posibl o'r dangosydd blaenorol.

**Maes Mynediad at Wasanaethau**

Yn y Mynegai diweddaraf mesurodd y maes hwn amseroedd teithio i 8 gwasanaeth trwy ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a 9 gwasanaeth trwy ddefnyddio trafnidiaeth breifat. Rydym yn cynnig cyflwyno mesur ar wahân o fynediad at wasanaethau band eang i'r maes hwn. Mae hyn yn ddarostyngedig i adolygiad o ddata newydd ynghylch signal y bydd Ofcom yn ei gyhoeddi yn 2019. Felly rydym yn cynnig cynnal y newid lleiaf posibl i'r rhestr o wasanaethau yr ydym yn mesur yr amser teithio iddynt, o'i gymharu â MALIC 2014.

## Maes Tai

Ym MALIC 2014 roedd diffyg data priodol am ardaloedd bach ar gael ac nid oedd yn bosibl mesur amddifadedd tai yn llawn yn unol â'n diffiniad ni. Ein dull arfaethedig ar gyfer MALIC 2019 yw gweithio ar gynnwys y dangosyddion canlynol yn y maes:

- Gorlenwi (mesur ystafelloedd gwely o Gyfrifiad 2011) i gofnodi faint o ystafelloedd gwely sydd ar gael ac amodau byw i ryw raddau
- Cyfran yr anheddau â pheryglon Categori 1 o dan y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (diffiniad union wedi'i fodelu ac is-gategorïau i'w datblygu), i gofnodi cyflyrau ffisegol a byw
- Mesur arall o gyflyrau ffisegol a byw fel cyflwr gwael cyffredinol (diffiniad union wedi'i fodelu i'w ddatblygu)

## Maes yr Amgylchedd Ffisegol

- Cyfran yr Aelwydydd sydd mewn Perygl o Lifogydd
  - Rydym yn cynnig cadw'r dangosydd hwn ond iddo ddeillio o ddata Asesiad Perygl Llifogydd Cymru sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan Cyfoeth Naturiol Cymru
- Sgôr Ansawdd Aer
  - Rydym yn bwriadu symleiddio hyn trwy gyfrifo tri dangosydd wedi'u seilio ar werthoedd crynodiad cyfartalog wedi'u pwysoli gan y boblogaeth ar gyfer Nitrogen diocsid, $PM_{10}$ and $PM_{2.5}$ (Mater Gronynnau)
- Diffyg Agosrwydd at Fan Gwyrdd Naturiol
  - Rydym yn bwriadu datblygu dangosydd sy'n mesur cyfran yr aelwydydd sydd â diffyg agosrwydd at fan gwyrdd naturiol sy'n rhwydd ei gyrraedd. Bydd y dangosydd/is-faes hwn yn disodli'r dangosydd agosrwydd at safleoedd gwaredu gwastraff a safleoedd diwydiannol a ddefnyddiwyd mewn fersiynau blaenorol o MALIC.

## Maes Diogelwch Cymunedol

Rydym yn cynnig peidio â gwneud dim newidiadau sylweddol i'r dangosyddion yn y maes hwn.

## 2.2. Cwestiynau arfaethedig y ddogfen

**Cynigion yn ymwneud â Meysydd (gweler Adran 5)**

Cwestiynau penodol yw'r rhain a fydd yn helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu MALIC 2019. Nid oes yn rhaid ateb pob cwestiwn.

**Trosolwg**

1. A oes gennych unrhyw farn ar flaenoriaeth archwilio ffynonellau data newydd ar gyfer MALIC 2019 yn unol â'r disgrifiad yn adran 2.1 pwynt C?

**Maes Incwm**

2. A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r prif gynigion ar gyfer dangosydd amddifadedd incwm yn unol â mynegeion blaenorol, ar sail data 2016-17, ar gyfer MALIC 2019?
3. A fyddai'n ddefnyddiol i ddangosydd amddifadedd incwm tebyg fod ar gael ar wahân i ganiatáu am gymharu ag ardaloedd bach yn Lloegr (data 2015-16)?
4. A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn ag ychwanegu ail ddangosydd ar gyfer aelwydydd ag incwm isel (ar sail canlyniadau ymchwil ONS), yn amodol ar ystyriaethau ansawdd?
5. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â'r cynigion ar gyfer y maes Incwm?

**Maes Cyflogaeth**

6. A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r prif gynnig ar gyfer dangosydd amddifadedd cyflogaeth yn unol â mynegeion blaenorol, ar sail data 2016-17, ar gyfer MALIC 2019?
7. A fyddai'n ddefnyddiol i ddangosydd amddifadedd cyflogaeth tebyg fod ar gael ar wahân i ganiatáu am gymharu ag ardaloedd bach yn Lloegr (data 2015-16)?
8. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â'r cynigion ar gyfer y maes Cyflogaeth?

**Maes Iechyd**

9. A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r dangosydd newydd arfaethedig ar gyfer plant dosbarth derbyn â phwysau afiach?
10. A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â dangosydd newydd arfaethedig ar gyfer cyflyrau cronig?
11. A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â dangosydd newydd arfaethedig ar gyfer iechyd meddwl?
12. A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r cynnig i ddiwygio'r dangosydd marwoldeb i fod yn un ar gyfer marwoldeb cyn pryd?
13. Pa drefn flaenoriaeth fyddech chi'n ei rhoi ar ddatblygu mesur o blant dosbarth derbyn â phwysau afiach, cyflyrau cronig neu iechyd meddwl ar gyfer MALIC 2019?
14. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â'r cynigion ar gyfer y maes Iechyd?

**Maes Addysg**

15. A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r cynnig i gynnwys dangosyddion sy'n deillio Asesiadau o Ddisgyblion pan fyddant yn Dechrau yn y Dosbarth Derbyn a data deilliannau'r Cyfnod Sylfaen?
16. A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r dangosydd arfaethedig ar gyfer cyrhaeddiad Cyfnod Allweddol 4?
17. A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'n dull arfaethedig o lunio dangosydd ar gyfer Cyfran y bobl 18-19 oed nad ydynt yn mynd i addysg uwch?
18. Pa flaenoriaeth fyddech chi'n ei rhoi i ddatblygu'r mesurau canlynol: Asesiadau o Ddisgyblion pan fyddant yn Dechrau yn y Dosbarth Derbyn neu ddangosydd cyfran y bobl nad ydynt yn mynd i addysg uwch yn 18-19 oed?
19. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â'r cynigion ar gyfer y maes Addysg?

**Maes Mynediad at Wasanaethau**

20. A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r dangosydd newydd arfaethedig ar gyfer mynediad at wasanaethau band eang?
21. A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â sut y dylid pwysoli'r dangosyddion ar gyfer amseroedd teithio (i wasanaethau allweddol), a mynediad at wasanaethau band eang ar y cyd ar gyfer sgôr gyffredinol y maes?
22. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â'r cynigion ar gyfer y maes Mynediad at Wasanaethau?

**Maes Tai**

23. A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'n cynigion i gynnwys model o ddangosydd ar gyfer ansawdd tai gwael yn y maes tai, os yw'n bosibl?
24. Wrth ddatblygu'r model o'r dangosydd, a oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'n pwyslais arfaethedig ar beryglon (yn unol â diffiniad System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai, HHSRS) ac ar gyflwr gwael i gofnodi ansawdd tai gwael?
25. A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'n cynnig i BEIDIO â chynnwys dangosydd wedi'i seilio ar ddata Tystysgrif Perfformiad Ynni yn y maes tai, ar sail ansawdd data isel?
26. A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'n cynnig i barhau i ddefnyddio gorlenwi yn ddangosydd ar gyfer amddifadedd tai?
27. A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'n cynnig i ddileu'r dangosydd "diffyg gwres canolog" fel mesur o amddifadedd tai?
28. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â'r cynigion ar gyfer y maes Tai?

**Maes yr Amgylchedd Ffisegol**

29. A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'n cynigion i symleiddio'r is-faes ansawdd aer?
30. A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'n cynigion i gynnwys dangosydd sy'n mesur diffyg agosrwydd at fan gwyrdd hawdd ei gyrraedd yn hytrach na dangosydd sy'n mesur agosrwydd at safleoedd gwaredu gwastraff a safleoedd diwydiannol?
31. A oes gennych unrhyw farn ar y pwysoli arfaethedig yn y maes hwn?
32. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â'r cynigion ar gyfer y maes yr Amgylchedd Ffisegol?

**Maes Diogelwch Cymunedol**

33. A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r cynigion ar gyfer y maes Diogelwch Cymunedol?

**Pwysoli y Meysydd**

34. A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r Dull arfaethedig o bwysoli meysydd ym MALIC 2019?

**Camau Nesaf**

35. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â'r cynigion ar gyfer MALIC 2019 (nad ydynt wedi'u trafod eisoes) neu ar gyfer diweddariadau MALIC yn y dyfodol?

# 3. Cefndir Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)

## 3.1. Beth mae MALIC yn ei fesur?

MALIC yw dull swyddogol Llywodraeth Cymru o fesur amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru. Mae'n Ystadegyn Cenedlaethol a chaiff ei lunio gan ystadegwyr yn Llywodraeth Cymru. Ei nod yw canfod yr ardaloedd bach hynny o'r wlad sydd â'r crynoadau uchaf o sawl math gwahanol o amddifadedd. Felly, mae MALIC yn mesur amddifadedd lluosog ar sail ardal a hefyd o safbwynt amddifadedd cymharol. Ceir esboniad llawnach o'r termau allweddol hyn isod.

Ar hyn o bryd mae MALIC yn cynnwys hyd at wyth maes (neu fath) gwahanol o amddifadedd:

a) Incwm
b) Cyflogaeth
c) Iechyd
d) Addysg
e) Mynediad at Wasanaethau
f) Diogelwch Cymunedol
g) Yr Amgylchedd Ffisegol
h) Tai

Mae data pob maes yn cael ei gasglu o bob math o ddangosyddion gwahanol. Mae Atodiad A yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y dulliau a ddefnyddir i greu'r mynegai.

**Amddifadedd** yw'r diffyg mynediad at gyfleoedd ac adnoddau y byddem yn eu disgwyl yn ein cymdeithas. Mae'r meysydd a restrir uchod yn ymwneud ag amddifadedd o safbwynt materol a chymdeithasol. Ystyr amddifadedd materol yw bod heb ddigon o adnoddau ffisegol – bwyd, dillad a chysgod – i gynnal safon bywyd penodol. Mae amddifadedd cymdeithasol yn cyfeirio at allu'r unigolyn i gymryd rhan ym mywyd cymdeithasol arferol y gymuned.

Mae **amddifadedd lluosog** yn cyfeirio at fwy nag un math o amddifadedd. Mae ardal yn cynnwys lefelau lluosog o amddifadedd os yw'n cynnwys crynhoad uchel o bobl sy'n profi'r math hwnnw o amddifadedd. Yn gyffredinol, po fwyaf o feysydd sydd â chrynoadau uchel o amddifadedd yna'r mwyaf yw lefelau amddifadedd cyffredinol yr ardal. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod yr un bobl yn dioddef mathau lluosog o amddifadedd yn yr ardal, er y byddem yn disgwyl cryn dipyn o orgyffwrdd.

**Mesuriad ar sail ardal**: Cyfrifir MALIC ar gyfer pob Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (AGEHI) yng Nghymru. Ar ôl Cyfrifiad 2011, cafodd 1,909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is eu nodi yng Nghymru, ac mae ganddynt boblogaeth gyfartalog o 1,600 o bobl. Mae rhagor o wybodaeth am hyn i'w weld yn Atodiad B. Mae'r AGEHI yn seiliedig ar ddangosyddion sy'n ystyried nodweddion cyfanredol y bobl sy'n byw yn yr ardal yn ogystal â nodweddion yr ardal ei hun mewn rhai achosion (er enghraifft y maes amgylchedd ffisegol.

**Mesuriad cymharol**: Mae'r Mynegai yn darparu ffordd o nodi'r ardaloedd yn eu trefn, o'r lleiaf i'r mwyaf difreintiedig. Nid yw'n mesur lefelau amddifadedd mewn ardal ond yn hytrach a yw'r ardal yn fwy neu'n llai difreintiedig na holl ardaloedd eraill Cymru; felly gallwn wybod pa ardaloedd sy'n fwy (neu'n llai) difreintiedig nag eraill, ond nid faint yn fwy neu'n llai. Y rheswm dros ddefnyddio dull o'r fath yw bod hyn yn caniatáu inni gyfuno'r meysydd gwahanol.

**Mynegai**: Grŵp o fesuriadau gwahanol wedi'u cyfuno'n un rhif yw mynegai. Y nod yw dangos newidiadau mewn amrywiadau cymhleth fel cynnyrch diwydiannol, prisiau neu amddifadedd yn yr achos yma. Yna, mae mynegai yn fodd i gymharu rhwng gwerthoedd gwahanol – sef cymharu rhwng ardaloedd bach yn achos MALIC. Mae MALIC yn sgorio holl ardaloedd bach Cymru o 1 (mwyaf difreintiedig) i 1,909 (lleiaf difreintiedig).

### 3.2. Llunio'r Mynegai

Mae'r Mynegai yn cynnwys tair elfen:

- Y Mynegai ei hun, sef set o raddfeydd;
- Graddfeydd yr wyth math o amddifadedd, neu feysydd, ac sy'n cael eu cyfuno i greu'r Mynegai cyffredinol; a
- Y dangosyddion sylfaenol, y gellir eu mesur yn uniongyrchol, ac sy'n cael eu cyfuno i greu graddfeydd y meysydd. Nodir llawer, ond nid pob un, o'r dangosyddion fel cyfraddau. Mae'r unedau yn dibynnu ar beth sy'n cael ei fesur.

Mae'r holl elfennau hyn yn cael eu cyfrifo ar gyfer yr holl ardaloedd bach yng Nghymru. Mae graddfeydd cyffredinol MALIC 2014 a graddfeydd yr wyth maes amddifadedd yn cael eu cyhoeddi ar wefan StatsCymru. Mae'r data dangosyddion sylfaenol yn cael ei gyhoeddi bob blwyddyn ar wefan StatsCymru os yw ar gael. Gellir defnyddio'r data dangosyddion weithiau i fonitro newid dros amser. Mae gwybodaeth fanylach am y fethodoleg hon ar gael yn Atodiad A.

### 3.3. Ar gyfer beth y gellir defnyddio'r MALIC?

Gellir defnyddio'r MALIC i wneud y canlynol:

- Cymharu'r graddfeydd amddifadedd cyffredinol ar gyfer pob AGEHI neu grwpiau ohonynt (fel rhai mewn awdurdod lleol), fel bod modd rhestru'r AGEHI mewn trefn o'r mwyaf i'r lleiaf difreintiedig;
- Cymharu'r graddfeydd o fewn y meysydd amddifadedd gwahanol ar gyfer ardaloedd bach;
- Cymharu dau neu fwy o awdurdodau lleol (neu grwpiau eraill o AGEHI wedi'u cyfuno) trwy edrych ar gyfran yr AGEHI mewn yn yr awdurdod lleol sydd ymhlith y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig (dyweder) yng Nghymru gyfan;
- Er na ellir defnyddio system graddfeydd neu rancio megis MALIC i fonitro newid dros amser, mae'n bosibl dadansoddi newid dros amser trwy edrych ar y data dangosydd sylfaenol (a gyhoeddir ar StatsCymru).

Mae rhaglenni llywodraeth – cenedlaethol a lleol – â’r nod o fynd i’r afael ag amddifadedd yn defnyddio MALIC yn aml i dargedu cyllid i’r ardaloedd mwyaf difreintiedig. Fe’i defnyddir yn eang gan awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus lleol, y sector gwirfoddol, academyddion a myfyrwyr, a’r sector preifat. Rhestrir rhai o’ defnyddiau y gŵyr amdanynt isod.

Enghreifftiau o Lywodraeth Genedlaethol a Lleol yn defnyddio MALIC:

- Targedu polisïau fel Dechrau’n Deg, a Chymunedau ar gyfer Gwaith
- Penderfynu ar ardaloedd treialu neu leoliad canolbwyntiau strategol
- Cyfrifo teuluoedd ysgol, a modelau gwerth ategol cyd-destunol
- Dadansoddi effaith amddifadedd, gan gynnwys mesur anghydraddoldeb iechyd
- Ceisiadau prosiectau a cheisiadau cyllid, gan gynnwys Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
- Tystiolaeth ar gyfer cynllunio Adfywio a’r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol
- Asesiad o anghenion, gan gynnwys Asesiadau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus o lesiant lleol
- Mentrau adnewyddu tai
- Proffiliau ardal lleol ar gyfer aelodau’r cyngor
- Tystiolaeth ar gyfer partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol

Enghreifftiau o sefydliadau ac unigolion eraill yn defnyddio MALIC:

- Iechyd Cyhoeddus Cymru – yn rhan o’r Fframwaith Canlyniadau Iechyd Cyhoeddus
- Cyngor Cyllid Addysg Uwch Cymru – i ehangu mynediad
- Swyddfa Ystadegau Gwladol – i ddadansoddi marwoldeb y gellid ei osgoi trwy amddifadedd
- Y Swyddfa Gartref – i fodelu gofynion ar heddluoedd
- Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub – i gynllunio adnoddau cymdogaethau a gweithgareddau cymunedol
- OFWAT a chwmnïau dŵr – i ddadansoddi amddifadedd a lefelau dyled dŵr
- Ymwelwyr Iechyd – i asesu effeithiolrwydd ymyraethau iechyd
- Darlithwyr clinigol – i ddadansoddi effeithiau amddifadedd ar epilepsi, ffibrosis cystig ac afiechydon eraill
- Elusennau a rhwydweithiau amrywiol – i dynnu sylw at amddifadedd, ar gyfer ceisiadau cyllid ac i dargedu
- RSPCA – i ddadansoddi patrymau lles anifeiliaid, amddifadedd a gweithgareddau cefnogwyr
- Y Gronfa Loteri – i ddyrannu cyllid

## 3.4. Cyfyngiadau MALIC

Mae'n bwysig cofio nad MALIC yw'r unig ffordd o fesur amddifadedd. Cafodd ei ddatblygu at bwrpas penodol, sef mesur crynoadau o amddifadedd ar lefel ardal fach.

**Unigolion difreintiedig**: Gall unigolion na fyddant yn cael eu hystyried yn ddifreintiedig fod yn byw mewn ardaloedd difreintiedig, a gall fod unigolion a fyddai'n cael eu hystyried yn ddifreintiedig fod yn byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. Mae tua 1 o bob 5 o bobl o aelwydydd incwm isel yn byw yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Er ei bod hi'n wir dweud bod amddifadedd wedi'i grynhoi fwy mewn rhai ardaloedd na'i gilydd, mae 4 o bob 5 o bobl ar fudd-dal incwm yn byw y tu allan i'r ardaloedd hyn. Mae'n bwysig cofio hyn wrth dargedu adnoddau, oherwydd gall targedu'r rhai 'mwyaf difreintiedig' arwain at gynnwys rhai aelwydydd yn yr ardaloedd hynny nad ydynt yn ddifreintiedig a llawer o aelwydydd difreintiedig mewn ardaloedd llai difreintiedig yn colli'r cyfle.

**Unigolion ag amddifadedd lluosog**: Nid yw MALIC yn nodi unigolion ag amddifadedd lluosog, yn hytrach, mae'n nodi'r ardaloedd lle mae crynoadau o sawl math gwahanol o amddifadedd. Ar hyn o bryd, nid ydym yn gallu cysylltu'r data sydd yn y Mynegai ar lefel unigolyn er mwyn deall graddau amddifadedd lluosog unigolion.

**Amddifadedd absoliwt**: Nid yw MALIC yn mesur faint o amddifadedd sydd mewn ardal, er enghraifft, nid yw'n caniatáu ar gyfer datganiadau fel "mae ardal A ddwywaith mwy difreintiedig nag ardal B" y gellir defnyddio'r graddfeydd a'r sgoriau. Dim ond i ddweud "mae ardal A yn fwy difreintiedig nag ardal B" y gellir defnyddio'r safleoedd a'r sgoriau. Hyd yn oed os yw safle'r ardal yn aros yr un fath mewn cyhoeddiadau dilynol gan MALIC, gallai lefelau amddifadedd yr ardal fod wedi cynyddu neu leihau, ond ddim digon i effeithio ar y gymhariaeth ag ardaloedd eraill. Fodd bynnag, mae modd dadansoddi'r dangosyddion unigol o fewn MALIC i gymharu rhwng ardaloedd a thros amser.

**Tlodi**: Mae tlodi fel arfer yn golygu diffyg arian, lle bo amddifadedd yn cynnwys diffyg cyfleoedd ac adnoddau y gallem ddisgwyl eu cael mewn cymdeithas, er enghraifft, iechyd da neu lle diogel i fyw.

**Cymdeithas gefnog**: Mae'n bwysig cofio nad yw diffyg amddifadedd yr un fath â bod yn gefnog. Nid yr ardal lleiaf difreintiedig yw'r ardal mwyaf cefnog yng Nghymru o reidrwydd. Mae hefyd yn golygu bod MALIC fwyaf effeithiol ar gyfer gwahaniaethu rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, a dylid bod yn ofalus iawn wrth ddod i gasgliadau am y gwahaniaethau rhwng yr ardaloedd llai difreintiedig .

**Amddifadedd ar draws y DU**: Nid oes modd cymharu graddfeydd a sgoriau â Mynegeion Amddifadedd Lluosog yng ngwledydd eraill y DU. Mae rhagor o wybodaeth am faterion cymharu mynegeion ledled y DU ar gael ar dudalen we Neighbourhood Statistics yn yr archifau.

**Cymharu dros amser**: Gan mai mynegai cymharol yw MALIC, mae'n bwysig peidio â chymharu'r safleoedd ar draws mynegeion lluosog. Mae data dangosyddion MALIC yn cael ei gyhoeddi bob blwyddyn ar wefan StatsCymru, lle bo'n bosibl, fel bod modd cymharu dros amser.

# 4. Datblygu cynigion ar gyfer MALIC 2019

## 4.1. Adolygu dangosyddion ar gyfer MALIC 2019

Ceir tri grŵp cyffredinol sy'n llunio cynlluniau ar gyfer MALIC 2019. Mae Grŵp Llywio o uwch swyddogion polisi Llywodraeth Cymru yn bennaf yn pennu cyfeiriad y polisi. Mae Bwrdd Prosiect o uwch ddadansoddwyr yn goruchwylio cynllunio, llunio a rhannu. Ac mae Grŵp Ymgynghorol sy'n allanol gan fwyaf yn darparu cyngor arbenigol ar gynigion. Mae gwybodaeth am aelodau'r grŵp MALIC 2019 i'w gweld yn Atodiad C.

Er mwyn bwrw ymlaen â'r dasg o ystyried dangosyddion ar gyfer MALIC 2019, cafodd saith gweithgor maes ar wahân eu sefydlu:

- Incwm a Chyflogaeth
- Addysg
- Iechyd
- Mynediad at Wasanaethau
- Diogelwch Cymunedol
- Yr Amgylchedd Ffisegol
- Tai

Mae pob gweithgor maes yn cynnwys arbenigwyr dadansoddi o Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus eraill (Cyfoeth Naturiol Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru), academyddion yn ogystal â chynrychiolwyr polisi Llywodraeth Cymru lle bo'n briodol. Mae'r rhestr aelodaeth lawn yn Atodiad C.

Swyddogaeth gweithgorau pob maes yw:

- adolygu a datblygu dangosyddion ar gyfer y maes
- ymateb i adborth o ymgynghoriadau ar y dangosyddion
- sicrhau bod yr holl ddangosyddion yn addas i'w diben
- cytuno ar ddull o ymdrin ag unrhyw anghysondebau data neu ddata coll
- cynghori ar arweiniad technegol i lunio a defnyddio dangosyddion, i'w cynnwys yn yr adroddiadau terfynol

Gofynnwyd i weithgorau pob maes sicrhau bod y dangosyddion arfaethedig yn bodloni'r rhestr meini prawf a ddisgrifir isod lle bo modd.

Yn 2016 cyflwynwyd cyfres o ddangosyddion cenedlaethol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Eu nod yw asesu cynnydd gwladol tuag at gyflawni'r saith nod llesiant a roddwyd ar waith yn y Ddeddf honno. Mae eu pwrpas, felly, yn wahanol i'r dangosyddion sy'n sail i fynegai amddifadedd. Mae llawer o'r dangosyddion cenedlaethol wedi'u seilio ar arolygon neu nid ydynt fel arall yn benthyg eu hunain i'w mesur ar lefel ardal fach. Er hynny, roedd ein gwaith i ddatblygu dangosyddion ar gyfer MALIC 2019 yn cynnwys ystyried y dangosyddion cenedlaethol, ac rydym yn cyfeirio at hyn pan fo'n berthnasol yn Adran 5, er enghraifft o ran pwysau geni isel neu ansawdd aer.

### 4.2. Meini prawf dangosyddion

Dylai'r dangosyddion sydd wedi'u cynnwys ym MALIC fodloni sawl maen prawf er mwyn sicrhau eu bod yn gywir a pherthnasol i fesur amddifadedd, fel y disgrifir isod.

a) Dylai pob dangosydd a ddewiswyd fod yn berthnasol i fynegai crynoadau amddifadedd seiliedig ar ardal (fel y diffiniwyd at ddibenion MALIC). Lle bo'n bosibl, dylai fod yn ymwneud â 'diffyg gorfodol'[1].

b) Dylai pob dangosydd a ddewiswyd cael ei gynnwys yn un o'r meysydd amddifadedd y cytunwyd arno yn unig.

c) O fewn pob maes, lle bo'n bosibl, dylid dewis dangosyddion i gynrychioli prif nodweddion y math hwnnw o amddifadedd yn hytrach na'r amddifadedd sy'n effeithio ar nifer fach o bobl neu ardaloedd. Mae hyn yn caniatáu inni nodi graddau o amddifadedd yn hytrach na dull syml 'yn bresennol/ddim yn bresennol'.

d) Dylai data dangosyddion fod ar gael ar lefel ardal fach, a'i gasglu ar sail gyson ar gyfer Cymru gyfan.

e) Dylai dangosyddion fod yn ystadegol gadarn ar lefel ardal fach. Os yw nifer yr achosion yn isel, dylid cynnwys cyfanrifau dros gyfnodau hirach er mwyn sicrhau nad yw digwyddiadau untro neu annodweddiadol yn llurgunio dangosyddion.

f) Dylai data dangosyddion gael ei ddiweddaru'n rheolaidd, a dylai fod mor gyfoes â phosibl. (Er nad yw'n bosibl cymharu MALIC dros amser, cyhoeddir rhai data dangosyddion yn flynyddol).

g) Yn ddelfrydol, dylai dangosyddion ym mhob maes fod yn fesurau uniongyrchol o'r math hwnnw o amddifadedd. Os nad oes digon o fesuriadau uniongyrchol ar gael, gellir defnyddio mesurau procsi da (e.e. er nad yw data o systemau gweinyddol bob amser yn ffordd uniongyrchol o fesur amddifadedd, maent yn fesurau procsi gwych yn aml, a'u mantais yw eu bod yn gyfrifiadau manwl o ystadegau ardaloedd bach yn bosibl).

h) Dim ond law yn llaw â detholiad da o ddangosyddion nad ydynt wedi'u modelu y dylid defnyddio mesurau wedi'u modelu. Dylai'r math hwn o fodelu geisio sicrhau bod newidiadau dros amser yn cael eu hadlewyrchu yn yr amrywiad.

i) Dylai dangosyddion ddilyn nodweddion disgwyliedig dangosydd perfformiad da e.e. os oes newidiadau gwirioneddol dros amser, yna bydd y dangosyddion yn adlewyrchu hynny; bydd modd esbonio unrhyw newidiadau yn y dangosydd.

Pwrpas y dangosyddion yw darparu gyda'i gilydd y mesur gorau posib o'r crynodiad o amddifadedd. Ein nod yw dewis y nifer optimwm o ddangosyddion er mwyn helpu cyflawni hyn. Y mwyaf o ddangosyddion sy'n cael eu cynnwys, y mwy cymhleth yw'r mynegai'n maent yn eu creu. Nid oes angen i'r set o ddangosyddion sy'n sail i MALIC fod yn drwyadl yn nhermau adlewyrchu'r holl agweddau o amddifadedd. Felly, yn ychwanegol i'r meini prawf uwchben, fyddwn yn asesu (fel arfer gan ddefnyddio dadansoddi ffactor) a yw dangosydd penodol o fewn maes yn ychwanegu digon o wybodaeth i gyfiawnhau ei gynnwys ochr yn ochr â dangosyddion eraill y maes. Gall dangosydd newydd droi allan i berthnasu'n agos i ddangosydd presennol, gydag ardaloedd tebyg yn dangos lefelau tebyg o amddifadedd yn ôl y ddau ddangosydd. Mewn achosion fel hyn, fyddwn yn ystyried cael gwared ag un o'r dangosyddion o MALIC, i ddewis y nifer optimwm o ddangosyddion heb orgymhlethu'r mynegai.

---

[1] Mae 'diffyg gorfodol' yn digwydd pan fo unigolyn yn methu â chaffael nwyddau neu wasanaeth oherwydd nad oes ganddo'r modd ariannol neu unrhyw fodd arall o wneud hynny.

## 5. Cynigion ar gyfer meysydd a dangosyddion

Mae'r adrannau canlynol yn crynhoi'r cynigion presennol ar gyfer pob un o'r wyth maes yn ogystal â rhestr o gwestiynau'r ymgynghoriad. Croesawn eich ymateb i rai o'r cwestiynau neu bob un ohonynt.

Ar gyfer pob maes, adolygwyd y dangosyddion a ddefnyddiwyd ym MALIC 2014 ochr yn ochr â'r dangosyddion a ystyriwyd yn rhan o ymgynghoriad MALIC 2014 ond a wrthodwyd wedi hynny. Trafodwyd dangosyddion newydd posibl hefyd. Mae gwybodaeth dechnegol lawn am y dangosyddion presennol ar gael yn Adroddiad Technegol MALIC 2014.

### 5.1. Incwm

Mae'r maes incwm yn canolbwyntio ar y gyfran o bobl ag incwm islaw lefel ddiffiniedig.

#### 5.1.1. Trosolwg o'r cynigion

Mae cyflwyno Credyd Cynhwysol yn effeithio'n sylweddol ar fesur maes incwm MALIC. Rydym yn cynnig defnyddio data o rywbryd cyn dechrau cyflwyno gwasanaeth llawn Credyd Cynhwysol yng Nghymru (blwyddyn ariannol 2016-17). Nid yw hyn yn effeithio'n fawr iawn ar ba mor gyfredol yw'r data o'i gymharu â mynegeion blaenorol.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ar opsiynau ar gyfer dangosydd addas gan ddefnyddio data ynglŷn â hawlwyr Credyd Cynhwysol mewn mynegeion yn y dyfodol.

Fodd bynnag, rydym hefyd yn awyddus i archwilio canlyniadau ymchwil newydd i incwm o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), sydd wedi'u seilio ar ddata gweinyddol cysylltiedig. Rydym yn gobeithio datblygu dangosydd ar aelwydydd ag incwm isel i'w gynnwys ym MALIC 2019 ochr yn ochr â'r dangosydd presennol. Byddai ei bwysau yn dibynnu ar gyfanrwydd a chadernid y data sydd ar gael cyn cyhoeddi MALIC 2019.

Dylid nodi nad yw'n debygol y bydd yn bosibl parhau i gyhoeddi **data dangosyddion blynyddol** o ganlyniad i effaith Credyd Cynhwysol, yn dibynnu ar ganlyniad y gwaith datblygu a ddisgrifir uchod. Rydym yn ymwybodol o angen sylweddol defnyddwyr i ddefnyddio'r diweddariadau hyn, a byddwn yn parhau i archwilio'r opsiynau sydd ar gael.

#### 5.1.2. Dangosydd MALIC 2014

Ar gyfer MALIC 2014 roedd y maes Incwm yn cynnwys un dangosydd cyfansawdd, amddifadedd Incwm, wedi'i gyfrifo o'r tair elfen ganlynol:

a) Hawlwyr budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm; mae hyn yn cynnwys hawlwyr Cymhorthdal Incwm, hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith, hawlwyr Credyd Pensiwn, a hawlwyr Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail Incwm; a'u plant dibynnol. Ffynhonnell: DWP.

b) Nifer y plant a'r oedolion mewn teuluoedd sy'n cael Credydau Treth Gwaith a Chredydau Treth Plant ag incwm sy'n llai na 60 y cant o'r incwm canolrifol ar gyfer Cymru (Cyn Costau Tai). Ffynhonnell: Cyllid a Thollau EM (CThEM).

c) Ceiswyr Lloches â Chymorth, h.y. y rhai a gefnogir o dan Adran 95 o'r Ddeddf Mewnfudo a Lloches, a'u plant dibynnol. Ffynhonnell: y Swyddfa Gartref.

Yn y setiau data DWP uchod ceir cofnodion o unigolion unigryw (h.y. caiff y rheini sy'n hawlio amryw o fudd-daliadau eu cyfrif unwaith). Cyfrifir a mynegir y dangosyddion ar ffurf canran o'r boblogaeth gyfan ar gyfer yr AGEHI. Mae'r dangosydd cyfansawdd a ddaw yn sgil hyn yn gipolwg trawstoriadol o bobl ag amddifadedd incwm, wedi'i fesur trwy dderbyn budd-daliadau neu gredydau treth sy'n gysylltiedig ag incwm.

Mae gwybodaeth dechnegol lawn am y dangosydd ar gael yn adroddiad Technegol MALIC 2014.

### 5.1.3. Credyd Cynhwysol

Mae Credyd Cynhwysol yn disodli'r rhan fwyaf o fudd-daliadau a chredydau treth sy'n cyfrannu at y maes hwn. Pan fydd Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno'n llawn ym mhob ardal, bydd modd cymharu'r ardaloedd hynny yn union a'u graddio yn erbyn ei gilydd hyd yn oed oes yw amodau cymhwysedd a lefelau budd-daliadau yn wahanol i'r rhai sy'n ymwneud â budd-daliadau ym MALIC ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, o ystyried yr amrywio gofodol a'r amserlen hir sydd ynghlwm wrth ei weithredu, oherwydd gwahaniaethau rhwng Credyd Cynhwysol a budd-daliadau hanesyddol mae'n bosib na fyddwn yn cymharu elfennau tebyg ar bwynt penodol wrth iddo gael ei gyflwyno'n ehangach. Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl cael cofnodion perthnasol cyson am hawlwyr o'r system flaenorol a'r system Credyd Cynhwysol. Er enghraifft, oherwydd:

- Nid oedd y Budd-dal Tai yn rhan o'n maes incwm, ond mae ar y rhestr o fudd-daliadau sy'n cael eu disodli gan Gredyd Cynhwysol, ac ni ellir gwahanu hyn o elfennau eraill o Gredyd Cynhwysol (ar gyfer setiau data ynglŷn ag unigolion);
- Gwahanol feini prawf cymhwystra ac incwm cyfatebol o dan yr hen system a'r system newydd, ynghyd ag unrhyw effaith y gall y broses newydd o hawlio ei chael ar nifer y bobl sy'n manteisio ar y cynnig.

Dechreuodd "cyflwyniad llawn" mewn rhai awdurdod lleol yng Nghymru ym mis Ebrill 2017, gan ymestyn Credyd Cynhwysol i hawlwyr y tu hwnt i'r grŵp blaenorol o hawlwyr sengl, newydd y Lwfans Ceisio Gwaith yn bennaf. Mae natur ddaearyddol y cyflwyniad yn debygol o effeithio'n sylweddol ar ddilysrwydd graddio ardaloedd bach yn ôl cyfraddau hawlwyr a gaiff eu mesur ar ôl mis Ebrill 2017.

Bu cyhoeddiad diweddar fod y dyddiad targed ar gyfer cwblhau cyflwyniad Credyd Cynhwysol wedi'i ymestyn i fis Mawrth 2023. Byddai hyn yn golygu y bydd problemau tebyg wrth lunio'r Mynegai nesaf ar ôl 2019 yn sgil darlun cymysg rhwng buddiannau blaenorol a hawlwyr Credyd Cynhwysol.

Mae adroddiad diweddar gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar Gyflwyno Credyd Cynhwysol yn disgrifio tystiolaeth gan gyrff lleol a chenedlaethol bod llawer o bobl wedi cael anawsterau a chaledi yn ystod cyflwyniad Credyd Cynhwysol. Mae'r adroddiad yn datgan nad yw'n bosibl ar hyn o bryd meintioli faint o hawlwyr sy'n cael anawsterau â Chredyd Cynhwysol neu galedi o ganlyniad i hynny. Felly ar hyn o bryd ni allwn ystyried dangosydd o'r fath i'w gynnwys ym MALIC 2019.

### 5.1.4. Dangosydd arfaethedig

Er na ddechreuodd cyflwyniad gwasanaeth llawn y Credyd Cynhwysol yng Nghymru tan fis Ebrill 2017, bu cyflwyniad Credyd Cynhwysol i hawlwyr sengl, newydd y Lwfans Ceisio Gwaith (yn bennaf) yn flaenorol. Ar gyfer ein diweddariadau i'r dangosyddion yn 2016 a 2017, gwnaethom weithio gyda'r DWP i ychwanegu hawlwyr perthnasol at ein dangosyddion cyhoeddedig, ac roedd hyn yn bosibl oherwydd eu bod yn gymharol syml i'w mapio i ddangosyddion yr hen system/ system flaenorol. Gwnaethom gyhoeddi gwybodaeth am hyn yn ein canllaw i ddadansoddi data dangosydd.

Y prif ddangosydd yr ydym yn cynnig ei ddefnyddio ar gyfer MALIC 2019 yw'r diweddariad diweddaraf posibl i ddangosydd 2014 (gan gynnwys achosion cynnar a syml o hawlwyr Credyd Cynhwysol fel y nodir uchod), ar sail cyfnod cyfeirio 2016-17. Rydym yn cynnig y

bydd maes incwm yn cynnwys un dangosydd cyfansawdd a gyfrifir trwy ddefnyddio'r pedair elfen ganlynol:

a) Hawlwyr budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm; mae hyn yn cynnwys hawlwyr Cymhorthdal Incwm, hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith, hawlwyr Credyd Pensiwn, a hawlwyr Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail Incwm; a'u plant dibynnol. Ffynhonnell: DWP.

b) Nifer y plant a'r oedolion mewn teuluoedd sy'n cael Credydau Treth Gwaith a Chredydau Treth Plant ag incwm sy'n llai na 60 y cant o'r incwm canolrifol ar gyfer Cymru (Cyn Costau Tai). Ffynhonnell: Cyllid a Thollau EM (CThEM).

c) Ceiswyr Lloches â Chymorth, h.y. y rhai a gefnogir o dan Adran 95 o'r Ddeddf Mewnfudo a Lloches, a'u plant dibynnol. Ffynhonnell: y Swyddfa Gartref.

d) Pobl sy'n cael Credyd Cynhwysol a'u plant dibynnol. Rydym yn eithrio'r rheini sy'n "gweithio heb unrhyw ofynion" yn ôl dangosydd "amodoldeb" y setiau data. Ffynhonnell: DWP.

Yn y setiau data DWP uchod ceir cofnodion o unigolion unigryw (h.y. caiff y rheini sy'n hawlio amryw o fudd-daliadau eu cyfrif unwaith). Cyfrifir a mynegir y dangosyddion ar ffurf canran o'r boblogaeth gyfan ar gyfer yr AGEHI.

### 5.1.5. Gwaith datblygu presennol

**Dangosydd yn gyson â mynegai amddifadedd lluosog (IMD) Lloegr**

Yn y gorffennol, mae ein cymheiriaid yn Llywodraeth y DU wedi cynnwys dangosydd amddifadedd incwm tebyg ym Mynegai Amddifadedd Lluosog (IMD) Lloegr. Bu rhai gwahaniaethau rhwng dangosyddion Cymru a Lloegr, a cheir elfennau o ddull Lloegr sy'n well na dull Cymru. Er enghraifft, cam ychwanegol i beidio â dyblygu data rhwng budd-dal DWP a data credyd treth CThEM (yn ogystal ag o fewn budd-daliadau DWP), a chynnwys partneriaid hawlwyr nad ydynt yn hawlio yn nata Lloegr.

Ceir diddordeb sylweddol hefyd mewn data cyson ynglŷn ag amddifadedd ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru a Lloegr. Oherwydd hyn, mae swyddogion o'r Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) sy'n gweithio ar ddiweddariad IMD 2019 Lloegr yn archwilio'r opsiwn i ehangu cwmpas eu cais am ddata DWP a CThEM ar gyfer eu maes Incwm i gynnwys Cymru (AGEHI Cymru). Fodd bynnag, ni fyddai graddfeydd cyffredinol IMD 2019 Lloegr yn cynnwys Cymru.

Byddai hyn yn arwain at gyfres gyson o ddangosyddion amddifadedd incwm rhwng Cymru a Lloegr ar gyfer AGEHI, a rhywfaint o welliant methodolegol o'i gymharu â dangosydd presennol MALIC. Fodd bynnag, pwynt cyfeirio y data fydd 2015-16, oherwydd dechreuodd cyflwyniad gwasanaeth llawn Credyd Cynhwysol yn ystod 2016-17 yn Lloegr. Mae'r data hyn yn debygol o fod ar gael yn gynnar yn 2019, a byddwn yn asesu effaith y dull gwahanol ar y dangosydd amddifadedd incwm ar gyfer ardaloedd Cymru bryd hynny.

Nid ydym wedi diystyru defnyddio data dangosydd o ddull Lloegr i fwydo'n uniongyrchol i MALIC 2019, ond nid ydym yn rhagweld y byddwn yn gwneud hynny. Mae hyn oherwydd bod y data flwyddyn yn hŷn na'r hyn yr ydym yn cynnig ei ddefnyddio, ni fyddai'n cynnwys ystod mor llawn o ddadansoddiadau oedran, ac ni fyddai modd ei gymharu â data MALIC

blaenorol. Fodd bynnag, mae'n debygol o fod yn offer ychwanegol defnyddiol i'r rhai sy'n gweithio ar faterion amddifadedd ledled Cymru a Lloegr, a byddem yn gweithio gyda MHCLG i sicrhau bod data ar gael i ddefnyddwyr.

**Canlyniadau ymchwil i ddosbarthiad incwm**

Mae'r ONS wedi llunio canlyniadau ymchwil i ddosbarthiad incwm mewn ardaloedd bach (AGEHI) yn rhan o waith ar y Cyfrifiad Data Gweinyddol. Maent yn ymgorffori data ynglŷn ag incwm o'r cynllun Talu Wrth Ennill (PAYE), systemau budd-daliadau a chredydau treth. Mae'r cyhoeddiad diwethaf yn rhoi data lefel AGEHI ar gyfran y bobl a'r aelwydydd mewn bandiau incwm penodol ar gyfer blwyddyn dreth 2015/16.

Ar hyn o bryd, mae nifer o elfennau ar goll o'r ffynonellau incwm sylfaenol, er enghraifft data ynglŷn ag enillion o hunangyflogaeth (data Hunanasesu), a data ynglŷn ag incwm o Fenthyciadau a Grantiau Myfyrwyr. Mae swyddogion ONS yn gweithio gyda darparwyr data i lenwi rhai o'r bylchau hyn. Trwy ymgorffori data Hunanasesu yn y ffynhonnell erbyn gwanwyn 2019, byddwn yn asesu ansawdd ac addasrwydd data i'w gynnwys ym MALIC 2019, gan gynnwys effaith myfyrwyr ar y dangosydd mewn ardaloedd penodol. Os nad yw data yn briodol ar gyfer MALIC 2019, byddwn yn cadw golwg manwl arno ar gyfer diweddariadau'r Mynegai yn y dyfodol.

Byddai cynnwys data PAYE a Hunanasesu yn caniatáu i ni gofnodi'r rheini ar incwm isel nad ydynt yn hawlio budd-daliadau neu gredydau treth, gan wneud hyn yn ychwanegiad gwerthfawr posibl at y maes. Byddai lle hefyd i gyhoeddi data dangosydd wedi'i ddiweddaru rhwng y mynegeion.

Y math o ddangosydd yr ydym yn ei ystyried yw cyfran yr aelwydydd mewn ardal ag incwm yn is na'r swm trothwy. Rydym yn cynnig dadansoddi aelwydydd yn hytrach nag unigolion oherwydd byddai hyn yn addasu incwm ar gyfer presenoldeb aelodau eraill yr aelwyd (e.e. plant) trwy broses cyfrif cyfwerthedd. Defnyddiodd Mesur Amddifadedd Lluosog Gogledd Iwerddon gronfa ddata debyg o incwm aelwydydd i lunio'i faes incwm yn 2017. Ceir dangosydd cenedlaethol hefyd ar gyfer Cymru ar ganran y bobl sy'n byw ar aelwydydd mewn tlodi incwm yn gymharol â chanolrif y DU. Er ei fod wedi'i fesur o ffynhonnell (arolwg) wahanol ar lefel genedlaethol, mae'n gysyniad tebyg i hwnnw yr ydym yn bwriadu ei archwilio.

### 5.1.6. Gwaith datblygu yn y dyfodol

Byddwn yn parhau i weithio gyda DWP i ystyried sut i ymgorffori Credyd Cynhwysol yn fwy yn y Mynegai ar gyfer fersiynau yn y dyfodol, wrth i ystadegau Credyd Cynhwysol newydd barhau i ddatblygu. Mae DWP wedi ymgynghori'n ddiweddar ar yr ystadegau swyddogol maen nhw'n eu llunio ar y system Credyd Cynhwysol, a chyhoeddi strategaeth rhyddhau ystadegau, sy'n darparu syniad o ddata a all fod ar gael yn y dyfodol. Maen nhw hefyd wedi ymgynghori ar gynigion ar gyfer cyfres ystadegol newydd i gyfrif hawlwyr di-waith.

Ar hyn o bryd, mae'r ONS yn llunio amcangyfrifon incwm ar sail model ar gyfer ardaloedd bach hyd at lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol (AGEHG) o amcangyfrifon arolwg. Nid yw'r rhain ar gael ar lefel AGEHI ar hyn o bryd, ond byddwn yn parhau i fonitro unrhyw ddatblygiadau.

### 5.1.7. Pwysoli

Yn y gorffennol, dim ond un dangosydd sydd wedi'i gynnwys yn y maes. Os byddwn yn datblygu dangosydd cadarn ar aelwydydd ag incwm isel i'w gynnwys ochr yn ochr â'r dangosydd presennol, byddai eu pwysoli perthynol yn dibynnu ar ein hasesiad o ansawdd data sy'n sail i'r dangosydd newydd. Rydym yn disgwyl y byddai hyn yn cael ei bwysoli'n is (o'i gymharu â'r dangosydd presennol) ar gyfer MALIC 2019.

### 5.1.8. Materion ar gyfer ymateb

- A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r prif gynigion ar gyfer dangosydd amddifadedd incwm yn unol â mynegeion blaenorol, ar sail data 2016-17, ar gyfer MALIC 2019?
- A fyddai'n ddefnyddiol i ddangosydd amddifadedd incwm tebyg fod ar gael ar wahân i ganiatáu am gymharu ag ardaloedd bach yn Lloegr (data 2015-16)?
- A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn ag ychwanegu ail ddangosydd ar gyfer aelwydydd ag incwm isel (ar sail canlyniadau ymchwil ONS), yn amodol ar ystyriaethau ansawdd?
- A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â'r cynigion ar gyfer y maes Incwm?

### 5.2. Cyflogaeth

Diben y maes cyflogaeth yw cofnodi'r diffyg cyflogaeth. Mae'n cynnwys y boblogaeth oedran gweithio sy'n cael ei heithrio'n anwirfoddol o waith, gan gynnwys rhai nad ydynt yn gallu gweithio oherwydd gwaeledd neu sy'n ddi-waith ond yn chwilio'n ddyfal am swydd.

#### 5.2.1. Trosolwg o'r cynigion

Mae cyflwyno Credyd Cynhwysol yn effeithio'n sylweddol ar fesur maes cyflogaeth MALIC. Rydym yn cynnig defnyddio data o rywbryd cyn dechrau cyflwyno gwasanaeth llawn Credyd Cynhwysol yng Nghymru (blwyddyn ariannol 2016-17). Nid yw hyn yn effeithio'n fawr iawn ar ba gyfredol yw'r data o'i gymharu â mynegeion blaenorol.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ar opsiynau ar gyfer dangosydd addas gan ddefnyddio data ynglŷn â hawlwyr Credyd Cynhwysol mewn mynegeion yn y dyfodol.

Dylid nodi nad yw'n debygol y bydd yn bosibl parhau i gyhoeddi **data dangosyddion blynyddol** o ganlyniad i effaith Credyd Cynhwysol, yn dibynnu ar ganlyniad y gwaith datblygu a ddisgrifir uchod. Rydym yn ymwybodol o angen sylweddol defnyddwyr i ddefnyddio'r diweddariadau hyn, a byddwn yn parhau i archwilio'r opsiynau sydd ar gael

#### 5.2.2. Dangosydd MALIC 2014

Cyfrifwyd y dangosydd budd-daliadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth ym MALIC 2014 trwy gyfrif unigolion unigryw (h.y. caiff y rheini sy'n hawlio amryw o fudd-daliadau eu cyfrif unwaith) sy'n hawlio:

- Lwfans Ceisio Gwaith (JSA)
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA)
- Budd-dal Analluogrwydd (a Lwfans Anabledd Difrifol)

Mae'r dangosydd yn gipolwg trawstoriadol o bobl ag amddifadedd incwm, wedi'i fesur trwy dderbyn budd-daliadau penodol sy'n gysylltiedig â diweithdra. Mynegir y dangosydd ar ffurf canran o'r boblogaeth oedran gwaith (pob un yn 16-64 oed) ar gyfer AGEHI, a'r ffynhonnell yw DWP.

#### 5.2.3. Credyd Cynhwysol

Mae Credyd Cynhwysol yn disodli'r rhan fwyaf o'r budd-daliadau a'r credydau treth sy'n cyfrannu at y maes hwn. Pan fydd Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno'n llawn ym mhob ardal, bydd modd cymharu'r ardaloedd hynny yn union a'u graddio yn erbyn ei gilydd hyd yn oed oes yw amodau cymhwysedd a lefelau budd-daliadau yn wahanol i'r rhai sy'n ymwneud â budd-daliadau ym MALIC ar hyn o bryd.

Fodd bynnag, o ystyried yr amrywio gofodol a'r amserlen hir sydd ynghlwm wrth ei weithredu, oherwydd gwahaniaethau rhwng Credyd Cynhwysol a budd-daliadau hanesyddol mae'n bosib na fyddwn yn cymharu elfennau tebyg ar bwynt penodol wrth iddo gael ei gyflwyno'n ehangach. Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl cael cofnodion perthnasol cyson am hawlwyr o'r system flaenorol a'r system Credyd Cynhwysol. Er enghraifft, oherwydd:

- Gwahanol feini prawf cymhwystra o dan yr hen system a'r system newydd, ynghyd ag unrhyw effaith y gall y broses newydd o hawlio ei chael ar nifer y bobl sy'n manteisio ar y cynnig;

- Anallu i wahanu unigolion nad ydynt yn gweithio oherwydd afiechyd (rhan o'r maes cyflogaeth) yn y data ynglŷn â Chredyd Cynhwysol.

Dechreuodd "cyflwyniad llawn" mewn rhai awdurdod lleol yng Nghymru ym mis Ebrill 2017, gan ymestyn Credyd Cynhwysol i hawlwyr y tu hwnt i'r grŵp blaenorol o hawlwyr sengl, newydd y Lwfans Ceisio Gwaith yn bennaf. Mae natur ddaearyddol y cyflwyniad yn debygol o effeithio'n sylweddol ar ddilysrwydd graddio ardaloedd bach yn ôl cyfraddau hawlwyr a gaiff eu mesur ar ôl mis Ebrill 2017.

Bu cyhoeddiad diweddar fod y dyddiad targed ar gyfer cwblhau cyflwyniad Credyd Cynhwysol wedi'i ymestyn i fis Mawrth 2023. Byddai hyn yn golygu y bydd problemau tebyg wrth lunio'r Mynegai nesaf ar ôl 2019 yn sgil darlun cymysg rhwng buddiannau blaenorol a hawlwyr Credyd Cynhwysol.

### 5.2.4. Dangosydd arfaethedig

Er na ddechreuodd cyflwyniad gwasanaeth llawn y Credyd Cynhwysol yng Nghymru tan fis Ebrill 2017, bu cyflwyniad Credyd Cynhwysol i hawlwyr sengl, newydd y Lwfans Ceisio Gwaith (yn bennaf) yn flaenorol. Ar gyfer ein diweddariadau i'r dangosyddion yn 2016 a 2017, gwnaethom weithio gyda'r DWP i ychwanegu hawlwyr perthnasol at ein dangosyddion cyhoeddedig, ac roedd hyn yn bosibl oherwydd eu bod yn gymharol syml i'w mapio i ddangosyddion yr hen system/ system flaenorol. Gwnaethom gyhoeddi gwybodaeth am hyn yn ein canllaw i ddadansoddi data dangosydd.

Y prif ddangosydd yr ydym yn cynnig ei ddefnyddio ar gyfer MALIC 2019 yw'r diweddariad diweddaraf posibl i ddangosydd 2014 (gan gynnwys achosion cynnar a syml o hawlwyr Credyd Cynhwysol fel y nodir uchod), ar sail cyfnod cyfeirio 2016-17. Bydd maes cyflogaeth yn cynnwys cyfrifiad o unigolion (h.y. caiff y rheini sy'n hawlio amryw o fudd-daliadau eu cyfrif unwaith) sydd â hawl i:

- Lwfans Ceisio Gwaith (JSA)
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA)
- Budd-dal Analluogrwydd (a Lwfans Anabledd Difrifol)
- Credyd Cynhwysol (UC) ac nid mewn cyflogaeth

Mynegir y dangosydd ar ffurf canran o'r boblogaeth oedran gwaith ar gyfer AGEHI, a'r ffynhonnell yw DWP.

### 5.2.5. Gwaith datblygu presennol

**Dangosydd yn gyson â mynegai amddifadedd lluosog (IMD) Lloegr**

Yn y gorffennol, mae ein cymheiriaid yn Llywodraeth y DU wedi cynnwys dangosydd amddifadedd cyflogaeth tebyg ym Mynegai Amddifadedd Lluosog (IMD) Lloegr, ond gan gynnwys Lwfans Gofalwyr. Ystyriwyd cynnwys Lwfans Gofalwyr ym maes cyflogaeth MALIC ar gyfer MALIC 2014, ond ni chawsant eu cynnwys er mwyn lleihau faint o newidiadau a wneir i'r maes cyn cychwyn Credyd Cynhwysol. Ceir gwahaniaeth bach rhwng y dangosyddion hefyd o ran diffiniad oedran gwaith a ddefnyddir yn yr enwadur, wrth i MALIC ddefnyddio 16-64 ac EMD Lloegr ddefnyddio menywod 18 i 59 oed a dynion 18 i 64 oed.

Ceir diddordeb sylweddol hefyd mewn data cyson ynglŷn ag amddifadedd ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru a Lloegr. Oherwydd hyn, mae swyddogion o'r Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) sy'n gweithio ar ddiweddariad IMD 2019 Lloegr yn archwilio'r opsiwn i ehangu cwmpas eu cais am ddata DWP ar gyfer eu maes Cyflogaeth i gynnwys Cymru (AGEHI Cymru). Fodd bynnag, ni fyddai graddfeydd cyffredinol IMD 2019 Lloegr yn cynnwys Cymru.

Byddai hyn yn arwain at gyfres gyson o ddangosyddion amddifadedd cyflogaeth rhwng Cymru a Lloegr ar gyfer AGEHI, a rhywfaint o welliant methodolegol o'i gymharu â dangosydd presennol MALIC. Fodd bynnag, pwynt cyfeirio y data fydd 2015-16, oherwydd dechreuodd cyflwyniad gwasanaeth llawn Credyd Cynhwysol yn ystod 2016-17 yn Lloegr. Mae'r data hyn yn debygol o fod ar gael yn gynnar yn 2019, a byddwn yn asesu effaith y dull gwahanol ar y dangosydd amddifadedd incwm ar gyfer ardaloedd Cymru bryd hynny.

Nid ydym yn cynnig defnyddio data dangosydd o ddull Lloegr i fwydo'n uniongyrchol i MALIC 2019. Mae hyn oherwydd bod y data flwyddyn yn hŷn na'r hyn yr ydym yn cynnig ei ddefnyddio, ni fyddai'n cynnwys ystod mor llawn o ddadansoddiadau oedran, ac ni fyddai modd ei gymharu â data MALIC blaenorol. Fodd bynnag, mae'n debygol o fod yn offer ychwanegol defnyddiol i'r rhai sy'n gweithio ar faterion amddifadedd ledled Cymru a Lloegr, a byddem yn gweithio gyda MHCLG i sicrhau bod data ar gael i ddefnyddwyr.

### 5.2.6. Ystyriaethau eraill

**Ansawdd swyddi a gwaith teg**

Mae trafodaethau grŵp y maes cyflogaeth wedi ymdrin â chysyniadau ansawdd swyddi a gwaith teg yn agweddau pwysig ar amddifadedd cyflogaeth. Fodd bynnag, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw ddata perthnasol sydd ar gael ar lefel ardal fach ar hyn o bryd.

**Canlyniadau ymchwil y Farchnad Lafur**

Mae'r ONS wedi cyhoeddi canlyniadau newydd o'r ymchwil i'r farchnad lafur yn rhan o waith ar y Cyfrifiad Data Gweinyddol. Y nod yw llunio ystadegau ardal fach sy'n cynnwys amryw o elfennau, ac maent wedi cyhoeddi data ynglŷn â statws marchnadoedd llafur yn ôl awdurdod lleol ar gyfer blwyddyn dreth 2011/12. Maen nhw'n defnyddio data Lwfans Ceisio Gwaith, elfen bresennol o'n dangosydd arfaethedig. Byddwn yn monitro'r gwaith datblygu hwn ar gyfer fersiynau o'r Mynegai yn y dyfodol.

Byddwn yn parhau i weithio gyda DWP i ystyried sut i ymgorffori Credyd Cynhwysol yn fwy yn y Mynegai ar gyfer fersiynau yn y dyfodol, wrth i ystadegau Credyd Cynhwysol newydd barhau i ddatblygu. Mae DWP wedi ymgynghori'n ddiweddar ar yr ystadegau swyddogol maen nhw'n eu llunio ar y system Credyd Cynhwysol, a chyhoeddi strategaeth rhyddhau ystadegau, sy'n darparu syniad o ddata a all fod ar gael yn y dyfodol. Maen nhw hefyd wedi ymgynghori ar gynigion ar gyfer cyfres ystadegol newydd i gyfrif hawlwyr di-waith.

### 5.2.7. Pwysoli

Ein cynnig yw cynnwys un dangosydd yn unig yn y maes.

### 5.2.8. Materion ar gyfer ymateb

- A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r prif gynnig ar gyfer dangosydd amddifadedd cyflogaeth yn unol â mynegeion blaenorol, ar sail data 2016-17, ar gyfer MALIC 2019?
- A fyddai'n ddefnyddiol i ddangosydd amddifadedd cyflogaeth tebyg fod ar gael ar wahân i ganiatáu am gymharu ag ardaloedd bach yn Lloegr (data 2015-16)?
- A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â'r cynigion ar gyfer y maes Cyflogaeth?

### 5.3. Iechyd

Diben y maes hwn yw mesur diffyg iechyd da. Nid yw'r maes hwn yn cynnwys unrhyw is-feysydd. Mae rhai o'r dangosyddion yn y maes hwn wedi'u safoni ar sail oedran a rhyw er mwyn darparu ar gyfer gwahaniaethau'r boblogaeth mewn ardaloedd bach.

#### 5.3.1. Trosolwg o'r cynigion

Rydym wedi dewis cyflwyno'r dangosyddion arfaethedig yn y tri chategori isod:

- Dangosyddion sy'n ymwneud â phlant
- Dangosyddion sy'n mesur cyflyrau penodol â diagnosis
- Dangosyddion sy'n rhoi darlun o statws iechyd y boblogaeth ehangach

Mae hyn yn helpu i ddangos amrywiaeth y ffynonellau data sy'n cael eu hystyried, sydd yn ei dro yn helpu i sicrhau y cofnodir yr amrywiaeth o broblemau iechyd sy'n effeithio ar aelodau o'n cymdeithas yn y maes hwn. Mae rhai o'r dangosyddion arfaethedig yn parhau heb eu newid o'r mynegai blaenorol ac mae eraill wedi'u mireinio. Mae gwybodaeth dechnegol lawn am ddangosyddion presennol ar gael yn Adroddiad Technegol MALIC 2014.

Mae llawer iawn o waith datblygu parhaus yn mynd rhagddi ym maes iechyd. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn arwain at ddarlun llawnach o iechyd ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru ar gyfer MALIC 2019. Mae llawer o gynigion ar gam datblygu cynnar o hyd ac felly nid oes unrhyw fanylion ar hyn o bryd. byddwn yn ymhelaethu ar ddangosyddion newydd i'w cyflwyno yn ein hadroddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad yng ngwanwyn 2019.

Mae crynodeb o'n cynigion o dan bob pennawd yn dilyn â rhagor o fanylder yn adran 5.3.2.

- Dangosyddion sy'n ymwneud â phlant
  - Rydym yn cynnig ategu mesur o bwysau geni â mesur newydd ar blant dosbarth derbyn sydd â phwysau afiach
- Dangosyddion sy'n mesur cyflyrau penodol â diagnosis.
  - Rydym yn gobeithio ymestyn yr amrywiaeth i ddangosyddion o nifer yr achosion o ganser yn unig, i gynnwys mesur addas o gyflyrau cronig ac o iechyd meddwl
- Dangosyddion sy'n nodi statws iechyd poblogaethau yn ehangach
  - Rydym yn bwriadu cadw dull hunanadrodd o salwch cyfyngus hirdymor a mireinio'r mesur marwoldeb i ganolbwyntio ar farwolaethau cyn pryd.

#### 5.3.2. Dangosyddion Arfaethedig

**Dangosyddion sy'n ymwneud â phlant**

**Pwysau Geni Isel (LBW)**

Mae pwysau geni yn cysylltu'n anuniongyrchol â marwolaethau ymhlith babanod, disgwyliad oes, ac mae'n rhagnodi anabledd a chyflawniad addysgol yn ogystal â diabetes, strôc a chlefyd y galon ymhlith oedolion. Cafodd canran y genedigaethau unigol byw o lai na 2.5kg (5.5lbs) ei chynnwys ym MALIC 2011 a MALIC 2014. Mae'r data hwn yn unol â'r Dangosydd Cenedlaethol ar gyfer pwysau geni isel sy'n helpu i fesur cynnydd o'i

gymharu â Nodau Llesiant yng Nghymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Mae'n debygol y byddwn yn cynnwys pwysau geni isel yn unol â'r disgrifiad uchod ym MALIC 2019. Fodd bynnag, byddwn yn archwilio pwysau geni iach (sy'n briodol ar gyfer oedran y ffetws, ac felly'n cynnwys y rhai hynny sy'n fawr o ystyried oedran y ffetws yn ogystal â'r rhai sy'n fach) fel mesur arall ar gyfer pwysau geni isel.

**Plant â phwysau afiach**

Ystyrir ei bod yn berthnasol cynnwys mesur o blant â phwysau afiach (pwysau isel, gorbwysau, a/neu ordewdra), oherwydd y cysylltiadau rhwng pwysau afiach yn ystod plentyndod ac yn oedolyn yn arwain at broblemau iechyd tymor hwy. Ym MALIC 2014 nid oedd digon o flynyddoedd o ddata ar gael o'r Rhaglen Mesur Plant (ar gyfer plant dosbarth derbyn) i gynnwys mesur o'r fath. Rydym wedi dechrau archwilio data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer MALIC 2019. Nid ydym wedi penderfynu ar yr union categorïau a ffefrir i'w gynnwys, ac rydym yn bwriadu parhau i adolygu'r data ar gyfer ardaloedd bach a thystiolaeth o'r cysylltiadau rhwng pwysau yn ystod plentyndod ac iechyd yn y dyfodol i helpu'r penderfyniad hwn. Rydyn ar hyn o bryd yn ystyried cynnwys mesuriad o ordewdra ar ben ei hun, mae hyn oherwydd:

- Nifer fach o blant yn y categori dan-bwysau
- Mae ymchwil yn awgrymu fod plant sy'n cael eu dosbarthu fel bod yn ordrwm tra yn y flwyddyn dderbynfa'n fwy tebygol i gyrraedd pwysau iachus erbyn blwyddyn 4 na rheini a oedd wedi'u dosbarthu fel gordew.

**Dangosyddion sy'n mesur cyflyrau penodol â diagnosis**

**Achosion o Ganser**

Mae canser yn gyflwr cyffredin a all arwain at effeithiau negyddol sylweddol a pharhaol ar iechyd a lles unigolyn. Cafwyd 19,088 o achosion newydd yng Nghymru yn 2015 a cheir tuedd hirdymor o niferoedd yn y boblogaeth yn cynyddu. Y dangosydd hwn yw nifer y bobl sy'n cael diagnosis o ganser (pob malaenedd ac eithrio canser y croen anfelanomaidd) ym mhob 100,000 o bobl yng Nghymru a chaiff ei safoni'n anuniongyrchol ar gyfer proffil oedran a rhyw y boblogaeth. Ffynhonnell ddata y dangosydd hwn yw Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru (WCISU). Cafodd nifer yr achosion o ganser ei gynnwys ym MALIC 2011 a 2014.

Trafodwyd cynnwys data ynglŷn â chyfnod y canser adeg diagnosis i adlewyrchu effaith sgrinio, llythrennedd iechyd a mynediad at wasanaethau iechyd mewn ardal, a allai fod yn brocsi ar gyfer amddifadedd iechyd ehangach. Fodd bynnag, dim ond pedair blynedd o ddata sydd ar gael ynglŷn â'r cyfnod o ganser, ac nid yw hyn yn rhoi ffigyrau cadarn ar lefel AGEHI. Byddwn yn edrych eto ar y ffynhonnell ddata hon ar gyfer y Mynegai nesaf.

**Cyflyrau cronig**

Cytunodd bron pob un o'r ymatebwyr i ymgynghoriad 2014 y byddai'n ddefnyddiol ychwanegu dangosydd sy'n mesur nifer yr achosion o gyflyrau cronig penodol (e.e. clefyd coronaidd y galon, diabetes) y mae meddygon teulu yn cofnodi diagnosis ohonynt. Mae adroddiad diweddar Iechyd Cyhoeddus Cymru ar Iechyd a'i benderfynyddion yng Nghymru yn amlinellu prif achosion marwolaeth, anabledd a salwch sy'n creu darlun o iechyd yng Nghymru. Os byddwn yn llwyddo i gael mynediad at ddata addas, byddem yn cyfeirio at y

gwaith hwn (ynghyd â data ynglŷn â nifer y bobl dan sylw) wrth benderfynu ar yr amodau i ganolbwyntio arnynt a'u cronni at ei gilydd i ddarparu un dangosydd o nifer yr achosion o gyflyrau cronig.

Mae'r Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau (QOF) yn system i bractisau meddygon teulu gadw cofrestrau ar gyfer gwahanol gyflyrau. Cyflwynwyd y system hon yn 2004 ac er ei bod yn wirfoddol, cymerodd pob practis yng Nghymru ran ynddi yn 2016-17. Mae data ar gael ar hyn o bryd a chaiff ei gyhoeddi ar lefel practis meddyg teulu fel arfer. Ar hyn o bryd, rydym yn ymchwilio i ba un a allwn gael gafael ar y data hwn ar lefel AGEHI (ar sail lle mae claf yn byw) o wasanaethau Gwybodeg GIG Cymru (NWIS).

Os gallwn gael gafael ar y data hwn fyddwn yn archwilio ei ansawdd a'i gysondeb cyn penderfynu a yw'n briodol ei gynnwys ym MALIC 2019. Er enghraifft, gall sut y caiff cyflyrau penodol eu cofnodi mewn meddygfeydd meddygon teulu amrywio, yn arbennig gan nad yw'r system yn orfodol.

**Iechyd Meddwl**

Hoffem gynnwys dangosydd iechyd meddwl ym MALIC 2019. Mae dangosyddion iechyd meddwl wedi'u cynnwys yn y mynegeion amddifadedd ar gyfer y tair gwlad arall yn y DU. Mae iechyd meddwl hefyd yn faes blaenoriaeth yn Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru Ffyniant i Bawb. Mae ein hymchwil wedi canolbwyntio ar ddwy ffynhonnell allweddol a all ddarparu dangosyddion o nifer yr achosion o cyflyrau iechyd meddwl ar lefel ardal fach.

Mae Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi cynnwys data ynglŷn â phresgripsiynau mewn dangosydd iechyd meddwl, i amcangyfrif cyfran y boblogaeth sy'n meddyginiaeth sydd wedi'u rhagnodi ar gyfer cyflyrau iechyd meddwl, fel iselder a gorbryder. Un ddadl yn erbyn y dull hwn yw bod amrywio yn debygol o ran y duedd i ragnodi meddyginiaethau penodol ymysg practisau meddygon teulu, e.e. mewn rhai ardaloedd gwnaed llawer o waith i annog rhagnodi cymdeithasol ar gyfer cyflyrau iechyd meddwl penodol. Hefyd, ar hyn o bryd ni allwn gael gafael ar ddata AGEHI wedi'i agregu o lefel unigol (data gweinyddu syn cynnwys gwybodaeth ddemograffig cleifion) oherwydd rhwystrau rhag cael gafael ar ddata. Ceir nifer o faterion â dull amgen o gael gafael ar ddata sydd ar gael ar lefel practis meddyg teulu ynglŷn â chyffuriau ar bresgripsiwn:

- yr angen i lunio casgliadau ynglŷn â nifer y bobl sy'n cael meddyginiaethau ar bresgripsiwn (mae'r data dim ond yn dweud wrthym nifer y presgripsiynau a gaiff eu hysgrifennu)
- yr angen i ddata ar lefel practis meddyg teulu gael ei ddadansoddi ar lefel AGEHI, pan fo gan bractisau ddalgylchoedd mawr iawn o ryw 100-250 o AGEHI yn aml.

Mae data y Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau (QOF) (a gaiff ei ddisgrifio'n fanwl yn yr is-adran flaenorol) gan gynnwys gwybodaeth o gofrestrau meddygon teulu am gyflyrau iechyd meddwl penodol y rhoddir diagnosis ar eu cyfer fel iselder. Os gallwn gael gafael ar y data ar lefel AGEHI (ar sail cyfeiriad cartref claf), rydym yn ffafrio defnyddio data QOF i lunio dangosydd wedi'i seilio ar gofrestrau meddygon teulu o gyflyrau iechyd meddwl. Ceir nifer o faterion eraill y bydd angen eu harchwilio cyn penderfynu a yw'n briodol cynnwys data QOF ynglŷn ag iechyd meddwl ym MALIC 2019.

**Dangosyddion sy'n nodi statws iechyd poblogaethau yn ehangach**

**Salwch Cyfyngus Hirdymor**

Cafodd nifer y bobl o bob 100,000 â salwch cyfyngus hirdymor ei gynnwys ym MALIC 2014 a'r ffynhonnell yw Cyfrifiad 2011, y Swyddfa Ystadegau Office Gwladol (ONS). Mae salwch cyfyngus hirdymor yn cynnwys unrhyw salwch, problem iechyd neu anabledd hirdymor sy'n cyfyngu ar weithgareddau dyddiol neu waith.

Gan ei fod wedi'i seilio ar y Cyfrifiad, byddai'r data yn unfath â hwnnw a ddefnyddiwyd ar gyfer MALIC 2014. Fodd bynnag, rydym yn cynnig cadw'r dangosydd gan ei fod yn wahanol i eraill a ddisgrifir uchod gan ei fod yn fesur o'r boblogaeth gyfan a gaiff ei adrodd gan unigolion eu hunain. Ar un llaw gall gofnodi'r rhai hynny â salwch ond nad ydynt i'w gweld yng nghofnodion y gwasanaeth iechyd, ac ar y llaw arall beidio â chynnwys y rhai hynny (sydd wedi'u cynnwys mewn dangosyddion eraill) nad ydynt yn ystyried eu hunain i fod wedi'u cyfyngu yn eu gweithgareddau dyddiol.

**Data Marwoldeb**

Cafodd cyfradd marwolaethau o bob achos, neu nifer y marwolaethau am bob 100,000 o bobl, ei chynnwys ym MALIC 2011 a MALIC 2014 yn lle marwoldeb. Yn dilyn dadansoddiad o'r data ynglŷn â marwoldeb, rydym yn cynnig cynnwys dangosydd ar gyfradd y marwolaethau i'r rhai hynny sydd o dan 75 oed, **cyfradd y marwolaethau cyn pryd**. Byddwn yn archwilio'r ffordd orau o safoni hyn yn ôl proffil rhyw ac oedran y boblogaeth. Ffynhonnell y data yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).

Ein barn ni yw bod y mesur marwoldeb cyn pryd yn fwy sensitif i iechyd gwael yn sgil disgwyliad oes is ac felly byddai'n fwy perthnasol i amddifadedd iechyd mewn poblogaeth. Yn gyntaf, gwnaethom ystyried cynnwys marwoldeb y gellid ei osgoi (gweler isod) ond ar ôl archwilio'r data gwelwyd bod mesurau marw cyn pryd yn fwy cadarn ar lefel ardal fach heb effeithio ar berthnasedd neu'r cysylltiad ag amddifadedd iechyd. Mae cysylltiad cryf iawn rhwng data marwoldeb y gellid ei osgoi a'r gyfradd marw cyn pryd.

Ystyr marwoldeb y gellid ei osgoi yw marwolaethau o ganlyniad i achosion yr ystyrir y gellid eu hosgoi pe byddai gofal iechyd neu ymyraethau iechyd cyhoeddus amserol ac effeithiol. Ystyriwyd cynnwys y cysyniad hwn ym MALIC 2019 oherwydd y cysylltiad mwy cadarn ag amddifadedd na marwolaethau yn ôl yr hyn sy'n eu hachosi. Fodd bynnag, yn ogystal â diffyg cadernid ar lefel ardal fach, mae marwoldeb y gellid ei osgoi yn gysyniad eithaf cymhleth i'w ddiffinio ac mae rhywfaint yn oddrychol, ac felly ni ddymunir ei gynnwys ym MALIC cymaint, yn gymharol i'r gyfradd marw cyn amser.

### 5.3.3. Dangosyddion i'w hystyried ar gyfer y dyfodol

**Dangosydd iechyd a lles plant**

Rydym wedi ystyried deillio dangosydd sy'n mesur lles plant o'r data a gasglwyd trwy'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion (SHRN), sy'n ymdrin â nifer o bynciau iechyd, lles neu ffordd o fyw. Ers tymor yr hydref 2017 mae pob ysgol wedi cymryd rhan yn y rhwydwaith ymchwil hwn ac mae rhyw 100,000 o blant rhwng 11 ac 16 oed yn bennaf wedi'u cynnwys yn y mesurau. Ceir potensial i gysylltu data cyfranogion â data PLASC a dylai hyn ganiatáu am ddeillio amcangyfrifon AGEHI, dull sy'n cael ei dreialu ar hyn o bryd.

Byddwn yn parhau i archwilio sut y gallem ddefnyddio'r data hyn fel dangosydd iechyd MALIC ac mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn ei ystyried ar gyfer mynegai yn y dyfodol.

**Cyfnod y Canser adeg Diagnosis**

Gweler adran 5.3.2.

### 5.3.4. Dangosyddion a wrthodwyd

**Dangosyddion Mamolaeth – bwydo ar y fron**

Er bod amryw o fuddion i fabanod a mamau yn sgil bwydo ar y fron, ni ystyrir ei bod yn addas cynnwys hyn yn ddangosydd ym MALIC oherwydd:

- Ansawdd y data: Ceir nifer o gofnodion coll ar gyfer babanod a gaiff eu bwydo ar y fron adeg geni. Er mwyn i ni lunio amcangyfrifon AGEHI byddai angen sawl blwyddyn o ddata arnom, ac er bod yr ansawdd yn gwella, nid oes digon o ddata i ganiatáu i ni lunio dangosydd cadarn.
- Cynnwys pwysau geni isel: Er bod manteision yn sgil bwydo ar y fron, mae pwysau geni isel yn rhagfynegydd gwell o amrywiaeth o ffactorau iechyd ac addysgol ac felly ffefrir yr opsiwn hwn i'w gynnwys yn y mynegai.

**Cyfran y Gofalwyr Heb Dâl**

Wrth baratoi ar gyfer 2014, awgrymwyd y dylem ystyried cynnwys mesur o lefelau gofal heb dâl o'r Cyfrifiad, er mwyn cofnodi amddifadedd iechyd posibl y gofalwr. Fodd bynnag, byddai salwch gofalwyr yn cael ei gofnodi trwy ddangosyddion eraill, a byddai angen llunio dangosydd ar wahân o ddata Cyfrifiad 2011. Cytunodd y grŵp i beidio â chanlyn hyn ar gyfer MALIC 2019 am y rhesymau uchod a'r rhai a nodwyd yn 2014.

**Arosiadau Brys yn yr ysbyty**

Mae Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi cynnwys mesur sy'n ymwneud ag arosiadau brys yn yr ysbyty. Awgrymwyd y dangosydd hwn yn fesur o ofal sylfaenol a gofal iechyd ataliol gwael. Yn y gorffennol, rydym wedi penderfynu peidio â'i gynnwys oherwydd gallai fesur diffyg cyflenwad yn hytrach nag iechyd gwael, gallai fod amrywiaethau gweithredol rhwng ac o fewn adrannau brys (e.e. os yw gwahanol staff yn gweithio ar wahanol adegau) a materion sy'n ymwneud ag agosrwydd (e.e. gwahanol gyfraddau derbyn mewn ardaloedd trefol/gwledig). Nid ydym yn cynnig canlyn hyn i'w gynnwys ym MALIC 2019.

**Nifer posibl y blynyddoedd o fywyd a gollir**

Ffordd arall o ystyried marwoldeb yw trwy ddangosydd sy'n mesur y nifer posibl o flynyddoedd o fywyd a gollir. Fodd bynnag, mae'r cysyniad hwn yn cysylltu'n agos â'r gyfradd marwoldeb cyn pryd symlach a mwy cadarn, ac ni chaiff ei ystyried i'w gynnwys ym MALIC 2019.

**Disgwyliad Oes Iach**

Gall disgwyliad oes iach fod yn arbennig o bwysig o ystyried poblogaeth sy'n heneiddio. Fodd bynnag, ni ystyried bod y data yn gadarn ar lefel AGEHI a byddai'n fwy tebygol o ddibynnu ar wybodaeth am nifer yr achosion o Gyfrifiad 2011. Mae'r data ar lefel Awdurdod Lleol ar gael o'r ONS.

**Cyfradd pob achos o farwolaeth**

Gweler adran 5.3.2.

**Marwoldeb y gellid ei osgoi**

Gweler adran 5.3.2.

### 5.3.5. Datblygiadau eraill

**Cronfa ddata Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL)**

Rydym yn archwilio'r posibilrwydd o lunio dangosyddion iechyd trwy gael gafael ar ddata cysylltiedig o'r gronfa ddata SAIL (a gefnogwyd gan Brifysgol Abertawe). Gallai hyn gynnwys data ynglŷn ag afiechydon cronig, arosiadau brys yn yr ysbyty, gordewdra ymhlith plant ac iechyd meddwl. Hyd yn oed os na ddaw'r data ar gyfer MALIC 2019 o'r gronfa ddata SAIL byddai'n ddefnyddiol i ddilysu a gwirio'r mesurau yr ydym yn eu hystyried. Er enghraifft, wrth gyfeirio at y dangosyddion arfaethedig uchod, rydym gobeithio y bydd lle i ddefnyddio'r gronfa ddata SAIL i archwilio'r cysylltiad rhwng nifer yr achosion a'r presgripsiynau ar gyfer mathau arbennig o salwch, er mwyn barnu pa mor dda yw data procsi ynglŷn â phresgripsiynau ar gyfer diffyg iechyd da.

### 5.3.6. Pwysoli

O fewn y maes Iechyd, defnyddir dadansoddiad o ffactorau i benderfynu ar bwysoliad y dangosyddion cyfansoddol, ac rydym yn cynnig parhau â'r dull hwn pe byddai'r tri dangosydd ychwanegol yn cael eu cynnwys.

Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd y dadansoddiad ffactorau yn pennu pwysau isel i rai dangosyddion. Bydd hyn yn golygu na fydd y dangosyddion hyn yn ychwanegu gwybodaeth bwysig at y mesur o amddifadedd yn y maes hwn. Felly byddwn yn ystyried eu hepgor i'r Mynegai mewn achosion o'r fath.

### 5.3.7. Materion ar gyfer ymateb

- A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r dangosydd newydd arfaethedig ar gyfer plant dosbarth derbyn â phwysau afiach?
- A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â dangosydd newydd arfaethedig ar gyfer cyflyrau cronig?
- A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â dangosydd newydd arfaethedig ar gyfer iechyd meddwl?
- A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r cynnig i ddiwygio'r dangosydd marwoldeb i fod yn un ar gyfer marwoldeb cynamserol?

- ➢ Pa drefn flaenoriaeth fyddech chi'n ei rhoi ar ddatblygu mesur o blant dosbarth derbyn â phwysau afiach, cyflyrau cronig neu iechyd meddwl ar gyfer MALIC 2019?
- ➢ A oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â'r cynigion ar gyfer y maes Iechyd?

## 5.4. Addysg

Diben y maes hwn yw nodi faint o amddifadedd sy'n gysylltiedig ag addysg, hyfforddiant a sgiliau. Y nod yw adlewyrchu'r anfantais addysgol o fewn ardal yn nhermau diffyg cymwysterau a sgiliau. Mae'r dangosyddion arfaethedig yn nodi lefelau cyrhaeddiad isel ymhlith plant a phobl ifanc a diffyg cymwysterau ymhlith oedolion.

Y cynnig allweddol o'r ymgynghoriad ar Reoliadau Addysg ((Diwygiadau sy'n Ymwneud â Gwybodaeth Asesiadau Athrawon) (Cymru) 2018 oedd na fydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data asesiad athrawon mwyach nac ychwaith ddata o'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol sy'n is na'r lefel genedlaethol. Byddai'r newid hwn yn berthnasol i'r Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 yn yr holl ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir gan awdurdodau lleol Cymru.

Fodd bynnag, nododd yr ymgynghoriad hefyd y bydd data yn parhau i gael ei gyhoeddi'n rhagweithiol at ddibenion ystadegol ac elfennau daearyddol eraill, e.e. AGEHI ac etholaethau'r cynulliad, pan nad yw diben, defnydd na phwyslais y data yn gysylltiedig ag atebolrwydd ysgolion, e.e. i gefnogi lluniad Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (paragraff 38). Felly, bydd ystyriaeth ofalus o gyflwyniad data deilliannau addysgol ar lefel AGEHI yn allbynnau MALIC 2019, ond dylid nodi fel mewn cyhoeddiadau blaenorol o'r MALIC, y bydd data dangosydd sy'n ymwneud ag ysgolion wedi'i seilio ar le mae disgyblion yn byw yn hytrach na lleoliad yr ysgol.

### 5.4.1. Trosolwg o'r cynigion

Rydym wedi dewis grwpio'r dangosyddion arfaethedig yn gysyniadol i'r tri chategori isod:

- Dangosyddion blynyddoedd cynnar
- Dangosyddion deilliannau/absenoldeb ysgol
- Dangosyddion addysg ôl-orfodol / y boblogaeth ehangach

Ceir crynodeb isod o'n cynigion ar gyfer pob categori, a cheir rhagor o fanylion yn adran 5.4.2.

- **Dangosyddion blynyddoedd cynnar:**
  Rydym yn cynnig cynnwys dangosydd sy'n deillio o ddata Asesiad Sylfaenol y Cyfnod Sylfaen gan Lywodraeth Cymru er mwyn cofnodi datblygiad addysgol yn y blynyddoedd cyn ysgol. Mae Blynyddoedd Cynnar yn faes blaenoriaeth yn strategaeth genedlaethol *Ffyniant i Bawb* Llywodraeth Cymru.
- **Dangosyddion deilliannau/absenoldeb ysgol:**
  Rydym yn bwriadu cadw'r sgôr pwyntiau cyfartalog yng Nghyfnod Allweddol 2 ac ailadrodd dangosyddion absenoldeb o MALIC 2014, datblygu sgôr pwyntiau cyfartalog newydd ar gyfer Cyfnod Allweddol 4, a chyflwyno sgôr pwyntiau cyfartalog yn y Cyfnod Sylfaen sy'n deillio o ddata deilliannau ar ddiwedd blwyddyn 2.

- **Dangosyddion addysg ôl-orfodol / y boblogaeth ehangach:**
  Rydym yn bwriadu cadw'r dangosyddion ar gyfer y gyfran o bobl nad ydynt yn mynd i addysg uwch yn 18-19 oed a nifer yr oedolion 25-64 oed heb unrhyw gymwysterau o MALIC 2014. Fodd bynnag, rydym yn bwriadu archwilio ffynonellau data eraill posibl o'r dangosydd blaenorol.

### 5.4.2. Dangosyddion Arfaethedig

**Dangosydd Asesiadau Adeg Mynediad o Ddisgyblion Dosbarth Derbyn** (cyfartaledd tair blynedd) – Nid oedd y dangosydd hwn wedi'i gynnwys ym MALIC 2014. Byddai wedi'i seilio ar asesiadau athrawon a gynhelir yn ystod y 6 wythnos gyntaf yn yr ysgol a byddai'n mesur amddifadedd addysgol yn y blynyddoedd cyn ysgol. Ffynhonnell ddata y dangosydd hwn yw'r Data o Asesiadau Adeg Mynediad o Ddisgyblion Dosbarth Derbyn a gesglir gan Lywodraeth Cymru. Defnyddir y data hwn hefyd i lunio Dangosydd Cenedlaethol 6 (*Mesur Datblygiad Plant Ifanc*). Disgwylir y bydd y dangosydd hwn wedi'i seilio ar sgôr pwyntiau cyfartalog yn unol â'r mesurau deilliannau ysgol a nodir isod.

**Sgôr Pwyntiau Cyfartalog y Cyfnod Sylfaen** (cyfartaledd tair blynedd) – Nid oedd y dangosydd hwn wedi'i gynnwys ym MALIC 2014 ond cynigir ei gynnwys ym MALIC 2019. Y mae wedi'i seilio ar ganlyniadau asesiadau athrawon ar gyfer plant 7 oed sy'n cael eu haddysgu yng Ngrŵp Blwyddyn 2 y Cwricwlwm Cenedlaethol (h.y. diwedd y Cyfnod Sylfaen). Nid yw'n statudol i ysgolion annibynnol ddarparu'r data hwn felly nid ydynt wedi'u cynnwys. Bydd y dangosydd hwn yn ategu'r dangosydd Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Cyfnod Allweddol 2 (gweler isod) i fesur amddifadedd addysgol ar lefel ysgol gynradd. Ffynhonnell ddata y dangosydd hwn yw Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC) a'r Casgliad Data Cenedlaethol (NDC), gan Lywodraeth Cymru.

**Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Cyfnod Allweddol 2** (cyfartaledd tair blynedd) – Cafodd y dangosydd hwn ei gynnwys ym MALIC 2014. Mae'r dangosydd hwn wedi'i seilio ar ganlyniadau asesiadau athrawon ar gyfer disgyblion 11 oed sy'n cael eu haddysgu yng Ngrŵp Blwyddyn 6 y Cwricwlwm Cenedlaethol (h.y. diwedd Cyfnod Allweddol 2). Nid yw'n statudol i ysgolion annibynnol ddarparu'r data hwn felly nid ydynt wedi'u cynnwys. Ffynhonnell ddata y dangosydd hwn yw Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC) a'r Casgliad Data Cenedlaethol (NDC), gan Lywodraeth Cymru.

**Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Cyfnod Allweddol 4** (cyfartaledd tair blynedd) – Cafodd dau ddangosydd cyflawniad yng Nghyfnod Allweddol 4 eu cynnwys ym MALIC 2014 (Sgôr Pwyntiau Wedi'u Capio CA4 a Lefel 2 Cynhwysol CA4). O ganlyniad i nifer o ffactorau, gan gynnwys newidiadau i sut y caiff cyflawniad ei fesur yn CA4 yng Nghymru, amrywio rhwng mesurau CA4 yng Nghymru a Lloegr, a'r newidiadau tymor hwy i'r cwricwlwm yn sgil Dyfodol Llwyddiannus; nid yw'r dangosyddion hyn yn briodol mwyach ar gyfer MALIC 2019.

O fis Medi 2019 ymlaen, bydd Llywodraeth Cymru yn symud i fersiwn mwy diweddar o'r sgôr pwyntiau 'Capio 9' bresennol i fesur cyflawniad yn CA4. Fodd bynnag, gan fod y newidiadau a nodwyd uchod i fesurau CA4 wedi'u gweithredu'n raddol ers 2015/16, nid yw'n bosibl llunio data cymharol o dair blynedd o'r sgôr 'pwyntiau capio 9' ar gyfer MALIC 2019.

Felly cynigir datblygu dangosydd CA4 arunig. Bydd yn ystyried y graddau a gyflawnir gan holl ddisgyblion blwyddyn 11 mewn TGAU Saesneg neu TGAU Cymraeg, TGAU Mathemateg a TGAU Gwyddoniaeth (h.y. elfennau craidd y sgôr pwyntiau 'capio 9'); a deillio dangosydd yn seiliedig ar y sgôr pwyntiau cyfartalog a gyfrifwyd o'r canlyniadau hyn. Mae'r diffiniad union am y dangosydd heb eto ei phenderfynu, ac rydym yn agored i farn ar hyn. Ffynhonnell ddata y dangosydd hwn yw PLASC a Chronfa Ddata Arholiadau Cymru (WED), gan Lywodraeth Cymru ac mae ar gael yn gyson dros amser.

Roedd y ddau ddangosydd CA4 a oedd wedi'u cynnwys ym MALIC 2014 yn cynnwys data gan yr Adran Addysg (DfE) yn ymwneud â disgyblion blwyddyn 11 mewn ysgolion yn Lloegr ond sy'n byw yng Nghymru. Byddwn yn parhau i gysylltu â'r DfE i gael gafael ar ddata priodol i'w gynnwys yn y dangosydd newydd hwn.

**Cyfradd Absenoldeb Mynych** (cyfartaledd tair blynedd) – Cafodd y dangosydd hwn ei gynnwys ym MALIC 2014. Ceir cysylltiad cydnabyddedig rhwng absenoldeb a chyrhaeddiad. Diffiniad Llywodraeth Cymru o 'ddisgybl sy'n absennol yn gyson' yw disgybl sy'n colli 20% neu fwy o sesiynau hanner diwrnod o ysgol. Fodd bynnag, fel ym MALIC 2014, bydd y dangosydd hwn yn defnyddio trothwy o 15%. Mae dadansoddiadau blaenorol wedi dangos bod nifer y 'disgyblion sy'n absennol yn gyson' ar drothwy o 20% yn rhy isel at ddibenion cyfrifo dangosydd priodol ar lefel ardal fach. Serch hynny, mae nifer yr absenoldebau mynych yn sylweddol uwch ar drothwy o 15%, a daw ymchwil gan yr Adran Addysg yn Lloegr[2] i'r casgliad pan fydd amryw o nodweddion disgyblion wedi'u rheoli, bod disgyblion sy'n colli mwy na 15% o sesiynau ysgol yn disgyn gradd gyfan yn eu TGAU, o'i gymharu â'r rhai hynny sy'n colli llai na 15% o sesiynau ysgol. Felly awgrymir y dylid defnyddio dangosydd ar gyfradd y disgyblion sy'n colli 15% neu fwy o sesiynau ysgol fel procsi r gyfer absenoldeb mynych at ddibenion MALIC 2019. Bydd y data wedi'i seilio ar yr holl ddisgyblion o oedran ysgol statudol mewn ysgol a gynhelir. Ffynhonnell ddata y dangosydd hwn yw PLASC, casgliad data Presenoldeb, gan Lywodraeth Cymru.

**Cyfran y bobl nad ydynt yn mynd i Addysg Uwch yn 18-19 oed** – Er y byddai mesur o nifer y bobl nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant, yn fesur cryfach o amddifadedd addysg ar gyfer pobl ifanc, ar lefel gysyniadol, nid yw'n bosibl cynnwys hyn (fel y nodir ar y dudalen nesaf). Fodd bynnag, gall peidio â pharhau i addysg uwch adlewyrchu diffyg cyfleoedd, a bydd hyn yn effeithio ar gyrhaeddiad mewn cymwysterau lefel uwch (sy'n gysylltiedig â gweithgarwch economaidd a chyflog).

Ffynhonnell ddata y dangosydd hwn ym MALIC 2014 oedd data was the Cyfranogiad Ardaloedd Lleol (POLAR) a ddatblygwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (y Swyddfa Myfyrwyr bellach). Fodd bynnag, oherwydd newidiadau sylfaenol yn y dull o lunio'r data, rydym wedi cael gwybod bod y cyhoeddiad diweddaraf o ddata POLAR ar gael ar lefel AGEHG yn unig. Felly mae gennym dri opsiwn posibl:

- *Yr opsiwn a ffefrir*: Ymchwilio i ffynonellau data posibl eraill, er enghraifft defnyddio dulliau o gysylltu data a ddefnyddir ar gyfer data sydd gan Lywodraeth Cymru eisoes.

- *Opsiwn arall 1*: Defnyddio'r data POLAR diweddaraf (POLAR4) sy'n mesur y rhai hynny a aeth i addysg uwch rhwng blynyddoedd academaidd 2009/10 a 2014/15, a phennu ffigwr lefel AGEHG i bob AGEHI sydd wedi'i lleoli ynddi.

[2] DFE-RR171 – Proffil o Absenoldebau Disgyblion yn Lloegr

- *Opsiwn arall 2*: Ailddefnyddio'r data POLAR3 blaenorol a ddefnyddiwyd ar gyfer MALIC 2014 a fesurodd y rhai hynny a aeth i addysg uwch yn ystod blynyddoedd academaidd 2005-06 hyd 2010-11.

**Nifer yr Oedolion 25-64 oed Heb Unrhyw Gymwysterau** – Cafodd y dangosydd hwn ei gynnwys ym MALIC 2014. Hwn yw'r unig fesur o amddifadedd addysgol ymysg y boblogaeth o oedolion. O ganlyniad i newidiadau diweddar i'r oedran pensiwn gwladol, bydd y dangosydd hwn yn ystyried y rhai hynny sydd rhwng 25 a 64 oed. Mae'r dangosydd hwn yn debyg i Ddangosydd Cenedlaethol 8 *(Canran yr oedolion â chymwysterau ar wahanol lefelau'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol). F*odd bynnag, ffynhonnell y data yw Cyfrifiad 2011 yn hytrach na'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth.

### 5.4.3. Dangosyddion eraill a drafodwyd

**Profion Cenedlaethol –** Ym mis Awst 2013, cyhoeddwyd y canlyniadau cyntaf o'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol newydd a gyflwynwyd (ar gyfer disgyblion ym mlynyddoedd 2 i 9). Felly nid oedd yn bosibl cynnwys dangosydd o'r data hwn ym MALIC 2014. Fodd bynnag, rhoddwyd rhagor o ystyriaeth i ba un a ellid cynnwys dangosydd wedi'i seilio ar y Profion Cenedlaethol ym MALIC 2019.

Caiff disgyblion eu profi ar ran yn unig o'r wybodaeth a'r sgiliau y disgwylir i ddisgyblion eu dysgu o dan y Cwricwlwm Cenedlaethol, felly nid yw'r profion yn darparu darlun cyflawn o allu disgyblion yn yr un modd ag y mae asesiadau'r athrawon. Hefyd, maent yn darparu cipolwg o allu disgybl ar un diwrnod penodol o'r flwyddyn academaidd, a gall llawer o ffactorau nad ydynt yn ymwneud ag amddifadedd ddylanwadu ar y marc a gyflawnir yn y prawf ar y diwrnod hwnnw.

Hefyd, mae'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ar bapur yn dirwyn i ben rhwng 2018 a 2020 a bydd asesiadau personol ar-lein y gellir eu haddasu yn eu disodli. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn casglu'r data hwn ac ni fydd yn bosibl cynnwys unrhyw ddata profion mewn fersiynau o'r MALIC yn y dyfodol. Felly nid ydym yn cynnig cynnwys dangosydd ar sail y Profion Cenedlaethol ym MALIC 2019.

**Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant** (NEET) – Ar lefel gysyniadol, byddai mesur y rhai hynny nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn fesur addas o amddifadedd addysgol. Fodd bynnag, gan fod nifer y rhai NEET yn deillio o arolwg o sampl o bobl, ac mae nifer y rhai NEET yn gymharol isel, nid yw'n bosibl llunio dangosydd o hyn ar lefel ardal fach. Mae'r data ar gael o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth.

Ar hyn o bryd ceir rhaglen waith gan Lywodraeth Cymru sy'n edrych ar ddatblygiad setiau data cyrchfannau CA4/CA5. Ceir y setiau data hyn trwy gysylltu ffynonellau data addysgol ynghyd ag ymgysylltiad ag Astudiaeth Hydredol o Ddeilliannau Addysg yr Adran Addysg (sy'n ceisio cysylltu setiau data addysg â data cyflogaeth/enillion gan DWP/CThEM) a darparu data ynglŷn â ble y mae disgyblion yn mynd ar ôl gadael addysg orfodol. Ni fydd y ffynhonnell ddata hon yn barod ar gyfer MALIC 2019 ond byddwn yn ystyried ei photensial ar gyfer cyhoeddiadau o MALIC yn y dyfodol.

Yn y cyfamser, mae ymchwiliad pellach ar waith i'r setiau data ar gyrchfannau a gesglir gan Gyrfa Cymru i benderfynu a allai ddarparu dangosydd procsi cadarn ar gyfer pobl NEET.

### 5.4.4. Pwysoli

O fewn y maes Addysg, defnyddir dadansoddiad o ffactorau i benderfynu ar bwysoliad y dangosyddion sy’n rhan ohono, ac rydym yn cynnig parhau â’r dull hwn ar gyfer MALIC 2019.

Fodd bynnag, mae’n bosibl y bydd y dadansoddiad ffactorau yn pennu pwysau isel i rai dangosyddion. Bydd hyn yn golygu na fydd y dangosyddion hyn yn ychwanegu gwybodaeth bwysig at y mesur o amddifadedd yn y maes hwn. Felly byddwn yn ystyried eu hepgor o’r Mynegai mewn achosion o’r fath.

### 5.4.5. Materion ar gyfer ymateb

- A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â’r cynnig i gynnwys dangosyddion sy’n deillio Asesiadau o Ddisgyblion pan fyddant yn Dechrau yn y Dosbarth Derbyn a data deilliannau’r Cyfnod Sylfaen?
- A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â’r dangosydd arfaethedig ar gyfer cyrhaeddiad Cyfnod Allweddol 4?
- A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â’n dull arfaethedig o lunio dangosydd ar gyfer Cyfran y bobl 18-19 oed nad ydynt yn mynd i addysg uwch?
- Pa flaenoriaeth fyddech chi’n ei rhoi i ddatblygu’r mesurau canlynol: dangosydd asesiad sylfaenol y Cyfnod Sylfaen neu ddangosydd cyfran y bobl nad ydynt yn mynd i addysg uwch yn 18-19 oed?
- A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â’r cynigion am y Maes Addysg?

### 5.5. Mynediad at Wasanaethau

#### 5.5.1. Cefndir a throsolwg

Diben y maes hwn yw nodi amddifadedd am nad yw pobl yn gallu cael gafael ar amrywiaeth o wasanaethau sy'n cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer bywyd bob dydd. Mae hyn yn cwmpasu amddifadedd materol[3] (er enghraifft methu â chael bwyd) ac agweddau cymdeithasol[4] ar amddifadedd (er enghraifft methu â mynd i weithgareddau ar ôl ysgol).

Nid yw'r mesuriad presennol o'r maes mynediad at wasanaethau yn ffordd uniongyrchol o fesur amddifadedd y gellir ei ddefnyddio ar ei ben ei hun, yn wahanol i'r saith maes arall; yn hytrach, mae'n ffactor cyfrannol sy'n dod yn bwysig fel agwedd ar amddifadedd lluosog. Hynny yw, mae mynediad gwael i wasanaethau yn ffactor a allai ddwysáu mathau eraill o amddifadedd sy'n bodoli yn yr ardal.

Yn hanesyddol bu gan y maes hwn bwysoliad cymharol isel yn y mynegai amddifadedd cyffredinol, ond caiff ei ddefnyddio yn aml ar ei ben ei hun fel mesuriad o deneurwydd y boblogaeth i'w dadansoddi neu i gyfrannu at fformiwlâu cyllido.

Yn y mynegai diweddaraf roedd y maes mynediad at wasanaethau yn mesur amseroedd teithio i 8 gwasanaeth gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a 9 gwasanaeth gan ddefnyddio trafnidiaeth breifat. Roedd trafnidiaeth gyhoeddus yn cynnwys teithio ar: fws cyhoeddus, trên cyhoeddus, cerdded a choets genedlaethol. Ystyriwyd mai car preifat oedd trafnidiaeth breifat. Roedd cynnwys trafnidiaeth breifat yn y dangosyddion yn newydd ar gyfer MALIC 2014.

Roedd y dangosyddion amseroedd teithio yn gyfartaleddau wedi'u pwysoli o amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i bob gwasanaeth (ac eithrio gorsafoedd petrol). Cyfrifwyd y pwysoliadau ar gyfer pob ardal fach gan ddefnyddio data o Gyfrifiad 2011 ar berchnogaeth ceir a nifer yr oedolion 17 oed neu hŷn. Defnyddiwyd dadansoddiad ffactorau i gyfuno'r dangosyddion a gafwyd yn sgil hynny ar gyfer pob gwasanaeth.

Fel mae pethau, dim ond materion mynediad cyfyngedig sydd wedi'u cwmpasu gan y maes hwn, er enghraifft, nid yw'n ystyried a ellir gwneud y daith unrhyw bryd neu a ellid defnyddio'r gwasanaeth heb orfod teithio (drwy'r rhyngrwyd, ffôn, post).

Ar gyfer MALIC 2019 rydym yn cynnig cyflwyno mesur ar wahân o fynediad at wasanaethau band eang cyflym iawn i'r maes, sydd wedi ei amlygu yn flaenoriaeth gan rai defnyddwyr yn ystod yr ymgynghoriad ar gyfer MALIC 2014 ac ers hynny. Mae hwn yn destun adolygiad o ddata newydd ynglŷn â signal i'w gyhoeddi gan Ofcom yn 2019. Os nad yw'r mesuriadau sydd ar gael yn rhoi digon o amrywiaeth i roi safle dibynadwy i ardaloedd, ni fyddwn yn gallu cynnwys dangosydd o'r fath ym MALIC 2019, ond byddwn yn adolygu'r sefyllfa wrth i setiau data ynglŷn â signal a gwasanaethau digidol esblygu.

---

[3] Mae amddifadedd materol yn golygu diffyg adnoddau ffisegol - bwyd, cysgod a dillad – sy'n angenrheidiol i gynnal safon bywyd penodol.
[4] Mae amddifadedd cymdeithasol yn cyfeirio at anallu'r unigolyn i gymryd rhan ym mywyd cymdeithasol arferol y gymuned.

### 5.5.2. Dangosyddion Arfaethedig

Mae'r disgrifiad o'r dangosyddion arfaethedig isod wedi ei rannu'n ddwy ran:

A. Gwasanaethau y byddwn yn mesur amser teithio er mwyn cael mynediad ffisegol iddynt

B. Cynigion newydd i fesur mynediad at wasanaethau band eang

**A. Gwasanaethau y byddwn yn mesur amser teithio er mwyn cael mynediad ffisegol iddynt**

Ein cynnig yw gwneud cyn lleied â phosibl o newidiadau i'r rhestr o wasanaethau yr ydym yn mesur yr amser teithio iddynt, o gymharu â MALIC 2014. Ar gyfer y fersiwn hon o'r Mynegai byddwn yn hytrach yn canolbwyntio ar ddatblygu dangosydd ar wasanaethau band eang (gweler B), ac yn ail ar sicrhau bod dyfais ar gael i atgynhyrchu ac amrywio'r cyfrifiadau amser teithio (gweler 5.5.4).

Mae rhagor o wybodaeth dechnegol am y dangosyddion presennol a sut y sicrheir bod y cyfrifiadau ar gael yn Adroddiad Technegol MALIC 2014. Gwneir gwelliannau pan fo hynny'n bosibl.

**Siopau bwyd** – wedi'u cynnwys yn flaenorol. Dylai'r siop allu darparu eitemau sylfaenol y mae eu hangen yn aml (e.e. bara, llaeth). Mae hyn yn cynnwys safleoedd sy'n amrywio o'r siop gornel leol i archfarchnadoedd mawr.

**Meddygfeydd** – wedi'u cynnwys yn flaenorol. Mae'r dangosydd hwn yn cynnwys anghenion bob dydd gofal iechyd sylfaenol. Mae'n cynnwys prif feddygfeydd neu gyfeiriadau practis ac is-ganghennau meddygfeydd.

**Canolfannau hamdden** – wedi'u cynnwys yn flaenorol. Bwriad y dangosydd hwn yw nodi gallu unigolyn i ddefnyddio cyfleusterau sy'n bwysig ar gyfer iechyd a lles, mewn safle talu i chwarae. Ym MALIC 2014 gwnaethom gynnwys safleoedd nad oeddent yn rhai masnachol sy'n cynnwys dau neu fwy o'r canlynol: grîn bowlio, pwll nofio, cwrt tenis, cwrt sboncen, canolfan ffitrwydd a neuadd chwaraeon. Cafwyd y data ar leoliadau gan Gyngor Chwaraeon Cymru. Yn y blynyddoedd diwethaf bu newidiadau o ran perchnogion a rheolwyr llawer o ganolfannau a arferai gael eu gweithredu gan Awdurdodau Lleol. Byddwn yn asesu effaith y newidiadau ar gysyniad ac ymarferoldeb defnyddio canolfannau hamdden fel gwasanaeth yn y maes hwn.

**Gorsafoedd petrol** – wedi'u cynnwys yn flaenorol. Maent yn ofynnol er mwyn defnyddio car bob dydd. Byddent yn cael eu cynnwys yn y cyfrifiadau ar gyfer amser cyfartalog gan drafnidiaeth breifat yn unig.

**Fferyllfeydd** – wedi'u cynnwys yn flaenorol. Mae fferyllfeydd yn dosbarthu cyffuriau meddyginiaethol ac yn gynyddol yn rhoi cyngor sy'n ymwneud ag iechyd sy'n ofynnol gan lawer ar gyfer bywyd bob dydd. Mae'n cynnwys fferyllfeydd o fewn canolfan fwy neu archfarchnad, yn ogystal â meddygon teulu sy'n dosbarthu meddyginiaeth.

**Swyddfa'r post** – wedi'i chynnwys yn flaenorol. Mae angen i lawer o bobl mewn cymuned fynd i swyddfa'r post bob wythnos neu'n fwy aml. Mae gwasanaethau Swyddfa'r Post yn cynnwys post, talu biliau, casglu budd-daliadau, ceisiadau (e.e. ar gyfer pasbort, trwydded yrru, preswyliaeth, Yswiriant Gwladol).

**Ysgolion Cynradd** – wedi'u cynnwys yn flaenorol. Mae addysg gynradd yn rhan o fywyd bob dydd y rhan fwyaf o blant 4 i 11 oed, a'u rhieni/gwarcheidwaid (nid yw'r dangosydd yn cynnwys ysgolion meithrin, arbennig nac annibynnol). Ni chynigir y bydd y dangosydd yn cynnwys bysiau ysgol a ddarperir gan awdurdodau lleol gan ei bod yn anodd eu cynnwys, a'r cyfyngiadau amser y maent yn gweithredu oddi mewn iddynt (e.e. ni fyddent yn caniatáu ar gyfer teithio adref ar ôl gweithgareddau ar ôl ysgol). Mae amseroedd teithio sydd wedi eu cynnwys yn y cyfrifiad wedi eu cyfyngu i'r rhai hynny lle mae plentyn o fewn y cod post wedi ei gofrestru mewn ysgol gynradd.

**Llyfrgell Gyhoeddus** – wedi'i chynnwys yn flaenorol. Mae llyfrgelloedd yn cynnwys gwasanaethau heblaw am fenthyg adnoddau yn ffisegol neu'n electronig, er enghraifft, mynediad cyhoeddus at gyfrifiaduron a wifi, gweithgareddau hyfforddi a dysgu. Ni chafodd llyfrgelloedd symudol eu cynnwys yn 2014 oherwydd diffyg data daearyddol. Byddwn yn ailedrych ar y cwmpas i gynnwys llyfrgelloedd symudol os yw'n bosibl.

**Ysgolion Uwchradd** – wedi'u cynnwys yn flaenorol. Mae addysg uwchradd yn rhan o fywyd bob dydd llawer o blant 11 i 18 oed (nid yw'r dangosydd yn cynnwys ysgolion arbennig nac annibynnol), a'u rhieni/gwarcheidwaid. Ni chynigir y bydd y dangosydd yn cynnwys bysiau ysgol a ddarperir gan awdurdodau lleol oherwydd yr anhawster i'w cynnwys, a'r cyfyngiadau amser y maent yn gweithredu oddi mewn iddynt (e.e. ni fyddent yn caniatáu ar gyfer teithio adref ar ôl gweithgareddau ysgol). Mae'r amseroedd teithio sydd wedi eu cynnwys yn y cyfrifiad yn gyfyngedig i'r rhai hynny pan fo plentyn o fewn y cod post wedi ei gofrestru mewn ysgol uwchradd.

### Dangosyddion eraill a drafodwyd

**Ysbytai Damweiniau ac Achosion Brys** – Mae'r rhain yn debygol o gael eu defnyddio'n llai aml ac felly byddant yn llai lleol na gwasanaethau gofal iechyd eraill. Ystyriwyd cynnwys y rhain neu leoliad gwahanol (e.e. canolfan ddiwylliannol neu siopa, dulliau o deithio) i nodi amseroedd teithio i wasanaethau y mae eu hangen yn llai aml ond sy'n bwysig. Ni chaiff y newid hwn ei flaenoriaethu ar gyfer MALIC 2019, ond caiff ei ailystyried ar gyfer mynegeion yn y dyfodol. Byddai cynnwys ysbytai damweiniau ac achosion brys yn gymhleth oherwydd bodolaeth cludiant am ddim i ysbytai ac ambiwlansys, a byddai angen ystyried pa gategori o adran damweiniau ac achosion brys fyddai'n cyfrif.

**Peiriannau Twll yn y Wal** – Mae rhai dulliau o godi arian wedi eu cynnwys mewn mannau eraill yn y maes, er enghraifft gwasanaethau bancio mewn rhai Swyddfeydd Post neu wasanaeth arian parod yn ôl gan siopau penodol. Byddai ffioedd peiriannau twll yn y wal ac isafswm i'w wario cyn gallu cael arian parod yn ôl yn ei gwneud yn anodd mesur dangosydd o ran rhwyddineb cael arian parod. Gan fod dulliau eraill poblogaidd o wneud taliadau arian parod hefyd yn bodoli, ni chaiff peiriannau twll yn y wal eu cynnwys yn y maes.

**Gofal plant** – Mae'r rhan fwyaf o ofal plant yn ddarpariaeth breifat. Mae'r gallu i dalu am ofal plant yn dylanwadu'n fawr ar hyn (yn hytrach na fesul lleoliad), ond bydd y cynllun treialu i gynnig gofal plant yng Nghymru ar hyn o bryd yn arwain at wahanol sefyllfaoedd mewn gwahanol ardaloedd. Materion eraill i'w hystyried yw'r defnydd cyffredin o gyfleusterau gofal plant yn ymyl y gweithle yn hytrach na chyfeiriad y cartref, ac ni fyddai'n bosibl mesur gofal plant "anffurfiol", e.e. ffrindiau a theulu. Caiff hyn ei adolygu ar gyfer mynegeion yn y dyfodol.

**Canolfannau cyflogaeth** – Ystyriwyd mynediad at gyfleoedd cyflogaeth addas. Nid oedd diffiniad clir o "ganolfannau cyflogaeth" ar gael yn rhwydd, ynghyd â setiau data i gysylltu unigolion â'u cyfleoedd cyflogaeth neu gyfleoedd addas ar hyn o bryd. Byddai hefyd rhywfaint o orgyffwrdd â'r maes amddifadedd cyflogaeth.

**Banciau bwyd** – Mae banciau bwyd yn darparu cyflenwadau bwyd i bobl mewn argyfwng. Er eu bod yn bwysig i fywyd bob dydd y bobl hynny, mae'r nifer sy'n defnyddio banciau bwyd yn debygol o fod yn gymharol isel fesul ardal (AGEHI). Hefyd, nid oes unrhyw setiau data gwybyddus â chwmpas cyflawn o fanciau bwyd yng Nghymru yn bodoli yng Nghymru, hyd y gwyddom ni.

### B. Cynigion newydd ar gyfer mesur mynediad at wasanaethau band eang

Yn yr ymgynghoriad ar gyfer MALIC 2014, amlygwyd gwasanaethau digidol gan sawl ymatebydd fel dangosydd y dylid ei gynnwys yn y maes hwn. Mae mwy a mwy o wasanaethau, gan gynnwys nifer o wasanaethau cyhoeddus, yn cael eu darparu ar-lein. Gall mynediad at wasanaethau ar-lein cyflwyno cyfleoedd nad oedd ar gael o'r blaen. Gall gyflwyno cyfleoedd am gyflogaeth, dysgu a datblygu sgiliau. Gall mynediad at wasanaethau ar-lein helpu gyda chynhwysiant cymdeithasol trwy hwyluso cadw cysylltiad gyda ffrindiau a theulu trwy gyfryngau cymdeithasol; a gall helpu gyda chynhwysiant ariannol gan fod rhai nwyddau a gwasanaethau yn rhatach ar-lein.
Rydym wedi edrych mewn i mesur mynediad at wasanaethau digidol drwy cyflymder band eang llinell sefydlog, a chwmpas gwasanaeth data symudol.

#### Gwasanaethau band eang

Mae cynsail wedi'i osod gan Fesur Amddifadedd Lluosog Gogledd Iwerddon 2017, a oedd yn cynnwys mesuriad o gyfran yr eiddo â chyflymder band eang yn is na 10Mbs, ar sail data gan Ofcom. Pennwyd y trothwy hwn gan ei fod yn adlewyrchu isafswm y gofyniad ar gyfer gwasanaeth derbyniol i aelwydydd. Mewn ardaloedd lle mae gan yr holl gysylltiadau gyflymder band eang uwch na 10Mbs, roedd y safleoedd yn seiliedig ar y trothwy 30Mbs. Rhoddwyd pwysoliad cyfartal i'r maes hwn â'r ddau arall (mesur amser teithio gan drafnidiaeth breifat ac amser teithio gan drafnidiaeth gyhoeddus) yn absenoldeb rhesymeg gadarn dros gyfraddau gwahanol.

Mae'r ffynhonnell data gan Ofcom ar gael yn rhwydd, a'r diweddariad diweddaraf yw Diweddariad Cysylltu'r Gwledydd: Gwanwyn 2018. Yn ogystal â throthwyon o hyd at 30Mbs, mae'r data yn cwmpasu gwasanaethau gwibgyswllt, â chyflymder lawrlwytho o 300Mbs neu fwy. Ceir rhagor o wybodaeth am beth yn union y mae'r data hwn yn ei fesur yn Atodiad E.

Nod prosiect Cyflymu Cymru Llywodraeth Cymru oedd dod â band eang cyflym iawn i'r rhan fwyaf o'r safleoedd yng Nghymru nad oedd yn rhan o'r gwaith cyflwyno gan gwmnïau masnachol. Daeth y prosiect i ben yn gynnar yn 2018 a rhoddodd y gallu i bron i 733,000 o safleoedd ledled Cymru ddefnyddio band eang ffibr cyflym. O'r rhain, gall 717,000 gyflawni cyflymderau o 30Mbps neu fwy ac mae'r gweddill yn cyflawni cyflymderau o 24Mbps neu fwy. Mae adroddiad uchod Ofcom "Cysylltu'r Gwledydd" yn amcangyfrif bod cyfartaledd band eang cyflym iawn, ar gyflymderau o dros 30mbps, mewn 92% o safleoedd yng Nghymru ym mis Ionawr 2018.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynllunio prosiect olynol i ymestyn signal band eang cyflym dibynadwy ymhellach ledled Cymru, a'r nod ar hyn o bryd yw dyfarnu contract yn ystod hydref 2018. Cyn MALIC 2019 rydym yn disgwyl diweddariad arall o adroddiad "Cysylltu'r Gwledydd" Ofcom yn ogystal â setiau data yn ystod gaeaf 2018, yn seiliedig ar ddata mis Medi 2018.

Gwnaethom edrych ar ddata Ofcom (fel yr oedd ym mis Ionawr 2018) ar eiddo nad oedd yn gallu cael band eang llinell sefydlog ar gyflymder o 30Mbs. Gan ategu data cyhoeddedig ar ardaloedd allbwn, gwnaethom ganfod bod mwy na 70 y cant o AGEHI ag ambell i eiddo nad oedd yn gallu cael band eang ar gyflymder o 30Mbs, ac felly nad oedd â gwerth dangosydd o ddim ar gyfer ein dangosydd arfaethedig, sef:

- Cyfran yr eiddo nad ydynt yn gallu derbyn band eang ar gyflymder o 30Mbs neu uwch (yn cynnwys eiddo heb unrhyw signal band eang).

Yn debyg i'r dangosyddion sy'n mesur mynediad ffisegol o dan Adran A, nid yw'r mesur arfaethedig yn adlewyrchu defnydd gwirioneddol na fforddiadwyedd mynediad, a fyddai'n gymhleth i'w fodelu.

Mae ymdrechion masnachol a gan y llywodraeth yn debygol o arwain at barhau i gyflwyno gwasanaethau digidol gwell a newid i'r signal fesul ardal. Golyga hyn y bydd angen inni adolygu'r ffigyrau wedi'u diweddaru cyn MALIC 2019 i sicrhau bod diffyg mynediad yn parhau i effeithio ar nifer rhesymol o ardaloedd, gan roi digon o amrywiaeth i allu pennu safle dibynnol ar y pen mwyaf difreintiedig. Os nad yw hyn yn wir, ac nad ydym yn gallu gwneud addasiadau rhesymol i'r mesur, mae'n bosibl na fyddwn yn gallu cynnwys dangosydd ar gyfer MALIC 2019. Byddem wedyn yn adolygu'r sefyllfa ar gyfer mynegeion yn y dyfodol wrth i wasanaethau a setiau data ynglŷn â signal esblygu. Y nod yw bod pob MALIC yn cynrychioli'r profiadau cyfoes o amddifadedd wrth gael mynediad at wasanaethau.

Os gallwn gynnwys y dangosydd, byddwn yn diwygio disgrifiad y maes fel a ganlyn: "Diben y maes hwn yw nodi amddifadedd o ganlyniad i anallu aelwyd i gael mynediad at amrywiaeth o wasanaethau sy'n angenrheidiol ar gyfer bywyd bob dydd, ***boed hynny yn ffisegol neu ar-lein***."

**Gwasanaethau data symudol**

Yn y gorffennol, cafwyd cefnogaeth i gynnwys dangosydd ar ardaloedd heb unrhyw signal symudol yng Nghymru. Mae cyngor gan Ofcom yn awgrymu bod data ynglŷn â mynediad yn yr awyr agored o ansawdd gwell na'r mynediad dan do. Mae dadansoddiad data gan Ofcom yn awgrymu mai dim ond rhyw 10 y cant o AGEHI sydd **ag unrhyw eiddo heb fynediad 4G yn yr awyr agored** (mae'r ffigwr yn is ar gyfer mynediad 2G/3G). Golyga hyn y byddai gennym wybodaeth dim ond i bennu safle i 10 y cant o ardaloedd ar sail eu data symudol, ac mae'n debygol y byddai'n llai o gofio y byddem yn defnyddio diweddariad o'r data yn y dyfodol. Nid yw hyn yn bodloni meini prawf y dangosydd ar gyfer MALIC o ran bod yn nodwedd o bwys ar gyfer amddifadedd. Felly oherwydd graddau'r signal llawn ar gyfer gwasanaethau 4G ledled AGEHI yn ôl setiau data Ofcom, nid ydym yn cynnig dangosydd ar fynediad at wasanaethau data symudol ar gyfer MALIC 2019.

### 5.5.3. Datblygiadau posibl eraill

**Amser teithio gan drafnidiaeth gyhoeddus – argaeledd data ar gyfer y dangosydd**

Mae rhai defnyddwyr data dangosydd y maes hwn wedi nodi y byddai'n ddefnyddiol delweddu amseroedd teithio a'r gallu i amrywio diwrnod ac amser y daith ac ati. Rydym yn gweithio gyda Champws Gwyddoniaeth Data y Swyddfa Ystadegau Gwladol i archwilio dichonoldeb datblygu dull o ganiatáu hyn, gan ddefnyddio amserlenni trafnidiaeth a setiau data lleoliad sydd ar gael yn rhwydd. Byddem yn dymuno defnyddio'r dull hwn i gyfrifo amseroedd teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus sy'n ffurfio rhan o'r maes hwn. Gellid ailadrodd y cyfrifiadau wedyn a'u hamrywio gan eraill. Os nad yw'r dull hwn yn bosibl ar gyfer MALIC 2019, ein nod fydd gwella'r dogfennau ar gyfrifiadau'r maes.

**Dull amgen – dalgylchoedd cyfnewidiol**

Mae'r tîm WISERD ym Mhrifysgol De Cymru wedi bod yn cynnal ymchwil i fireinio'r dull o asesu'r gallu i ddefnyddio gwasanaeth, a'r enw am hyn yw'r dull dalgylch cyfnewidiol dau gam uwch (E2SFCA), sy'n deillio o dechnegau modelu disgyrchiant.

Nod eu gwaith yw cyfrifo, ar gyfer pob lleoliad dan sylw, ffigwr mynediad at wasanaethau sy'n ystyried dosbarthiad daearyddol yr holl safleoedd cyflenwi a geir o fewn pellter/amser teithio rhesymol. Caiff agosrwydd a chapasiti safleoedd o'r fath eu gwerthuso yn berthynol i'r galw posibl am y gwasanaeth a roddir ar y ddau gan eu poblogaethau lleol eu hunain. Mae'r sgôr dalgylch gyfnewidiol (FCA) a geir o ganlyniad i hyn yn fath o gymhareb cyflenwi i'r galw lleol yn ddaearyddol. Mae'r sgôr yn ymatebol i agosrwydd y gwasanaeth (mae'n cynyddu wrth i amser/pellter leihau), cyfle cronnol (mae'n cynyddu os yw'n bosibl defnyddio mwy nag un man gwasanaeth), capasiti (mae'n cynyddu wrth i allu cyflenwi'r gwasanaeth gynyddu), a galw lleol (mae'n lleihau wrth i gystadleuaeth sy'n codi o boblogaethau lleol gynyddu). Er mwyn cyfrifo'r metrig hwn mae angen amcangyfrif o'r capasiti tebygol ar gyfer pob man gwasanaeth, yn seiliedig ar ryw nodwedd gwasanaeth sy'n wybyddus ar gyfer y gwasanaeth hwnnw (e.e. nifer y meddygon teulu mewn practis, nifer y lleoedd ar gyfer disgyblion sydd ar gael, nifer yr oriau agor bob wythnos ac ati). Yn yr un modd, mae angen hefyd amcangyfrif o'r galw posibl – fel arfer, cyfanswm y boblogaeth fel y'i cofnodir yn lleol (e.e. fesul cod post).

Cyfarfu'r grŵp maes ag aelodau o dîm WISERD i drafod y dull a'r potensial i'w ddefnyddio ym MALIC, fel yr archwiliwyd mewn papur diweddar "Measuring Spatial Accessibility to Services within Indices of Multiple Deprivation: Implications of Applying an Enhanced two-Step Floating Catchment Area (E2SFCA) Approach", gan Nicholas Page, Mitch Langford a Gary Higgs (ar gyfer y Journal of Applied Spatial Analysis and Policy). Roedd cryn ddiddordeb yn y syniad o fodelu'r berthynas rhwng y cyflenwad a'r galw wedi'i gyfryngu gan bellter fel mesur o fynediad. Fodd bynnag, daeth y grŵp maes i'r casgliad y byddai disodli'r fethodoleg bresennol sy'n seiliedig ar fesur amseroedd teithio cyfartalog i'r man gwasanaeth agosaf â dulliau sy'n deillio o FCA yn defnyddio llawer mwy o adnoddau ar hyn o bryd (er enghraifft byddai angen casglu rhagor o ddata ar fesurau yn y ddarpariaeth cyflenwi). Cytunodd y grŵp maes a thîm WISERD nad oes digon o amser i baratoi ar gyfer y dull hwn er mwyn ei ddefnyddio ar gyfer MALIC 2019.

Fodd bynnag, gallai'r ddwy ochr weld y manteision o rannu'r data a ddefnyddir i lunio maes mynediad MALIC 2019 fel y gellid llunio set gyfochrog o allbynnau gan ddefnyddio dull FCA tua'r un pryd. Byddai hyn yn caniatáu i oblygiadau posibl mabwysiadu dull FCA ar sgorau'r maes Mynediad at Wasanaethau gael eu hastudio yn effeithiol drwy sicrhau y defnyddir union yr un ffynonellau data yn y ddau ateb. Wrth i'r gwaith o lunio'r maes ddatblygu, bydd tîm MALIC yn ystyried y potensial i rannu allbynnau a dulliau gyda thîm WISERD. Byddwn hefyd yn ailystyried defnyddio dull FCA yn y fersiwn nesaf o MALIC.

### 5.5.4. Pwysoli

Fel y disgrifiwyd yn 5.5.1, ar gyfer MALIC 2014, roedd y dangosyddion amser teithio yn gyfartaleddau wedi'u pwysoli o amseroedd trafnidiaeth gyhoeddus a phreifat i bob gwasanaeth. Defnyddiwyd dadansoddiad ffactorau i gyfuno'r dangosyddion a gafwyd o ganlyniad i hynny ar gyfer pob gwasanaeth.

Rydym yn cynnig dangosydd ychwanegol ar wasanaethau band eang, y bydd angen eu pwysoli gyda'r dangosyddion amser teithio. Yr opsiynau i'w hystyried yw:

- Dilyn proses MALIC 2014 i gael dangosydd amser teithio cyfun, a phenderfynu sut i bwysoli â'r dangosydd band eang, e.e. 75% amser teithio, 25% band eang.
- Dadansoddiad ffactorau ar y naw dangosydd amser teithio a'r dangosydd newydd gyda'i gilydd.

Nid ydym wedi gwneud penderfyniad terfynol ar bwysoli gan fod hyn yn dibynnu ar gwmpas y dangosydd newydd, o ran nifer yr ardaloedd y mae diffyg mynediad yn effeithio arnynt. Ni fydd hyn yn wybyddus tan fod data newydd Ofcom ar gael. Mae'n annhebygol y byddai unrhyw ddangosydd ar fynediad band eang a ddefnyddir ym MALIC 2019 yn ddilys ar gyfer y Mynegai nesaf, a byddwn hefyd yn ystyried hyn wrth benderfynu ar bwysoli. Croesewir safbwyntiau.

### 5.5.5. Materion ar gyfer ymateb

- ➢ A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r dangosydd newydd arfaethedig ar gyfer mynediad at wasanaethau band eang?
- ➢ A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â sut y dylid pwysoli'r dangosyddion ar gyfer amseroedd teithio (i wasanaethau allweddol), a mynediad at wasanaethau band eang ar y cyd ar gyfer sgôr gyffredinol y maes?
- ➢ A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â'r cynigion ar gyfer y maes Mynediad at Wasanaethau?

## 5.6. Tai

### 5.6.1. Cefndir

Yn gysyniadol, diben y maes tai yw nodi amddifadedd trwy ddiffyg tai digonol, o ran cyflwr ffisegol y tai, amodau byw ac argaeledd. Yma, ystyr amodau byw yw addasrwydd y tai ar gyfer eu preswylwyr, er enghraifft o ran iechyd a diogelwch, ac addasiadau angenrheidiol. I gydnabod y swyddogaeth hanfodol sydd gan dai o ran ffyniant a llesiant hirdymor poblogaeth Cymru, tai yw un o'r chwe blaenoriaeth drawsbynciol yn strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru '[Ffyniant i Bawb]'.

Mae tai fel cydran o amddifadedd lluosog rywfaint yn wahanol i'r rhan fwyaf o'r meysydd eraill. Mae meysydd allweddol eraill yn dueddol o gydberthyn yn eithaf da â'i gilydd (e.e. cyflogaeth ag iechyd), ond mae tai yn gallu dangos darlun gwahanol. Yn gyffredinol, mae deiliadaeth, oedran a math tai yn dueddol o ddylanwadu ar fesuriadau o amddifadedd tai, fel y'i diffinnir uchod. Er enghraifft, gall gwahanol ddeiliadaethau tai fod â rheoliadau neu safonau gwahanol yn berthnasol iddynt, sy'n gallu dylanwadu ar ansawdd tai. Ni fyddem felly bob amser yn disgwyl i fesuriadau amddifadedd tai gydberthyn yn gryf ag amddifadedd cyffredinol. Fodd bynnag, fel yn achos mynediad gwael at wasanaethau, mae effaith gronnol tai gwael ynghyd â chydrannau eraill amddifadedd, fel iechyd, yn gallu bod yn sylweddol, ac mae'n bwysig eu nodi.

Ym MALIC 2014 roedd diffyg data priodol ar gael ac nid oedd yn bosibl mesur amddifadedd tai yn llawn yn ôl y disgrifiad a nodir uchod. Roedd y maes tai yn cynnwys dau ddangosydd o Gyfrifiad 2011 yn flaenorol:

1. Canran y boblogaeth sy'n byw mewn aelwydydd gorlawn
2. Canran y bobl sy'n byw mewn aelwyd heb wres canolog.

Mae gwybodaeth dechnegol lawn am ddangosyddion MALIC 2014 ar gael yn yr [Adroddiad Technegol].

Yn ystod trafodaethau ynglŷn â datblygu dangosyddion arfaethedig ar gyfer maes tai MALIC 2019, gwnaethom ystyried [Safon Cartref Byw] Shelter Cymru. Mae'r safon yn cynnwys 39 o nodweddion wedi'u rhannu ar draws 5 dimensiwn (fforddiadwyedd, amodau derbyniol, gofod, sefydlogrwydd, cymdogaeth) a chafodd ei ddatblygu, drwy ymgynghoriad cyhoeddus, i ddiffinio safon cartref derbyniol.

Mae dangosyddion arfaethedig maes tai MALIC 2019 yn mesur nodweddion tebyg i'r rhai hynny yn nimensiynau 'Amodau Derbyniol' a 'Gofod' Safon Cartref Byw. Mae Dangosyddion Arfaethedig ar gyfer meysydd eraill MALIC 2019 yn mesur nodweddion tebyg i'r rhai hynny yn nimensiwn 'Cymdogaeth' Safon Cartref Byw. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y nodweddion yn nimensiynau 'Fforddiadwyedd' a 'Sefydlogrwydd' Safon Cartref Byw, ond nid yw'n bosibl mesur y mathau hyn o nodweddion ar lefel ardal fach yng Nghymru ar hyn o bryd.

### 5.6.2. Trosolwg o'r cynigion

Fel y nodir uchod, ar gyfer MALIC 2014 roedd diffyg data priodol ar gael ac nid oedd yn bosibl mesur amddifadedd tai yn llawn yn ôl ein diffiniad ym MALIC. Gwnaethom ymrwymo i wella'r maes tai cyn MALIC 2019 ac mae'r adran hon yn disgrifio ein dull arfaethedig, gan ddilyn adolygiad cynhwysfawr o'r data sydd ar gael o'i gymharu â meini prawf ein dangosydd.

Mae llywodraeth genedlaethol a lleol yng Nghymru yn defnyddio dau fesur wedi'u diffinio o ddigonolrwydd tai (gweler 5.6.3), ac mae sawl is-elfen dan sylw. Er nad oes data lleol cyflawn ar gael ynglŷn â'r mesurau hyn, gallai fod yn bosibl defnyddio arolygon tai a data gweinyddol perthnasol i fodelu mesurau o'r fath i'w defnyddio ym MALIC 2019. Mae gwaith modelu tebyg wedi ei wneud yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ar gyfer sawl fersiwn o'u mynegeion eu hunain.

Hwn fyddai'r achos cyntaf o ddefnyddio data wedi'i fodelu ar gyfer maes Tai MALIC. Y manteision fyddai gwella'r amrywiaeth o wybodaeth am dai yn yr ardal leol i'w defnyddio ym MALIC, gan ddefnyddio dangosyddion sy'n cyfochri'n agos â'n diffiniad o amddifadedd tai a nodir yn 5.6.1. Gallai anfanteision defnyddio data wedi'i fodelu gynnwys data o ansawdd is os nad yw'r model yn gywir; ac o bosibl anallu i adlewyrchu ymyraethau/newidiadau diweddar wrth ddiweddaru'r dangosydd yn y dyfodol (yn dibynnu ar y cyfnod cyfeirio a chwmpas y data y mae'r model wedi'i seilio arno).

Wedi ystyried, rydym o'r farn y byddai defnyddio amcangyfrif wedi'i fodelu o dai o ansawdd gwael ynghyd â dangosydd dibynadwy sy'n seiliedig ar y Cyfrifiad, megis gorlenwi, yn arwain at y maes tai gorau posibl ar gyfer MALIC 2019. Rydym yn disgwyl y bydd gennym wybodaeth wedi'i diweddaru o'r Cyfrifiad cyn y fersiwn nesaf o MALIC, a chyn hynny neu'r mynegai dilynol, rydym yn disgwyl y bydd Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai i Gymru (a ddisgrifir yn 5.6.6) yn rhoi mesurau addas yn seiliedig ar gofnodion gweinyddol cysylltiedig.

Yr opsiwn yr ydym yn ei ffafrio felly yw cynnwys y dangosyddion canlynol ym maes 2019:

- Gorlenwi (mesur ystafelloedd gwely o Gyfrifiad 2011) i gofnodi faint o ystafelloedd gwely sydd ar gael ac amodau byw i ryw raddau
- Cyfran yr anheddau â pheryglon Categori 1 o dan y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (diffiniad union wedi'i fodelu ac is-gategorïau i'w datblygu), i gofnodi cyflwr ffisegol a byw
- Mesur arall o gyflyrau ffisegol a byw fel cyflwr gwael cyffredinol (diffiniad union wedi'i fodelu i'w ddatblygu)

Pe byddai'r gwaith o ddatblygu data cadarn wedi'i fodelu yn annichonadwy, y dangosyddion eraill posibl i ategu gorlenwi fyddai:

- Mesur effeithlonrwydd ynni (gan ddefnyddio data o gofnodion Tystysgrif Perfformiad Ynni), neu
- Diffyg gwres canolog (yn seiliedig ar Gyfrifiad 2011)

Fodd bynnag, nid ydym yn ystyried y naill na'r llall yn ddewis arall dymunol, am y rhesymau a nodir yn adran 5.6.5.

### 5.6.3. Dangosydd(ion) newydd arfaethedig

***Fframweithiau ar gyfer asesu digonolrwydd tai yng Nghymru – HHSRS a SATC***

Mae'r llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol yng Nghymru yn defnyddio dau fesur wedi'u diffinio o ddigonolrwydd tai. Disgrifir y rhain isod.

Cyflwynwyd y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (HHSRS: offeryn gwerthuso sy'n seiliedig ar risg) yng Nghymru a Lloegr yn 2006. Mae awdurdodau lleol yn defnyddio HHSRS i benderfynu a oes peryglon yn bodoli a allai achosi niwed i iechyd a diogelwch preswylydd posibl sydd fwyaf agored i niwed y perygl hwnnw. Mae HHSRS yn asesu 29 o gategorïau o beryglon tai mewn pedwar grŵp o beryglon:

- Gofynion Ffisiolegol
- Gofynion Seicolegol
- Amddiffyn rhag Haint
- Amddiffyn rhag Damweiniau

Gelwir y rhai hynny sydd â sgôr uchel ar y raddfa (ac felly sydd â'r risg mwyaf) yn beryglon Categori 1. Os yw annedd yn cynnwys perygl Categori 1, mae dyletswydd ar yr awdurdod lleol i gymryd y camau gorfodi priodol. Gelwir y rhai hynny sy'n is i lawr y raddfa ac sy'n llai o risg yn beryglon Categori 2 – pan fo'r rhain yn digwydd caiff yr awdurdod lleol gymryd camau gorfodi.

Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) yw safon Llywodraeth Cymru o ansawdd tai cymdeithasol. Cyflwynwyd SATC am y tro cyntaf yn 2002 a'i nod yw helpu i sicrhau bod yr holl anheddau o ansawdd da a'u bod yn addas ar gyfer anghenion preswylwyr presennol ac yn y dyfodol. Pennwyd targed gan Lywodraeth Cymru i'r holl landlordiaid cymdeithasol wella eu stoc dai er mwyn bodloni'r SATC cyn gynted â phosibl, ond erbyn 2020 fan bellaf. Mae SATC yn mesur 42 o elfennau unigol yn y saith categori canlynol:

- Mewn cyflwr da o atgyweiriad
- Yn ddiogel ac yn sicr
- Wedi'i gynhesu'n ddigonol, yn effeithlon o ran ynni ac wedi ei insiwleiddio'n dda
- Yn cynnwys ceginau ac ystafelloedd ymolchi cyfoes
- Wedi'u rheoli'n dda (ar gyfer tai ar osod)
- Wedi'u lleoli mewn amgylchedd deniadol a diogel
- I'r graddau y mae hynny'n bosibl, eu bod yn addas ar gyfer gofynion penodol yr aelwyd (e.e. anableddau penodol)

Caiff pob un o'r elfennau hyn eu categoreiddio yn elfen sylfaenol neu eilaidd. Mae elfennau sylfaenol yn ymwneud yn bennaf â diogelwch preswylwyr ac mae elfennau eilaidd yn ymwneud yn bennaf â pha mor gyfforddus yw'r preswylwyr.

Ceir rhywfaint o orgyffwrdd rhwng HHSRS a SATC, a byddai unrhyw elfen yr asesir bod ganddi Berygl HHSRS Categori 1 yn golygu na fyddai'r annedd yn cydymffurfio â SATC yn awtomatig ychwaith. Mae canllawiau manwl ar gyfer SATC yn nodi o dan bob adran isafswm y gofynion o ran mathau o beryglon HHSRS.

*Mesuriadau cenedlaethol newydd HHSRS/SATC ac is-elfennau*

Sefydlwyd y Rhaglen Dystiolaeth ar Amodau Tai (HCEP) yn 2014 sef rhaglen fuddsoddi strategol mewn tystiolaeth o gyflwr ac effeithlonrwydd ynni/perfformiad tai yng Nghymru. Un o'i hamcanion yw darparu barn genedlaethol ar amodau tai ar draws pob math o ddeiliadaeth, yng nghyd-destun SATC a HHSRS. Cyflawnir hyn drwy Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18 (WHCS), arolwg cenedlaethol sy'n cynnwys archwiliadau ffisegol o ychydig dros 2,500 o eiddo o bob math a deiliadaeth yng Nghymru, heb gynnwys eiddo gwag.

*Ein cynigion ar gyfer dangosydd wedi'i fodelu*

Gallai fod yn bosibl defnyddio arolygon tai (gan gynnwys WHCS) a data gweinyddol cysylltiedig i fodelu mesuriadau ar lefel ardal fach i'w defnyddio ym MALIC. Rydym yn y camau cynnar o ymchwilio i opsiynau ar gyfer hyn, ond rydym yn gobeithio y bydd model cadarn addas yn darparu data mewn pryd ar gyfer MALIC 2019. Rydym yn cynnig parhau i flaenoriaethu'r opsiwn hwn.

Gan ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd gan WHCS ac arolygon eiddo eraill (er enghraifft, Arolwg Tai Lloegr) fel man cychwyn, rydym wedi ystyried y mathau o fesurau y byddai'n well gennym eu modelu ar lefel ardal fach. Mae hyn wedi cynnwys mesuriadau yn seiliedig ar HHSRS, SATC ac is-elfennau o'r ddau. Rydym wedi ystyried faint o fanylion a gesglir, fel arfer, mewn arolygon tai, er enghraifft, yn WHCS dim ond ar 6 o'r prif beryglon HHSRS y cynhelir yr asesiad risg HHSRS llawn, ac mae 20 arall un ai'n cael eu nodi'n beryglon 'Categori 1' neu'n cael eu modelu o ddata arolwg arall. Rydym hefyd wedi edrych ar y data diweddaraf sydd ar gael (o arolwg eiddo 2008) i asesu a yw mesuriadau yn debygol o gynrychioli prif nodweddion amddifadedd.

Caiff camau awdurdodau lleol i fynd i'r afael â thai gwael ei sbarduno gan HHSRS, sy'n gallu bod yn berthnasol ar draws bob math o ddeiliadaeth yn hytrach na thai cymdeithasol yn unig, sy'n wir yn achos SATC. Rydym felly'n cynnig pwysleisio HHSRS, ond hefyd ystyried elfennau allweddol o SATC na chaiff eu cynnwys yn fframwaith HHSRS. Mae ein pwyslais ar beryglon categori 1 o dan HHSRS hefyd yn cyfochri â'r data a ddefnyddiwyd i lunio'r Dangosydd Cenedlaethol sy'n mesur cyfran yr anheddau heb unrhyw beryglon. Rydym yn cynnig modelu dangosyddion:

- Cyfran yr anheddau â pheryglon Categori 1 o dan y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (diffiniad union wedi'i fodelu ac is-gategorïau i'w datblygu), i gofnodi cyflwr ffisegol a byw
- Mesur arall o gyflyrau ffisegol a byw fel cyflwr gwael cyffredinol (diffiniad union wedi'i fodelu i'w ddatblygu), sy'n berthnasol i'r SATC

### 5.6.4. Dangosydd arfaethedig presennol

**Gorlenwi** – Canran y boblogaeth sy'n byw mewn aelwydydd gorlawn, o Gyfrifiad 2011. Ystyrir bod aelwydydd gorlawn yn ddifreintiedig o ran mynediad at dai addas. Cafodd y dangosydd hwn ei gynnwys ym MALIC 2014 ac, er bod y data braidd yn hen, dyma'r data mwyaf priodol o hyd ar gyfer mesur amodau byw ar lefel AGEHI. Hefyd, yng nghyd-destun y posibilrwydd o ychwanegu data wedi'i fodelu ynglŷn ag ansawdd tai i'r maes, mae'n bwysig cadw ffynhonnell ddata â chwmpas da o'r aelwydydd sylfaenol. Cynigir cynnwys gorlenwi ym MALIC 2019 felly.

Esbonnir y diffiniadau o orlenwi yn llawn ar wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (metadata Cyfrifiad 2011). O ran MALIC 2014, cynigir defnyddio dangosydd sy'n seiliedig ar y mesur ystafelloedd gwely ar gyfer MALIC 2019.

### 5.6.5. Dangosyddion eraill a drafodwyd

**Anheddau â sgôr SAP ym mand E neu is**

Rydym wedi ymchwilio i ddata ynglŷn â Thystysgrifau Perfformiad Ynni (EPC) fel dewis i ddeillio procsi ar gyfer ansawdd tai gan ddefnyddio'r sgorau Gweithdrefn Asesu Safonol (SAP) a gofnodir. Y ddadl gysyniadol yw bod cartrefi â pherfformiad effeithlonrwydd ynni gwael yn anoddach/drutach i'w gwresogi. Defnyddir y data hwn hefyd i lunio'r Dangosydd Cenedlaethol sy'n mesur canran yr anheddau â pherfformiad ynni digonol. Fodd bynnag, nid yw'n glir bod sgorau SAP yn fesur cywir o amddifadedd tai fel y caiff ei ddiffinio ar gyfer MALIC. Er enghraifft, gallai rhai pobl ddewis byw mewn eiddo aneffeithlon o ran ynni oherwydd nodweddion eraill deniadol yr eiddo, a'u bod yn dal i allu ei wresogi yn gyfforddus.

Yn ogystal â hyn, mae gennym bryderon ynghylch dibynadwyedd data EPC, yn enwedig mewn cyd-destunau penodol. Mae angen EPC ar gyfer eiddo wrth ei adeiladu, ei werthu neu ei osod. Mae data EPC wedi ei gyhoeddi gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Rydym wedi cael data ar gyfer Cymru a'i ddadansoddi, ac wedi canfod bod amrywiaeth eang o broblemau ansawdd data. Er bod cwmpas cofnodion EPC ar draws yr AGEHI yn eithaf da, nid yw'n gyflawn a cheir risg o duedd. Mae llawer o'r cofnodion yn hen. Ceir rhagor o wybodaeth am ein dadansoddiad o ddata EPC a'r problemau ansawdd yn Atodiad F.

Rydym yn cynnig diystyru cynnwys dangosydd yn seiliedig ar ddata EPC ym MALIC 2019, ar y sail bod y data presennol o ansawdd gwael ac yn gysylltiad ansicr ag amddifadedd. Mae gwledydd eraill yn y DU (gan gynnwys Gogledd Iwerddon) eisoes wedi dewis peidio â chynnwys dangosydd ar sail EPC am resymau tebyg. Rydym yn ymwybodol o'r gwaith parhaus sylweddol sy'n cael ei wneud i ddadansoddi'r data hwn ym maes llywodraeth, academia a sefydliadau masnachol, a byddwn yn parhau i adolygu ei addasrwydd pan fydd y canfyddiadau ar gael.

**Diffyg Gwres Canolog**

Cafodd y dangosydd hwn ei gynnwys mewn sawl MALIC blaenorol. Er bod data am ddiffyg gwres canolog ar gael yng Nghyfrifiad 2011, nid yw'n cael ei ystyried yn ddangosydd addas o amddifaded tai mwyach. Efallai fod system gwres canolog ar gael mewn cartrefi, ond nid yw hynny'n golygu bod pobl yn gallu fforddio ei defnyddio. Hwyrach ei bod yn annigonol neu'n anaddas. Hefyd, dim ond tua 2% o aelwydydd Cymru sydd heb wres

canolog erbyn hyn, sy'n awgrymu nad yw'r dangosydd yn bodloni ein meini prawf ar gyfer bod yn brif nodwedd o amddifadedd.

**Tlodi Tanwydd**

Fel y diffinir yn Strategaeth Tlodi Tanwydd Llywodraeth Cymru, mae aelwyd yng Nghymru mewn tlodi tanwydd os yw'n gwario 10% neu fwy o'i hincwm (gan gynnwys Budd-dal Tai, Cymhorthdal Incwm ar gyfer Llog Morgais neu fudd-daliadau'r dreth gyngor) ar gostau ynni er mwyn cynhesu'r cartref yn ddigonol. Caiff tlodi tanwydd effaith sylweddol ar iechyd, lles cymdeithasol ac economaidd aelwydydd. Fodd bynnag, nid oes data ar gael ar hyn o bryd ar lefel ardal fach i'w ddefnyddio ym MALIC. Hefyd, mae prisiau ynni ac incwm yr aelwyd yn dylanwadu ar dlodi tanwydd, yn ogystal â nodweddion y cartref ei hun. Golyga hyn nad yw'r cysyniad yn bodloni meini prawf ein dangosydd o fod yn benodol i un maes.

**Fforddiadwyedd Tai**

Byddai'r dangosydd hwn yn mesur amddifadedd o ran diffyg mynediad at dai digonol. Fodd bynnag, ceir problemau cysyniadol â'r mesur hwn. Er enghraifft, mae'r ardaloedd lle mae pobl yn chwilio am dai yn amrywio, a hyd yn oed os ydym ni'n gallu defnyddio ardaloedd y farchnad dai fel procsi ar gyfer hyn (sy'n fwy na daearyddiaeth AGEHI), gallai fod effeithiau sylweddol yn ymwneud â'r ffin. Yn gysyniadol, ceir risg y bydd y dangosydd yn gorgyffwrdd rhywfaint â'r maes incwm ac mae'n bosibl na fydd yn darparu adlewyrchiad cryf o'r tai sydd ar gael mewn ardal. Byddai dangosydd ar fforddiadwyedd yn ystyried cymhareb o incwm i gostau tai cyfartalog (o bosibl i rentu a pherchnogi) a byddai angen dulliau cymhleth o lunio model ystyrlon. Yng Nghymru, mae prisiau cyfartalog tai ar gael ond nid oes amcangyfrifon ardal fach ar gael felly nid yw cyfrifo yn ddichonadwy ar hyn o bryd.

**Digartrefedd**

Gellir ystyried digartrefedd fel y math mwyaf eithafol o amddifadedd o ran mynediad at dai, a nodir trechu digartrefedd yn flaenoriaeth yn strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru *Ffyniant i Bawb*. Defnyddir data ynglŷn ag atal digartrefedd hefyd i lunio'r Dangosydd Cenedlaethol sy'n mesur nifer yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref fesul 10,000. Er y byddai hwn o bosibl yn ddangosydd dymunol i'w gynnwys, ar hyn o bryd dim ond ar lefel Awdurdod lleol y cesglir ac y cyhoeddir data ynglŷn â digartrefedd. Yn ogystal â hyn, mae'n anodd iawn cynnwys hyn mewn mynegai o ardaloedd bach. Mae hyn oherwydd y byddai angen ystyried yn ofalus pa AGEHI yr ydym yn neilltuo'r achosion o ddigartrefedd iddi: gallai adlewyrchu amddifadedd tai yn yr ardal yr oedd yr unigolyn digartref yn byw ynddo yn flaenorol neu'r ardal lle cofnodir ei fod ef neu hi yn ddigartref. Mae prosiect ar waith i ystyried dichonoldeb casglu data digartrefedd ar lefel achosion yng Nghymru. Ystyrir datblygiadau o'r fath yn rhan o drafodaethau ar fynegai yn y dyfodol.

**Nwy oddi ar y prif gyflenwad**

Ystyriwyd a allai dangosydd sy'n mesur canran yr eiddo nad ydynt yn derbyn nwy o'r prif gyflenwad fod yn brocsi ar gyfer cost uchel gwresogi. Fodd bynnag, diystyriwyd hyn fel maes blaenoriaeth ar gyfer MALIC 2019 gan nad oes gan ryw hanner yr AGEHI dai yr effeithir arnynt (h.y. ni fyddem yn gallu pennu safle iddynt) ac felly ni ellir defnyddio hwn i fesur amddifadedd cymharol.

### 5.6.6. Datblygiad yn y dyfodol

**Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai i Gymru (HSAR)**

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai i Gymru (HSAR) ar hyn o bryd yn rhan o'i Rhaglen Dystiolaeth o Gyflwr Tai (HCEP), a drafodir yn 5.6.3. Nod HSAR yw dod ag ystod o ddata at ei gilydd ar nodweddion, ffabrig, cyflwr ac effeithlonrwydd ynni'r stoc dai yng Nghymru. Bydd HSAR yn cyfuno data dienw, pan fo hynny'n bosibl ar lefel eiddo unigol, ac yn ei ddefnyddio i lywio cyfeiriad polisïau tai ac amgylchedd, yn enwedig yn ymwneud â chyflwr tai a thlodi tanwydd. Mae'r adnodd hwn yn dal i fod ar gam datblygu cynnar ac felly ni ellir ei ddefnyddio i gyfrannu at MALIC 2019. Fodd bynnag, caiff ei ystyried mewn fersiynau o'r mynegai yn y dyfodol, yn amodol ar barhad HCEP.

### 5.6.7. Pwysoli

Os bydd ein cynnig i gynnwys dangosyddion newydd wedi'u modelu ar ansawdd tai ynghyd â mesur o orlenwi yn ddichonadwy, yna byddem yn adolygu ein dull o bwysoli'r dangosyddion yn y maes. Hefyd, byddai pwysoliad y maes ei hun yn cael ei gynyddu i lefel sy'n adlewyrchu pwysigrwydd a chadernid canfyddedig y maes wedi'i ddiwygio, gan addasu pwysoliadau'r meysydd eraill yn unol â hynny.

### 5.6.8. Materion ar gyfer ymateb

- A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'n cynigion i gynnwys model o ddangosydd ar gyfer ansawdd tai gwael yn y maes tai, os yw'n bosibl?
- Wrth ddatblygu'r model o'r dangosydd, a oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'n pwyslais arfaethedig ar beryglon (yn unol â diffiniad System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai, HHSRS) ac ar gyflwr gwael i gofnodi ansawdd tai gwael?
- A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'n cynnig i BEIDIO â chynnwys dangosydd wedi'i seilio ar ddata Tystysgrif Perfformiad Ynni yn y maes tai, ar sail ansawdd data isel?
- A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'n cynnig i barhau i ddefnyddio gorlenwi yn ddangosydd ar gyfer amddifadedd tai?
- A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'n cynnig i ddileu'r dangosydd "diffyg gwres canolog" fel mesur o amddifadedd tai?
- A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â'r cynigion ar gyfer y maes Tai?

### 5.7. Yr Amgylchedd Ffisegol

Diben y dangosydd hwn yw mesur y ffactorau yn yr ardal leol a all effeithio ar les neu ansawdd bywyd y rhai sy'n byw yn yr ardal.

Yn gyffredinol, nid oes cydberthynas rhwng amddifadedd amgylcheddol ag amddifadedd cymdeithasol neu economaidd yng Nghymru (cyf: Walker et al 2003). Nid yw'r maes hwn yn nodi agweddau ar amddifadedd fel anghydraddoldebau iechyd (un o amcanion y maes Iechyd). Dewiswyd dangosyddion sy'n dangos potensial uwch ar gyfer ansawdd bywyd is, ac a oedd ar gael yn hawdd.

Mae'r maes hwn wedi'i rannu'n dri is-faes.

#### 5.7.1. Trosolwg o'r cynigion

Mae crynodeb o'r cynigion ar gyfer pob is-faes yn dilyn, a cheir rhagor o fanylion yn adran 5.7.2.

- **Cyfran yr Aelwydydd sydd mewn Perygl o Lifogydd**
    - Rydym yn cynnig cadw'r dangosydd hwn ond iddo ddeillio o ddata Asesiad Perygl Llifogydd Cymru sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan Cyfoeth Naturiol Cymru
- **Sgôr Ansawdd Aer**
    - Rydym yn bwriadu symleiddio hyn trwy gyfrifo tri dangosydd wedi'u seilio ar werthoedd crynodiad cyfartalog wedi'u pwysoli gan y boblogaeth ar gyfer tri phrif lygrydd
- **Diffyg Agosrwydd at Fan Gwyrdd Naturiol**
    - Rydym yn bwriadu datblygu dangosydd sy'n mesur cyfran yr aelwydydd sydd â diffyg agosrwydd at fan gwyrdd naturiol sy'n rhwydd ei gyrraedd. Bydd y dangosydd/is-faes hwn yn disodli'r dangosydd agosrwydd at safleoedd gwaredu gwastraff a safleoedd diwydiannol a ddefnyddiwyd mewn fersiynau blaenorol o MALIC.

#### 5.7.2. Dangosyddion Arfaethedig

**Cyfran yr Aelwydydd sydd mewn Perygl o Lifogydd** – Cafodd dangosydd perygl llifogydd ei gynnwys ym MALIC 2014 a oedd yn seiliedig ar ddata o Asesiad Perygl Llifogydd Cenedlaethol (NaFRA). Ar gyfer MALIC 2019, rydym yn cynnig cynnwys dangosydd perygl llifogydd yn seiliedig ar y data o Asesiad Perygl Llifogydd Cymru (FRAW) sy'n cael ei ddatblygu gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd.

Bydd y dangosydd perygl llifogydd yn mesur cyfran yr aelwydydd sydd mewn perygl o lifogydd o afonydd, y môr a hefyd llifogydd dŵr wyneb. Bydd hwn ychydig yn wahanol i ddangosydd MALIC 2014 nad oedd yn cynnwys llifogydd dŵr wyneb.

Mae'r perygl yn seiliedig ar amlder disgwyliedig yn hytrach na faint o ddifrod a achosir gan lifogydd. Rhoddir pwysoliad uwch i'r aelwydydd sydd mewn perygl sylweddol o lifogydd o'u cymharu â rhai sydd mewn perygl is.

Fel yn achos MALIC 2014, cynigir ystyried gwahanol lefelau perygl, fel a ganlyn:

- Uchel ~ mwy na neu'n hafal i debygolrwydd o 1 mewn 30 (3.3%) o lifogydd mewn unrhyw flwyddyn benodol
- Canolig ~ tebygolrwydd o lai nag 1 mewn 30 (3.3%) ond mwy na neu'n hafal i debygolrwydd o 1 mewn 100 (1%) mewn unrhyw flwyddyn benodol
- Isel ~ tebygolrwydd o lai na 1 mewn 100 (1%) ond mwy neu'n hafal i 1 mewn 1000 (0.1%) mewn unrhyw flwyddyn benodol
- Isel Iawn ~ tebygolrwydd o lai nag 1 mewn 1000 (0.1%) mewn unrhyw flwyddyn benodol

I sicrhau bod yr ardaloedd sydd mewn perygl o ddioddef llifogydd mwy difrifol yn cyfrif fel ardaloedd mwy difreintiedig nag ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd llai difrifol, defnyddir pwysoliad.  Defnyddiwyd y pwysoliad canlynol ym MALIC 2014:

- Lluoswyd nifer yr aelwydydd mewn ardaloedd sydd mewn perygl uchel â 24;
- Lluoswyd nifer yr aelwydydd mewn ardaloedd sydd mewn perygl canolig â 4; a
- Lluoswyd nifer yr aelwydydd mewn ardaloedd sydd mewn perygl isel neu isel iawn ag 1.

Byddwn yn adolygu ac, os oes angen, yn diwygio'r pwysoliad ar gyfer MALIC 2019.

Cyfrifir pob un o'r rhifau hyn ar gyfer pob AGEHI ac yna eu hychwanegu at ei gilydd i roi cyfanswm nifer yr aelwydydd wedi'u normaleiddio sydd mewn perygl o lifogydd fesul AGEHI. Caiff y rhif hwn ei rannu â chyfanswm nifer yr aelwydydd yn yr AGEHI i roi cyfran yr aelwydydd sydd mewn perygl o lifogydd.

**Sgôr Ansawdd Aer Amcangyfrifiedig** – Datblygir yr is-faes ansawdd aer trwy ddefnyddio mesuriadau o lygryddion a allai arwain at effaith negyddol ar iechyd dynol a/neu yr amgylchedd yn seiliedig ar y ddealltwriaeth feddygol a gwyddonol orau. Fe'i cynigir fel mesuriad procsi o ansawdd yr amgylchedd amgylchynol. Mae ansawdd aer gwael yn awgrymu agosrwydd at weithgareddau penodol fel traffig, hylosgi domestig a safleoedd diwydiannol – gweithgareddau a allai arwain at effaith negyddol ar ansawdd bywyd, yr amgylchedd lleol ac iechyd.

Roedd is-faes ansawdd aer MALIC 2014 yn cynnwys dau ddangosydd â phwysoliad cyfartal:

- Crynodiad Aer – a gyfrifir trwy ddefnyddio cyfuniad o ddata crynodiad (wedi'i fodelu ar ddata allyriadau aer) ar gyfer ystod o lygryddion ac Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer.
- Allyriadau Aer – sy'n darparu set dda o ddata cyflenwol sy'n cwmpasu llygryddion nad ydynt wedi'u cynnwys yn y dangosydd crynodiad aer.

Ar gyfer MALIC 2019, cynigir symleiddio'r is-faes ansawdd aer a deillio tri dangosydd yn seiliedig ar werthoedd crynodiad cyfartalog wedi'u pwysoli y llygryddion canlynol ar sail poblogaeth:

- Nitrogen diocsid
- Gronynnau < 10 µm
- Gronynnau < 2.5 µm

Bydd hwn yn alinio'r is-faes ansawdd aer â'r Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol perthnasol yn ogystal â darparu data dangosyddion mwy tryloyw ac ystyrlon i ddefnyddwyr.

Mae angen rhagor o ystyriaeth i benderfynu sut y caiff y dangosyddion eu cyfuno i ffurfio sgôr ansawdd aer gyffredinol ar gyfer yr is-faes.

Ffynonellau data y dangosyddion hyn yw gridiau crynodiad aer DEFRA ac Amcangyfrifon Poblogaeth Ardaloedd Bach y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SAPE).

**Diffyg Agosrwydd at Fan Gwyrdd Naturiol Hygyrch** – ystyrir bod Man Gwyrdd Naturiol yn dylanwadu'n gadarnhaol ar les pobl. Ystyriwyd dangosydd a oedd yn ystyried cyfran yr aelwydydd â diffyg agosrwydd (er enghraifft, o fewn 300 metr) i Fan Gwyrdd Naturiol Hygyrch (ANGS) ac eithrio gerddi preifat.

Defnyddir 'man gwyrdd' i olygu tir â llystyfiant – parciau, gerddi cymunedol, coed, coetiroedd a pherthi, mannau anffurfiol, rhandiroedd a safleoedd tyfu bwyd – yn ogystal ag ardaloedd o ddŵr megis afonydd, camlesi, llynnoedd a phyllau dŵr (cyfeirir ato'n aml fel 'man glas'). Mae'r diffiniad hefyd yn cynnwys yr arfordir, a gynhelir at ddibenion hamdden a mwynhad cymunedau yn ein pentrefi, trefi a dinasoedd.

Mae data ANGS wedi'i ddatblygu gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac mae gwaith yn parhau i benderfynu pa mor addas yw'r data hwn at ddibenion MALIC 2019.

### 5.7.3. Dangosyddion eraill a drafodwyd

**Sgôr agosrwydd at safleoedd gwaredu gwastraff a safleoedd diwydiannol** – Defnyddiwyd y dangosydd agosrwydd at safleoedd gwaredu gwastraff a safleoedd diwydiannol ym MALIC 2014. Cyfoeth Naturiol Cymru yw ffynhonnell y data ar gyfer y dangosydd hwn.
Datblygwyd y dangosydd hwn yn wreiddiol fel mesuriad procsi i nodi ansawdd bywyd cyffredinol yn sgil byw mewn ardal benodol. Rydym yn disgwyl y bydd y dangosydd diffyg agosrwydd at fan gwyrdd naturiol yn nodi agwedd debyg ar amddifadedd. Yn ogystal â hyn, mae'r dangosydd yn amcangyfrif yr effaith ar waredu gwastraff a safleoedd diwydiannol a reoleiddir ond nid yw'n nodi safleoedd na chânt eu rheoleiddio (y gellid dadlau y byddant yn effeithio'n fwy ar yr amgylchedd o gwmpas). Felly, cynigir peidio â chynnwys y dangosydd hwn ym MALIC 2019. Fodd bynnag, byddwn yn gwneud mwy o ddadansoddi i benderfynu ar effaith gyffredinol eithrio'r dangosydd hwn o blaid cynnwys dangosydd agosrwydd at fan gwyrdd naturiol.

**Llygredd sŵn** – Byddai'r dangosydd hwn yn nodi ffynonellau sŵn a fyddai'n amddifadu pobl o amgylchedd da i fyw ynddo. Ystyriwyd cynnwys y dangosydd hwn mewn mynegeion blaenorol, ond cafodd ei wrthod ar sail diffyg ffynhonnell ddata briodol.
Yn 2015, cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad o'i fapiau sŵn er mwyn sefydlu pa rai ohonynt yr oedd angen eu diweddaru. Yn sgil y gwaith hwn, lluniwyd mapiau sŵn newydd yn 2017 ar gyfer prif ffyrdd ledled Cymru ac ar gyfer safleoedd diwydiannol mawr yn y tri chydgrynhoad (Caerdydd a Phenarth, Casnewydd, ac Abertawe a Chastell-nedd), ond nid ar gyfer y prif reilffyrdd nac ar gyfer mân ffyrdd a rheilffyrdd mewn cydgrynodiadau.

Ystyriwyd cynnwys dangosydd o'r mapiau sŵn hyn ym MALIC 2019. Fodd bynnag, oherwydd cwmpas penodol y mapiau sŵn, byddai'r dangosydd hwn yn peri i nifer sylweddol o AGEHI fod â sgôr o ddim ac felly ni fyddai'n bodloni meini prawf dangosyddion MALIC. Cynigir peidio â chynnwys y dangosydd hwn ym MALIC 2019. Bydd argaeledd parhaus data ar sŵn yn parhau i gael ei fonitro ar gyfer mynegeion yn y dyfodol.

**Tipio anghyfreithlon** – Mae tipio anghyfreithlon yn cael effaith negyddol ar yr amgylchedd ffisegol ac yn amddifadu pobl o amgylchedd da i fyw ynddo. Ystyriwyd defnyddio'r dangosydd hwn ar gyfer mynegeion blaenorol, ond cafodd ei wrthod ar sail diffyg ffynhonnell ddata briodol ar gyfer ardaloedd bach. Dyma'r achos o hyd.

### 5.7.4. Pwysoli

Fel yn achos MALIC 2014, rydym yn cynnig pwysoli'r is-feysydd yn gyfartal (1/3 yr un).

### 5.7.5. Materion ar gyfer ymateb

- A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'n cynigion i symleiddio'r is-faes ansawdd aer?
- A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'n cynigion i gynnwys dangosydd sy'n mesur diffyg agosrwydd at fan gwyrdd hawdd ei gyrraedd yn hytrach na dangosydd sy'n mesur agosrwydd at safleoedd gwaredu gwastraff a safleoedd diwydiannol?
- A oes gennych unrhyw farn ar y pwysoli arfaethedig yn y maes hwn?
- A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â'r cynigion ar gyfer y maes yr Amgylchedd Ffisegol?

### 5.8. Diogelwch Cymunedol

Nod y maes hwn yw ystyried amddifadedd sy'n gysylltiedig â byw mewn cymuned ddiogel. Mae'n cynnwys union brofiad o drosedd a thân, yn ogystal â syniad pobl o ddiogelwch wrth fynd a dod yn yr ardal leol.

Ers cyhoeddi MALIC 2014, mae pwyslais o'r newydd wedi bod ar ansawdd cofnodi gan yr heddlu. Mae hyn yn dilyn yr arolygiadau o'r heddluoedd gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi, Y Pwyllgor Dethol Gweinyddiaeth Gyhoeddus (PASC) ymchwiliad i ystadegau troseddau a phenderfyniad Awdurdod Ystadegau'r DU i ddileu'r dynodiad Ystadegau Gwladol o ystadegau troseddau a gofnodir gan yr heddlu. Credir bod y pwyslais o'r newydd hwn wedi arwain at well cydymffurfio â Safon Genedlaethol Cofnodi Troseddau, sydd wedi arwain at gofnodi cyfran fwy o'r troseddau sy'n dod i sylw'r heddlu.

#### 5.8.1. Trosolwg o'r cynigion

Rydym yn cynnig peidio â gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r dangosyddion yn y maes hwn.
Ceir rhagor o fanylion am y dangosyddion arfaethedig yn adran 5.8.2.

#### 5.8.2. Dangosyddion Arfaethedig

**Bwrgleriaeth a gofnodir gan yr heddlu** (cyfartaledd dwy flynedd) – mae'r dangosydd hwn yn nodi profiad gwirioneddol o drosedd. Fel ym MALIC 2014, mae'r achosion (troseddau) wedi'u cofnodi gan bedwar gwasanaeth heddlu'r wlad (Gogledd Cymru, Dyfed Powys, De Cymru a Gwent). Mae'r achosion hyn wedi'u neilltuo i'r pwynt lle digwyddodd y drosedd, a'u dyrannu i'r ardal gynnyrch ehangach haen is (AGEHI) briodol.

Dyma'r codau trosedd i'w cynnwys:

- 28 A, B, C a D Bwrgleriaeth Annedd;
- 28E Bwrgleriaeth – Preswyl;
- 28G Bwrgleriaeth Drwy Dynnu Sylw – Preswyl;
- 29, 29A Bwrgleriaeth Waethygedig mewn annedd;
- 30 A a B Bwrgleriaeth mewn Adeilad ac eithrio Annedd;
- 30C Bwrgleriaeth – Busnes a Chymuned;
- 31 Bwrgleriaeth Waethygedig mewn Adeilad ac eithrio Annedd; a
- 31A Bwrgleriaeth Waethygedig – Busnes a Chymuned.

**Difrod troseddol a gofnodir gan yr heddlu** (cyfartaledd dwy flynedd) – mae'r dangosydd hwn yn cofnodi profiad gwirioneddol o drosedd. Fel ym MALIC 2014, mae'r achosion (troseddau) wedi'u cofnodi gan bedwar gwasanaeth heddlu'r wlad (Gogledd Cymru, Dyfed Powys, De Cymru a Gwent). Mae'r achosion hyn wedi'u neilltuo i'r pwynt lle digwyddodd y drosedd, a'u dyrannu i'r ardal gynnyrch ehangach haen is (AGEHI) briodol.

Dyma'r codau troseddau i'w cynnwys:

- 56 A a B Tân bwriadol;
- 58A Difrod troseddol i annedd;
- 58B Difrod troseddol i adeilad ac eithrio annedd;
- 58C Difrod troseddol i gerbyd;
- 58D Difrod troseddol arall;
- 58E Difrod troseddol gwaethygedig i annedd ar sail hil neu grefydd;

- 58F Difrod troseddol gwaethygedig i adeilad ac eithrio annedd, ar sail hil neu grefydd;
- 58G Difrod troseddol gwaethygedig i gerbyd ar sail hil neu grefydd;
- 58H Difrod troseddol gwaethygedig arall ar sail hil neu grefydd;
- 58J Difrod troseddol gwaethygedig ar sail hil neu grefydd *(codau 58E, 58F, 58G a 58H yn flaenorol)*; a
- 59 Bygythiad neu feddiant gyda bwriad i achosi difrod troseddol.

**Dwyn a gofnodir gan yr heddlu** (cyfartaledd dwy flynedd) - mae'r dangosydd hwn yn nodi profiad uniongyrchol o drosedd. Fel ym MALIC 2014, mae'r achosion (troseddau) wedi'u cofnodi gan bedwar gwasanaeth heddlu'r wlad (Gogledd Cymru, Dyfed Powys, De Cymru a Gwent). Mae'r achosion hyn wedi'u neilltuo i'r pwynt lle digwyddodd y drosedd, a'u dyrannu i'r ardal gynnyrch ehangach haen is (AGEHI) briodol.

Dyma'r codau troseddau i'w cynnwys:

- 37/2 Dwyn gwaethygedig o gerbyd;
- 39 Dwyn oddi wrth unigolyn;
- 45 Dwyn o gerbyd;
- 48 Dwyn neu fynd â cherbyd modur heb ganiatâd;
- 126 Ymyrryd â cherbyd.

**Troseddau treisgar a gofnodir gan yr heddlu** (cyfartaledd dwy flynedd) – mae'r dangosydd hwn yn cofnodi profiad gwirioneddol o drosedd. Fel ym MALIC 2014, mae'r achosion (troseddau) wedi'u cofnodi gan bedwar gwasanaeth heddlu'r wlad (Gogledd Cymru, Dyfed Powys, De Cymru a Gwent). Mae'r achosion hyn wedi'u neilltuo i'r pwynt lle digwyddodd y drosedd, a'u dyrannu i'r ardal gynnyrch ehangach haen is (AGEHI) briodol.

Dyma'r codau troseddau i'w cynnwys:

- 1 Llofruddiaeth;
- 2 Ymgais i lofruddio;
- 3 A a B Cynllwynio i Lofruddio neu Fygythiadau i Ladd;
- 4/1 Dynladdiad;
- 4/2 Mabanladdiad;
- 5 A B a C Anafu neu weithred arall sy'n bygwth bywyd;
- 5 D ac E Ymosodiad â'r Bwriad i Achosi Niwed Difrifol neu Beryglu Bywyd *(codau 5A, 5B, 5C, 6 a 7 yn flaenorol);*
- 6 Peryglu teithiwr trên;
- 7 Peryglu bywyd ar y môr;
- 8F, G a K, Anaf arall;
- 8L, 9A Aflonyddu;
- 8H a J Anaf gwaethygedig arall ar sail hil neu grefydd;
- 8M a 9B Aflonyddu gwaethygedig arall ar sail hil neu grefydd;
- 8N Ymosodiad ag anaf *(codau 8F, 8G ac 8K yn flaenorol);*
- 8P Ymosodiad ag anaf ar sail hil neu grefydd *(codau 8H ac 8J yn flaenorol)*;
- 10A Meddiant o ddrylliau â bwriad i'w defnyddio;
- 10B Troseddau yn ymwneud â meddiant o ddrylliau;
- 11 Creulondeb i ac esgeuluso plant;
- 12 Gadael plentyn dan ddwy oed;
- 11A Creulondeb i blant/pobl ifanc *(codau 11 a 12 yn flaenorol)*;
- 37/1 Achosi marwolaeth trwy achos gwaethygedig o gymryd cerbyd
- 105A Ymosodiad cyffredin

- 105B Ymosodiad cyffredin gwaethygedig ar sail hil neu grefydd
- 34A Dwyn eiddo busnes
- 34B Dwyn eiddo personol
- 81 Deddf Drylliau 1968 a Deddfau Drylliau eraill

**Ymddygiad gwrthgymdeithasol** (cyfartaledd o ddwy flynedd) – mae'r dangosydd hwn yn ymwneud â phrofiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Fel ym MALIC 2014, mae'r achosion wedi'u cofnodi gan bedwar gwasanaeth heddlu'r wlad (Gogledd Cymru, Dyfed Powys, De Cymru a Gwent). Mae'r achosion hyn wedi'u neilltuo i'r pwynt lle digwyddodd y drosedd, a'u dyrannu i'r ardal gynnyrch ehangach haen is (AGEHI) briodol.

**Achosion o dân** (cyfartaledd dwy flynedd) – mae'r dangosydd hwn yn nodi profiad gwirioneddol o dân. Ym MALIC 2014, cafodd achosion o brif danau, tanau eilaidd a thanau simdde eu casglu fel cyfrifon gan AGEHI. Mae'r grŵp maes yn cynnig cynnwys pob achos o danau ar gyfer MALIC 2019.

Mae prif danau yn cynnwys "yr holl danau mewn adeiladau, cerbydau a strwythurau tu allan neu unrhyw dân sy'n cynnwys anafiadau, achubiaeth, neu danau yr ymatebwyd iddynt gan ddefnyddio pump neu fwy o gerbydau tân". Mae tanau eilaidd yn cynnwys "y rhan fwyaf o danau awyr agored gan gynnwys glaswelltir a sbwriel ac eithrio rhai sy'n cynnwys anafiadau, achubiaeth, colli eiddo neu os yw pump neu fwy o gerbydau tân yn ymateb iddynt". Mae nifer y tanau simdde yn gymharol fach (yn cyfrif am ryw 4 y cant o'r holl danau yng Nghymru yn 2017-18) ac "reportable fires in occupied buildings where the fire was confined within the chimney structure and did not involve casualties or rescues or are attended by 5 or more appliances".

### 5.8.3. Dangosyddion eraill a drafodwyd

**Cam-drin Domestig**

Ystyriwyd cynnwys dangosydd cam-drin domestig ym MALIC 2019. Mae'r data ynglŷn â throseddau a gofnodir gan yr heddlu yn cynnwys nodyn ar gyfer cam-drin domestig (h.y. i ddangos pan oedd hynny'n ffactor mewn trosedd benodol). Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r troseddau a nodir yn rhai cam-drin domestig yn droseddau treisgar ac felly byddent eisoes wedi eu cynnwys yn y dangosydd Troseddau Treisgar a Gofnodir gan yr Heddlu. Yn ogystal â hyn, ceir tystiolaeth anecdotaidd sy'n awgrymu bod rhywfaint o wahaniaeth rhwng arferion cofnodi yr heddluoedd. Yn olaf, ceir tystiolaeth na chaiff cyfran o achosion cam-drin domestig eu hadrodd i'r heddlu. Ystyrir na ddylid cynnwys y dangosydd ym MALIC 2019. Fodd bynnag, byddwn yn monitro datblygiadau yn y data ac yn ystyried y dangosydd mewn fersiynau eraill o MALIC.

**Troseddau Casineb**

Ystyriwyd hefyd y dylid cynnwys dangosydd troseddau casineb ym MALIC 2019. Fel yn achos cam-drin domestig, mae'r data a gesglir gan yr heddlu ynglŷn â throseddau yn cynnwys nodyn ar gyfer troseddau casineb (h.y. i ddangos pan yr oedd hynny'n ffactor mewn trosedd benodol). Fodd bynnag, byddai gorgyffwrdd nodedig rhwng troseddau a bennwyd yn droseddau casineb a throseddau gwaethygedig ar sail hil neu grefydd sydd eisoes wedi eu cynnwys yn y dangosyddion presennol. Ceir hefyd tystiolaeth anectodaidd sy'n awgrymu bod rhywfaint o wahaniaeth o ran arferion cofnodi heddluoedd yn ogystal â thystiolaeth na chaiff cyfran sylweddol o droseddau casineb eu hadrodd i'r heddlu. Ystyrir felly na ddylid cynnwys y dangosydd ym MALIC 2019. Fodd bynnag, byddwn yn monitro datblygiadau yn y data ac yn ystyried y dangosydd ar gyfer fersiynau o MALIC yn y dyfodol.

**Seiberdroseddu**

Mae seiberdroseddu wedi ei amlygu yn faes troseddu sy’n datblygu ac felly caiff ei ystyried yn ddangosydd posibl. Fodd bynnag, mae’r cysylltiad rhwng yr achosion o seiberdroseddu ac amddifadedd yn aneglur ar hyn o bryd. Byddwn yn parhau i ymchwilio i’r maes hwn a byddwn yn ystyried y dangosydd hwn ar gyfer fersiynau o MALIC yn y dyfodol.

### 5.8.4. Pwysoli

Caiff dangosyddion eu cyfuno gan ddefnyddio cyfuniad o ddadansoddi ffactorau er mwyn penderfynu faint o bwysoliad y dylai fod gan bob dangosydd yn y maes.

### 5.8.5. Materion ar gyfer ymateb

- A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â’r cynigion ar gyfer y maes Diogelwch Cymunedol?

## 5.9. Pwysoli y Meysydd

### 5.9.1. Cefndir

Mae pob un o'r penodau ar y meysydd uchod wedi sôn am y pwysoliad a ddefnyddiwyd yn y meysydd yn 2014, a chynigion ar gyfer 2019. Mae'r adran hon yn nodi sut y caiff y meysydd eu pwysoli gyda'i gilydd – gweler Atodiad A i gael rhagor o fanylion am fethodoleg.

Mae'r mynegai wedi ei lunio, yn y pen draw, o gyfanswm wedi'i bwysoli o'r sgorau ar gyfer pob maes. Caiff y sgorau wedi'u pwysoli eu gosod yn eu trefn, ar gyfer pob AGEHI. Mae pwysoliad y meysydd yn adlewyrchu pwysigrwydd y maes fel agwedd ar amddifadedd, ac ansawdd y dangosyddion ar gyfer y maes hwnnw.

Ar gyfer MALIC 2014, rhestrir y pwysoliadau a ddefnyddiwyd isod.

| Maes | Pwysoliad |
|---|---:|
| Incwm | 23.5 % |
| Cyflogaeth | 23.5 % |
| Iechyd | 14.0 % |
| Addysg | 14.0 % |
| Mynediad at wasanaethau | 10.0 % |
| Diogelwch Cymunedol | 5.0 % |
| Yr Amgylchedd Ffisegol | 5.0 % |
| Tai | 5.0 % |

### 5.9.2. Y Dull arfaethedig o bwysoli

Ar gyfer MALIC 2019, rydym yn debygol o adolygu'r pwysoliadau o ystyried y bu datblygiadau sylweddol mewn sawl un o'r meysydd. Y dull bras yr ydym yn cynnig ei ddefnyddio yw:

a) Cadw'r pwysoliadau perthynol uchaf ar Incwm a Chyflogaeth fel agweddau allweddol ar amddifadedd. Rydym yn cynnig gwneud hyn o ystyried, er gwaethaf cyflwyno system les newydd, sef Credyd Cynhwysol, nad oes llawer o effaith ar y dangosyddion o ran ansawdd ar gyfer y fersiwn hon, o leiaf.

b) Cynyddu pwysoliad y maes Tai os byddwn yn llwyddo i gynnwys data wedi'i fodelu ar dai o ansawdd gwael.

c) Yn amodol ar b), lleihau pwysoliad rhai o'r meysydd eraill (heblaw am faes Tai) i ganiatáu ar gyfer cynnydd ym mhwysoliad Tai. Byddem hefyd yn ystyried gwelliannau a weithredwyd i feysydd eraill wrth wneud hynny.

### 5.9.3. Cwestiwn i'w ystyried

- A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r dull arfaethedig o bwysoli meysydd ym MALIC 2019?

### 5.10. Camau Nesaf

Mae'r cyfnod ymgynghori yn dechrau ar 22 Hydref 2018, a **17 Rhagfyr 2018 yw'r dyddiad cau ar gyfer ymateb**.

Cynhelir gweminar ymgynghori (seminar ymgynghori ar-lein) ar 7 Tachwedd a 3 Rhagfyr trwy gyfrwng y Saesneg, ac yn y Gymraeg ar 29 Tachwedd. Bydd yn cynnwys cyflwyniad i'r cynigion a chyfle i ofyn cwestiynau. I gael rhagor o fanylion am y gweminarau ac i gofrestru, ewch i: http://llyw.cymru/mallc/

Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyflwyno yn ôl i'r grwpiau maes, grŵp cynghori MALIC, y bwrdd prosiect a grŵp llywio MALIC. Mae rhestr aelodaeth y grwpiau hyn i'w gweld yn Atodiad C.

Bydd crynodeb o'r ymatebion yn cael ei gyhoeddi yn ystod gwanwyn 2019. Byddwn yn treulio haf 2019 yn dadansoddi ac yn cynhyrchu MALIC wedi'i ddiweddaru, cyn cyhoeddi'r fersiwn derfynol tua diwedd 2019.

O ran diweddariadau yn y dyfodol, rydym yn croesawu safbwyntiau ar ba mor aml y dylid diweddaru MALIC. Yn y gorffennol, bob tair blynedd ydoedd, ond heb unrhyw resymeg benodol y tu ôl i'r amlder hwn. Mae diweddaru MALIC yn defnyddio llawer iawn o adnoddau ac mae'n bosibl na fydd yn achosi unrhyw newidiadau sylweddol o fewn cyfnod byr. Byddwn yn ystyried yr amseriad mwyaf priodol i gyd-fynd ag amseriad tebygol yr Asesiadau o Lesiant Lleol byrddau gwasanaethau cyhoeddus ac anghenion defnyddwyr eraill. Byddwn hefyd yn ystyried pryd fydd data newydd o'r Cyfrifiad (Cyfrifiad 2021) yn dod ar gael i fewnbynni i'r MALIC nesaf.

Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau ar y cynigion ar gyfer MALIC 2019 sydd heb eu cynnwys eisoes.

#### 5.10.1. Cwestiwn i'w ystyried

- A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â'r cynigion ar gyfer MALIC 2019 (nad ydynt wedi'u trafod eisoes) neu ar gyfer diweddariadau MALIC yn y dyfodol?

# Atodiad A: Methodoleg

Ar gyfer pob ardal fach neu Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (AGEHI), cyfrifir sgôr ar gyfer 8 maes (neu fath) o amddifadedd, gyda'r AGEHI mwyaf difreintiedig yn cael sgôr o 1 a'r lleiaf difreintiedig yn cael sgôr o 1909. Wyth maes amddifadedd MALIC yw:

- incwm
- cyflogaeth
- iechyd
- addysg
- diogelwch cymunedol
- mynediad at wasanaethau
- tai
- yr amgylchedd ffisegol

Mae rhagor o wybodaeth am y technegau a ddefnyddiwyd ym MALIC ar gael yn adroddiad technegol MALIC 2014.

## Llunio MALIC

### Cam 1: Casglu Data

Mae data gweinyddol a data'r Cyfrifiad o ffynonellau swyddogol amrywiol yn cael ei gasglu a'i ddyrannu i bob AGEHI. Defnyddir data gweinyddol yn benodol gan ei fod yn gadarn a dibynadwy ar lefel ardal fach. Mae dangosyddion wedi'u hadolygu gan grwpiau maes sydd â gwybodaeth benodol am ffynonellau'r data a dangosyddion posibl.

### Cam 2: Paru data â lefel AGEHI neu godau post

Ni ddyrennir data i AGEHI fel rhan o'r broses gasglu yn gyffredinol. Mae setiau data gwahanol yn amrywio yn ôl lefel eu codau daearyddol ac felly mae angen defnyddio dulliau gwahanol. Mae setiau data yn perthyn i un o'r categorïau canlynol, a ddangosir yn ôl y drefn a ffefrir yn nhermau ansawdd data:

i. mae data wedi'i geogodio, a gellir ei ddyrannu i'r union AGEHI gan ddefnyddio System Wybodaeth Ddaearyddol (GIS);
ii. mae data yn cynnwys y cyfeiriad post llawn a gellir ei ddyrannu i'r union AGEHI drwy dablau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol;
iii. mae data wedi'i godio gyda rhyw fath arall o ddaearyddiaeth ardal fach (e.e. cod post yn unig) a gellir ei ddyrannu i'r AGEHI yn yr un modd, gan ddefnyddio'r dull gweddu orau (mewn ychydig o achosion)

Os nad yw'r cofnodion data unigol o safon digon da i baru ag AGEHI, ar ôl glanhau data, yna defnyddir techneg dosrannu (gweler Atodiad C yn adroddiad technegol MALIC 2014).

### Cam 3: Creu dangosyddion

Mae angen cyfrifiadau pellach gyda rhai dangosyddion er mwyn dod yn ddangosydd MALIC. Mae llawer o'r dangosyddion yn cael eu mynegi fel cyfraddau (e.e. cyfradd difrod troseddol a gofnodir gan yr heddlu) ac wedi'u cyfrifo trwy rannu nifer y cyfrif o droseddau troseddol ar lefel AGEHI â'r amcangyfrif poblogaeth priodol ar gyfer yr AGEHI honno.

Mae tri o'r dangosyddion a ddefnyddir yn y maes iechyd yn defnyddio dull safoni ar sail oedran a rhyw. Y nod yw cywiro'r dangosyddion ar gyfer y dosbarthiadau oedran a rhyw gwahanol ymhlith poblogaethau AGEHI. Er enghraifft, efallai y bydd rhywun yn disgwyl gweld cyfraddau marwolaeth uwch ymhlith poblogaeth sy'n heneiddio nag un sy'n cynnwys teuluoedd ifanc yn bennaf. Mae'r dull safoni yn ceisio addasu ar gyfer y gwahaniaethau poblogaeth hyn, er mwyn gallu cymharu ardaloedd yn uniongyrchol. Am ragor o wybodaeth gweler Atodiad E yn adroddiad technegol MALIC 2014

## Cam 4: Creu mynegeion

Y dull a ffefrir ar gyfer creu mynegeion ar gyfer y meysydd yw trwy ddadansoddi ffactorau, gan fod hyn yn ceisio canfod un ffactor sylfaenol ar gyfer y maes. Ar hyn o bryd, mae’r dull o greu mynegeion yn amrywio yn ôl y data sydd ar gael. Mae’r dulliau wedi’u hamlinellu isod, yn nhrefn blaenoriaeth, a darperir enghreifftiau o MALIC 2014.

### a. Dadansoddi ffactorau

Yn flaenorol yn y meysydd Iechyd, Addysg, Mynediad at Wasanaethau a Diogelwch Cymunedol, defnyddiwyd y dadansoddiad ffactorau techneg ystadegol i gyfuno’r dangosyddion amddifadedd.

Mae dadansoddiad ffactorau yn ffordd o asesu i ba raddau y gall cyfres o ddangosyddion fesur yr un ffactor neu syniad sylfaenol. Trwy ddadansoddi’r berthynas rhwng dangosyddion, mae modd dod i gasgliadau ynglŷn â’r ffactor cyffredin ac, yn sgil hynny, amcangyfrif ‘sgôr ffactor’ (a ddefnyddir fel mynegai’r maes) ar gyfer pob AGEHI. Ni ellir cynnal dadansoddiad ffactorau gyda 2 ddangosydd neu lai. Am fwy o wybodaeth, gweler Atodiad A o adroddiad technegol MALIC 2014.

### b. Meysydd â 2 ddangosydd neu lai

Yn 2014, roedd y meysydd Incwm a Chyflogaeth yn cynnwys un dangosydd, â chyfrifon wedi’u dad-ddyblygu, y gellir ei grynhoi a’i fynegi fel canran o’r boblogaeth. Felly, nid oes angen dadansoddi ffactorau gan fod y meysydd hyn eisoes yn cynnwys mesuriad unigol.

Ar gyfer MALIC 2014, roedd y maes Tai yn cynnwys dau ddangosydd, a gwnaed penderfyniad i bennu pwysoliad y rhain ar 66.6% (gorlenwi) a 33.3% (diffyg gwres canolog).

### c. Is-feysydd

Mae dangosyddion yn y maes Amgylchedd Ffisegol yn cael eu trin fel is-feysydd, sy’n cael eu trawsnewid yn sgoriau yn yr un modd â’r meysydd (gweler cam 4), yna’u cyfuno gan ddefnyddio pwysoliadau cyfartal.

Mae’r maes Amgylchedd Ffisegol yn cynnwys pedwar dangosydd sy’n ffurfio tri is-faes. Mae’r canraddau ar gyfer ansawdd aer ac allyriadau aer yn cael eu nodi fel cyfartaledd er mwyn creu trydydd is-faes. Ni ellir defnyddio dadansoddiad ffactorau yma gan nad oes un ffactor sylfaenol ar gyfer yr Amgylchedd Ffisegol


### Cam 5: Trawsnewid y mynegeion

Er mwyn lleihau'r graddau y mae diffyg amddifadedd mewn un maes yn diddymu amddifadedd mewn maes arall, cymhwysir trawsnewidiad esbonyddol i bob mynegai dangosydd:

$$T = -23\ln\left(1 - R\left[1 - e^{-\frac{100}{23}}\right]\right)$$

Lle mai R yw safle'r AGEHI wedi'i rannu â 1909. Mae'r trawsnewidiad yn rhoi sgoriau o rhwng 0 a 100 ar gyfer pob AGEHI unigol, ar gyfer pob un o'r meysydd. Am fwy o wybodaeth, gweler [Atodiad F] o [adroddiad technegol MALIC 2014].

Ar ôl ei drawsnewid mae'r data yn ymddangos fel hyn:




### Cam 6: Cyfuno'r Meysydd

Mae'r mynegai wedyn yn cael ei greu o swm a bwysolwyd o'r sgoriau ar gyfer pob maes. Mae'r pwysoliadau yn adlewyrchu pwysigrwydd y maes o safbwynt amddifadedd, ac ansawdd y dangosyddion sydd ar gael ar gyfer y maes hwnnw. Ar gyfer MALIC 2014, rhestrir y pwysoliadau a ddefnyddiwyd isod.

| Maes | Pwysoliad |
|---|---|
| Incwm | 23.5 % |
| Cyflogaeth | 23.5 % |
| Iechyd | 14.0 % |
| Addysg | 14.0 % |
| Mynediad at wasanaethau | 10.0 % |
| Diogelwch cymunedol | 5.0 % |
| Yr amgylchedd ffisegol | 5.0 % |
| Tai | 5.0 % |

Yna, mae'r sgoriau wedi'u pwysoli yn cael eu trefnu yn ôl graddfeydd, ar gyfer pob AGEHI.

# Atodiad B: Uned Ddaearyddol

## Uned ddaearyddol

Cynigir defnyddio'r 1,909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (AGEHI) a ddefnyddiwyd i gyfrifo ardaloedd daearyddol MALIC 2019.

Defnyddiwyd AGEHI fel uned ddaearyddol ym MALIC 2005, 2008, 2011, a 2014, a chawsant eu cynllunio er mwyn cyflwyno adroddiadau ar ystadegau ardaloedd bach. Mae AGEHI hefyd yn cyd-fynd â'r dull a ddefnyddir gan dair gwlad arall y DU ar gyfer eu mynegeion nhw.

## Ardaloedd Cynnyrch Ehangach

Yn sgil Cyfrifiad 2001, aeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol ati i ddatblygu hierarchaeth ddaearyddol o'r enw Ardaloedd Cynnyrch Ehangach (ACE). Fe'u cynlluniwyd er mwyn gwella'r dull o gofnodi ystadegau ardaloedd bach yng Nghymru a Lloegr. Erbyn hyn, mae ystadegau swyddogol yn cael eu cyhoeddi'n rheolaidd ar gyfer daearyddiaeth ACE, lle maent ar gael.

Mae tair haen o ACE: Haen Is, Haen Ganol, a Haen Uwch. Y rheswm am hyn oedd bod gofynion datgelu yn golygu bod modd rhyddhau rhai setiau o ddata ar gyfer ardaloedd llawer llai nag eraill. Felly, er mwyn cefnogi amrywiaeth o ofynion data posibl, penderfynwyd creu'r tair haen arbennig hon. Dyma'r cyfyngiadau:

- Rhaid i ACE Haen Is gynnwys isafswm poblogaeth o 1,000. Rhaid i faint cymedrig yr holl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is fod yn agos i 1,600. Maent yn seiliedig ar grwpiau o Ardaloedd Cynnyrch y Cyfrifiad (rhwng 4 a 6 fel arfer)
- Rhaid i ACE Haen Ganol gynnwys isafswm poblogaeth o 5,000. Rhaid i faint cymedrig yr holl Ardaloedd Cynnyrch fod yn agos i 7,200.

## Newidiadau rhwng Cyfrifiad 2001 a Chyfrifiad 2011

Mae ffiniau ACE yn cael eu diwygio ar ôl bob Cyfrifiad, er mwyn ystyried newidiadau mewn poblogaeth. MALIC 2014 fydd y mynegai cyntaf yng Nghymru i ddefnyddio'r ffiniau diwygiedig yn sgil Cyfrifiad 2011. Yng Nghyfrifiad 2001, roedd 1,896 AGEHI - mae 49 wedi dod i ben erbyn hyn, a 61 o rai newydd wedi'u creu.

Cyflwynwyd newidiadau i ffiniau AGEHI ar sail y canlynol:

- roedd y boblogaeth yn rhy fach, felly cyfunwyd AGEHI/AGEHG ag ardal gyfagos;
- roedd y boblogaeth yn rhy fawr, felly rhannwyd yr AGEHI yn ddwy ardal; neu
- neu mae'r boblogaeth wedi newid yn sylweddol, felly bu cyfuniad o'r ddwy sefyllfa uchod.

Mewn rhai achosion, bu newidiadau yn dilyn yr Ymgynghoriad ar Ganlyniadau Daearyddol a gynhaliodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn 2010. Lle'r oedd AGEHI wedi newid, cafodd yr hen god ei ddileu a dynodwyd un newydd yn ei le. Er hwylustod, neilltuwyd enwau Cymraeg a Saesneg i bob cod AGEHI. Mae enw pob AGEHI wedi'i bennu gan yr Awdurdod Lleol perthnasol.

Mae'r tabl isod yn dangos faint o ACE Haen Is sydd ym mhob Awdurdod Lleol yng Nghymru.

| Awdurdod Lleol | Nifer yr ACE Haen Is |
|---|---|
| Ynys Môn | 44 |
| Gwynedd | 73 |
| Conwy | 71 |
| Sir Ddinbych | 58 |
| Sir y Fflint | 92 |
| Wrecsam | 85 |
| Powys | 79 |
| Ceredigion | 46 |
| Sir Benfro | 71 |
| Sir Gaerfyrddin | 112 |
| Abertawe | 148 |
| Castell-nedd Port Talbot | 91 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 88 |
| Bro Morgannwg | 79 |
| Rhondda Cynon Taf | 154 |
| Merthyr Tudful | 36 |
| Caerffili | 110 |
| Blaenau Gwent | 47 |
| Torfaen | 60 |
| Sir Fynwy | 56 |
| Casnewydd | 95 |
| Caerdydd | 214 |

## Adrannau etholiadol

Yr adrannau etholiadol (neu wardiau yn flaenorol) oedd yr unedau daearyddol sylfaenol a ddefnyddiwyd ar gyfer Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2000, ond roedd anfanteision i'r dull hwn.

Mae adrannau etholiadol yn amrywio'n fawr o ran maint, o oddeutu mil o bobl i 20,000 (yng Nghymru). Nid yw'n ddelfrydol ar gyfer gwneud cymariaethau ledled Cymru, ac mae hefyd yn golygu na all data y gellir ei ryddhau yn ddiogel ar gyfer adrannau etholiadol mwy gael ei ryddhau ar gyfer adrannau etholiadol llai oherwydd rheolau datgelu (hynny yw, yr angen i ddiogelu cyfrinachedd unigolion).

Mae ffiniau adrannau etholiadol yn newid. Mae hyn yn creu problemau wrth geisio cymharu data o gyfnodau amser gwahanol. Penderfynodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ddatblygu amrywiaeth o ardaloedd a fyddai'n gyson o ran maint ac na fyddai eu ffiniau yn newid yn rheolaidd.

## Atodiad C: Aelodau'r Grŵp Llywodraethu

Mae'r Atodiad hwn yn rhestru'r holl aelodau sy'n cyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r cynigion ar gyfer MALIC 2019 (ar ddyddiad cyhoeddi'r ymgynghoriad). Noder nad yw pob aelod yn mynychu pob cyfarfod.

**Tîm MALIC**

Nia Jones - Ystadegau Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru

Scott Clifford – Ystadegau Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru

Samantha Collins – Ystadegau Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru

George Kamau – Ystadegau Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru

**Bwrdd y Prosiect**

Sue Leake, Pennaeth Ystadegau Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru (Cadeirydd)

Glyn Jones, Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru

Steven Marshall, Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru

John Morris, Pennaeth Ystadegau Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phoblogaeth Llywodraeth Cymru

Stephanie Howarth, Pennaeth Ystadegau'r Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru

Dave Roberts, Pennaeth Daearyddiaeth Llywodraeth Cymru

Nia Jones, Pennaeth Ystadegau Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru (rheolwr prosiect)

Aelodau o dîm prosiect MALIC

**Grŵp Llywio**

Glyn Jones, Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru (Cadeirydd)

Jonathan Price, Prif Economegydd Llywodraeth Cymru

Richard Thurston, Dirprwy Brif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol (Addysg a Sgiliau)

Sue Leake, Pennaeth Ystadegau Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru

Maureen Howell, Dirprwy Gyfarwyddwr Cydraddoldeb a Ffyniant Llywodraeth Cymru

Phil Lewis, Pennaeth y Gangen Ffyniant a Thasglu'r Cymoedd Llywodraeth Cymru

Amelia John, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cymunedau, Llywodraeth Cymru

Colin Morris, Pennaeth Cymunedau dros Waith Llywodraeth Cymru

Karen Cornish, Dirprwy Gyfarwyddwr, Plant a Theuluoedd, Llywodraeth Cymru

Caren Fullerton, Prif Swyddog Digidol Llywodraeth Cymru

Ian Williams, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cartrefi a Lleoedd, Llywodraeth Cymru

Paul Webb, Pennaeth Cymorth a Budd-daliadau Tai Llywodraeth Cymru

Alex Hicks, Swyddfa'r Cabinet – Arweinydd Cyflawni, Llywodraeth Cymru

Gordon Smith, Is-adran Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru

Helen Minnice-Smith, Pennaeth Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru

Elizabeth Fraser, Mynegai Amddifadedd Lluosog yr Alban, Llywodraeth yr Alban

Nia Jones, Pennaeth Ystadegau Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru (rheolwr prosiect)

Aelodau tîm prosiect MALIC

**Grŵp Cynghori**

Sue Leake, Pennaeth Ystadegau Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru (Cadeirydd)

Luned Jones, Ystadegydd Tai a'r Amgylchedd Naturiol Llywodraeth Cymru (arweinydd MALIC 2014)

Launa Anderson, Pennaeth Ymchwil Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru

Sarah Lowe, Uwch Swyddog Ymchwil Llywodraeth Cymru, Y Tîm Gwneud y Gorau o Ddata

Andrea Gartner, Cydymaith Ymchwil Meddygaeth Poblogaeth, Ysgol Feddygaeth, Prifysgol Caerdydd

Scott Orford, Ysgol Ddaearyddiaeth a Chynllunio, Prifysgol Caerdydd

Andrew Stephens, Cyfarwyddwr Gweithredol, Data Cymru

Nathan Lester, Pennaeth Tîm Dadansoddi'r Arsyllfa, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Louisa Nolan, Uwch Wyddonydd Data, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Helen Hodges, Swyddog Ymchwil, Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Janine Edwards, Uwch Ymchwilydd, Cyngor Sir Conwy

Andy Wilson, Data, Rheolwr Data a Chyfranogiad, Cyngor Sir Torfaen

Vicki Doyle, Swyddog Polisi, Cyngor Sir Caerffili

Cheryl Martin, Swyddog Datblygu, Plant yng Nghymru

Peter Lathbury, Pennaeth Cymorth y Trydydd Sector, Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Powys

Nia Jones, Pennaeth Ystadegau Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru (rheolwr prosiect)

Aelodau o dîm prosiect MALIC

**Aelodau'r Grwpiau Meysydd**

**Incwm a Chyflogaeth**

Sara Ahmad, Economegydd Cydraddoldeb a Ffyniant Llywodraeth Cymru

Ryan Pike, Pennaeth Ystadegau'r Economi, y Farchnad Lafur a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru

Sinead Gallagher, Rheolwr Cynllun Cyflawni Cyflogadwyedd Trawslywodraethol Llywodraeth Cymru

Ella Davidoff, Pennaeth Cyflogaeth a Chydgysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau, Llywodraeth Cymru

Stephen King, Cyngor Sir Abertawe

Bob Watson, Cangen y Farchnad Lafur, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

David Bailey, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi

Jenny Kay, Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Josephine Daniels, Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Vishal Abhol, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi

Emma Wright, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Anna Summerbell, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Nia Jones, Pennaeth Ystadegau Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru (rheolwr prosiect)

**Iechyd**

Cath Roberts, Ystadegydd Iechyd y Cyhoedd Llywodraeth Cymru

Chris Roberts, Arweinydd Ymchwil Cymdeithasol – Iechyd, Llywodraeth Cymru

John Morris, Pennaeth Ystadegau Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phoblogaeth Llywodraeth Cymru

Nicola Evans, Pennaeth y Gangen Anghydraddoldebau Iechyd a Chymunedau Iach Llywodraeth Cymru, Is-adran Iechyd y Cyhoedd

Ceri White, Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru

Gareth John, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

Lloyd Evans, Prif Ddadansoddwr Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Chris White, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Annie Campbell, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Ian Thomas, Canolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru

Nia Jones, Pennaeth Ystadegau Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru (rheolwr prosiect)

Samantha Collins, Ystadegau Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru

**Addysg**

Stephen Hughes, Pennaeth Ysgol Ystadegau Ysgolion, Llywodraeth Cymru

Chris Williams, Pennaeth Ystadegau Addysg Uwch Llywodraeth Cymru

Rachel Lloyd, Pennaeth Ystadegau Addysg Trawslywodraethol Llywodraeth Cymru

Lindsay Lewis, Uwch Reolwr Gwella Ysgolion Llywodraeth Cymru

Sioned Cardew-Richardson, Gwasanaethau Gwybodaeth am Ystadegau, ESTYN

Chris Taylor, Cyd-gyfarwyddwr Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD)

Tom Anderson, Cymwysterau Cymru

Gwion Dafydd, Cyngor Sir Ceredigion

Laura Andrews, Ystadegau Ysgolion Llywodraeth Cymru

Scott Clifford, Ystadegau Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru

Samantha Collins, Ystadegau Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru

**Mynediad at Wasanaethau**

Stuart Neil, Pennaeth Ystadegau Amaethyddol Llywodraeth Cymru

Gareth Phillips, Rheolwr Gwybodaeth yr Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru

Tom Colley, Dadansoddwr/Datblygwr Daearyddiaeth a Thechnoleg Llywodraeth Cymru

Alison Thomas, Prif Gynllunydd Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru

Helen Minnice-Smith, Pennaeth Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru

Geraint Morgan, Swyddog Ymchwil, Cyngor Sir Powys

Nia Jones, Pennaeth Ystadegau Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru (rheolwr prosiect)

George Kamau, Ystadegau Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru

**Diogelwch Cymunedol**

Sarah Cooper, Pennaeth Tîm Trosedd a Chyfiawnder Llywodraeth Cymru

Brett Davis, Heddlu De Cymru

Wayne Thomas, Perfformiad y Gwasanaeth a Chyfathrebu, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Dan Heap, Tîm Canolfan Ddata, y Swyddfa Gartref

Kerry Citric, Uwch Reolwr Cynllunio a Pherfformiad y Gwasanaeth Tân ac Achub

Scott Clifford, Ystadegau Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru

Claire Davey, Ystadegau Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru

**Yr Amgylchedd Ffisegol**

Luned Jones, Ystadegydd Tai a’r Amgylchedd Naturiol Llywodraeth Cymru

Dave Roberts, Dirprwy Bennaeth Daearyddiaeth a Thechnoleg Llywodraeth Cymru

Martin McVay, Cynghorydd Polisi (Sŵn, Cemegau ac Ansawdd Aer Lleol) Llywodraeth Cymru

James Morris, Pennaeth Rheoli Llifogydd a Risgiau Arfordirol Llywodraeth Cymru

Katherine Raymond, Pennaeth Tystiolaeth Strategol, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru

Richard Clark, Pennaeth Cyflawni Ansawdd Amgylcheddol Lleol Llywodraeth Cymru

Julie Boswell, Y Gyfarwyddiaeth Tystiolaeth, Polisi a Chaniatáu, Cyfoeth Naturiol Cymru

Joel Dearden, Darlithydd mewn Daearyddiaeth Ddynol, Prifysgol Abertawe

Scott Clifford, Ystadegau Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru

Jamie Cleves, Ystadegau Tai a’r Amgylchedd Naturiol Llywodraeth Cymru

**Tai**

Sue Leake, Pennaeth Ystadegau Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru (Cadeirydd)

Luned Jones, Ystadegydd Tai a’r Amgylchedd Naturiol Llywodraeth Cymru

Gareth Brand, Uwch Swyddog Ystadegol – Tystiolaeth Cyflwr Tai Llywodraeth Cymru

Jenny Davies, Uwch Swyddog Ystadegol – Tystiolaeth Cyflwr Tai Llywodraeth Cymru

Lucie Griffiths, Uwch Swyddog Ymchwil (Tai) Llywodraeth Cymru

Simon White, Pennaeth Strategaeth a Deddfwriaeth Tai Llywodraeth Cymru

Bob Smith, Ysgol Ddaearyddiaeth a Chynllunio, Prifysgol Caerdydd

Jim McKirdle, Swyddog Polisi (Tai), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Nia Jones, Pennaeth Ystadegau Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru (rheolwr prosiect)

Samantha Collins, Ystadegau Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru

## Atodiad D: Dangosyddion MALIC 2014

**Incwm**

- Canran y boblogaeth sy’n derbyn Budd-daliadau neu Gredydau Treth yn Seiliedig ar Incwm (gan gynnwys plant dibynnol) pan fyddant yn byw mewn aelwyd ag incwm o lai na 60 y cant o ganolrif Cymru neu sy’n Geiswyr Lloches a Gefnogir

**Cyflogaeth**

- Canran o oedran gweithio sy’n derbyn budd-daliadau yn seiliedig ar incwm

**Iechyd**

- Mynychder canser
- Cyfradd marwolaethau o bob achos
- Canran genedigaethau sengl byw < 2.5kg
- Salwch cyfyngus hirdymor

**Addysg**

- Sgorau pwyntiau cyfartalog Cyfnod Allweddol 2
- Cyfnod Allweddol 4 Lefel 2 cynhwysol
- Sgorau pwyntiau wedi’u capio Cyfnod Allweddol 4
- Canran y bobl 18-19 oed nad ydynt yn mynd i addysg uwch
- Canran yr oedolion 25-64 oed heb gymwysterau
- Canran y disgyblion sy’n colli 15 y cant neu fwy o sesiynau ysgol hanner diwrnod (Disgyblion sy’n absennol dro ar ôl tro).

**Mynediad at Wasanaethau**

- Amser teithio cyfartalog ar drafnidiaeth gyhoeddus a phreifat i’r agosaf o’r canlynol: Siop Fwyd, Meddygfa Meddyg Teulu, Swyddfa’r Post, Llyfrgell Gyhoeddus, Canolfan Hamdden, Ysgol Gynradd, Ysgol Uwchradd, Fferyllfa a Gorsaf Betrol (trafnidiaeth breifat yn unig).

**Diogelwch Cymunedol**

- Bwrgleriaeth a gofnodir gan yr heddlu
- Difrod troseddol a gofnodir gan yr heddlu
- Lladrad a gofnodir gan yr heddlu
- Troseddau treisgar a gofnodir gan yr heddlu
- Ymddygiad gwrth-gymdeithasol
- Achosion o dân

**Yr Amgylchedd Ffisegol**

- Allyriadau aer
- Crynodiadau aer
- Perygl llifogydd
- Agosrwydd at safleoedd gwaredu gwastraff a safleoedd diwydiannol

**Tai**

- Canran y boblogaeth sy’n byw mewn cartrefi heb wres canolog
- Canran y boblogaeth sy’n byw mewn cartrefi gorlawn (deiliadaeth ystafelloedd gwely)

# Atodiad E: Y Fethodoleg a ddefnyddiwyd gan Ofcom ar Signal Band Eang

## Gwybodaeth Gefndir

Mae Ofcom yn casglu ac yn dadansoddi data gan y prif ddarparwyr gwasanaeth rhyngrwyd band eang sefydlog (BT, Virgin Media, Sky, Talk Talk, Vodafone a KCOM) ynglŷn â'u gwasanaethau manwerthu a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i ddarparwyr gwasanaeth rhyngrwyd eraill fel gwasanaeth cyfanwerthu. Mae'r data ynglŷn ag argaeledd hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y signal a ddarperir gan ddarparwyr rhwydwaith amgen (B4RN, BU-UK, City Fibre, Gigaclear, Hyperoptic, ITS a Relish). Roedd Diweddariad Cysylltu'r Gwledydd: Gwanwyn 2018 gan Ofcom yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd gan y gweithredwyr.

Gallai'r wybodaeth yn adroddiad gwanwyn 2018 Ofcom fod yn ddefnyddiol wrth nodi amrywiaeth o ran y band eang sydd ar gael. Mae'r adroddiad yn cynnwys signal band eang gan y gweithredwyr, a gydgrynhowyd ar lefel ardal gynnyrch cyfrifiad 2011. Casglwyd y data ynglŷn â signal fel ciplun ym mis Ionawr 2018.

Mae Adroddiad 2017 Ofcom (y mae'r diweddariad gwanwyn 2018 hwn yn seiliedig arno) yn nodi y gofynnwyd i weithredwyr ddarparu data ar gyfer pob cyfeiriad lle darparwyd gwasanaeth. Nododd Ofcom nifer o safleoedd preswyl a busnesau bach yn y DU. Roedd hyn yn seiliedig ar leoliadau mannau darparu, ac eithrio Blychau Post a sefydliadau mawr.

## Diffiniadau o eitemau data a gyhoeddwyd gan Ofcom:

Safleoedd: Roedd y broses o gyfrif yr holl safleoedd, a oedd yng ngwmpas yr astudiaeth, yn seiliedig ar AddressBase® Premium (set ddata) Epoch 55 yr Arolwg Ordnans – caiff AddressBase ei ddiweddaru bob 6 wythnos (a gelwir y cyfnod hwn o 6 wythnos yn Epoch). Mae Epoch 55 yn cyfeirio at y diweddariad ar 11 Ionawr 2018.

**Safleoedd wedi'u Paru**: sy'n cyfeirio at y broses o gyfrif yr holl safleoedd sydd wedi eu paru â chofnodion gweithredwyr. Ni chaiff safleoedd heb eu paru eu dosbarthu ac maent wedi eu heithrio o'r dadansoddiad.

**Nifer y safleoedd nad ydynt yn gallu derbyn 30Mbit/s**: sy'n cyfeirio at y broses o gyfrif y safleoedd nad ydynt yn gallu cael gwasanaethau uwch na 30Mbit/s

**Canran y safleoedd nad ydynt yn gallu derbyn 30Mbit/s**: sy'n cyfeirio at safleoedd nad ydynt yn gallu cael gwasanaeth 30Mbit/s neu uwch.

## Paru cyfeiriadau

Mae argaeledd data lefel cyfeiriadau yn caniatáu i Ofcom greu set ddata gynhwysfawr sy'n disgrifio nodweddion yr holl wasanaethau sydd ar gael a'r holl weithredwyr sy'n bresennol mewn safleoedd ledled y DU. Darparodd lawer o weithredwyr gyfeirnod eiddo unigryw (UPRN), cod adnabod cyffredin sydd ar gael i'w ddefnyddio yn y DU. Darparodd gweithredwyr eraill wybodaeth am gyfeiriadau y byddai angen ei phrosesu a'i gysylltu â chronfa safleoedd Ofcom. Derbyniwyd mwy na 52 miliwn o gofnodion gan weithredwyr a pharwyd 99.4% o gronfa safleoedd Ofcom gan ddefnyddio UPRN neu gyfeirnod cyfeiriad adeilad.

O'r 0.6% o'r safleoedd sy'n weddill nad ydynt wedi'u paru â UPRN neu wybodaeth am gyfeiriad adeilad, defnyddiwyd amcangyfrif lefel cod post sef, ar yr amod bod uned cod post yn cynnwys o leiaf un safle a barwyd, bod unrhyw safleoedd heb eu paru yn cael eu neilltuo i'r signal gorau sydd ar gael. Defnyddiwyd y dull hwn ar gyfer 125,000 o safleoedd (0.4% o'r cyfanswm).

Ymchwiliwyd i sampl o'r safleoedd sy'n weddill a chanfuwyd eu bod yn cynrychioli adeiladau newydd neu eiddo masnachol. Nid yw'n bosibl pennu rheol benodol i eithrio'r safleoedd hyn ac felly maent yn parhau i fod yn yr enwadur.

## Cyfrifo argaeledd

Mae pob gweithredwr yn darparu gwybodaeth am y dechnoleg sydd ar gael ynghyd â'r rhagolygon ar gyfer cyflymderau lawrlwytho a lanlwytho.

Ar ôl y broses o baru cyfeiriadau caiff y nodweddion hyn eu pennu i bob safle er mwyn gallu ymgymryd â rhagor o ddadansoddi manwl. Mae Ofcom yn defnyddio trothwyon wrth ddadansoddi er mwyn ymchwilio i wahanol batrymau o ddarpariaeth. Ar gyfer signal mae Ofcom wedi defnyddio'r cyflymder lawrlwytho uchaf a ragwelir sydd ar gael mewn safle i benderfynu pa gategori band eang y mae safle yn ei gynrychioli.

Ers yr adroddiad Cysylltu'r Gwledydd cyntaf yn 2011, mae Ofcom wedi olrhain y cynnydd o ran cyflwyno band eang cyflym iawn. Mae Ofcom yn defnyddio cyflymderau lawrlwytho 30 Mbit/s fel y trothwy ar gyfer diffinio gwasanaethau cyflym iawn, sydd hefyd y trothwy a ddefnyddir gan y Comisiwn Ewropeaidd.

## Atodiad F: Crynodeb o Ddata Tystysgrifau Perfformiad Ynni

Isod ceir amlinelliad o'r canlyniadau a'r casgliadau a gafwyd yn sgil archwilio'r data ynglŷn â Thystysgrifau Perfformiad Ynni (EPC). Mae'n disgrifio dadansoddi y gwnaethom ar ddata EPC wedi'i ddarparu gan y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Ar gyfer y dadansoddiad hwn, dilëwyd cofnodion dyblyg er mwyn cynnwys y cofnod EPC diweddaraf ar gyfer pob eiddo yn unig. Ceir hefyd rhywfaint o ddadansoddi a wnaed ar ein rhan gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS).

### Crynodeb

Fel y trafodwyd yn adran 5.6.5, **nid ydym** yn cynnig cynnwys dangosydd yn seiliedig ar ddata EPC yn MALIC 2019, ar sail ansawdd gwael y data cyfredol a chyswllt ansicr i amddifadedd.

O ran ansawdd y data, mae ein dadansoddiad yn canfod:

- Mae cyfran fawr o gofnodion EPC wedi ei chreu sawl blwyddyn yn ôl ac felly mae'n bosibl nad yw'r sgorau yn rhoi'r darlun presennol.
- Cofnodir EPC ar gyfer tua 40 i 50 y cant o gartrefi Cymru. Golyga hyn nad oes unrhyw ddata ar gyfer mwy na hanner y stoc dai yng Nghymru. Mae'r data sydd ar gael hefyd yn anhebygol o fod yn gynrychioliadol o stoc dai Cymru yn ei chyfanrwydd (e.e. ymddengys bod anheddau perchen-feddianwyr wedi eu tangynrychioli yn y data EPC).
- Mae llawer o gofnodion EPC wedi'u dyblygu ac nid yw bob amser yn glir pa gofnod sy'n cynnwys yr wybodaeth fwyaf cyfredol a chywir. Gellir nodi'r cofnodion hyn yn rhwydd ond ceir ffactorau eraill sy'n anoddach eu nodi (e.e. cofnod sydd â gwahanol ddyddiad archwilio ond sydd, mewn gwirionedd, yn berthnasol i'r un archwiliad).
- Mae nifer o anghysondebau a gwahaniaethau annisgwyl rhwng cofnodion EPC e.e. pan fo'r un eiddo â gwahanol fathau o ddeunydd ar y llawr wedi'u cofnodi mewn gwahanol archwiliadau.

Yn nhermau tueddiadau amlwg mewn perfformiad ynni tai, trwy edrych ar y gyfran o dai yn y band sy'n perfformio gwaethaf (E i G), fe ddarganfuwyd fod perthynas wrthgyfartal ganddo ag amddifadedd cyffredinol, fel y'i diffinnir gan MALIC 2014. Ni all hyn gael ei esbonio'n llawn gan y gwahaniaeth rhwng y grwpiau amddifadedd yn nhermau daliadaethau'r eiddo. Ar hyn o bryd, nid oes gennym y lefel angenrheidiol o ddata i allu ymchwilio yn bellach i mewn i'r patrymau yma fel byddwn yn hoffi, er enghraifft gan oedran a math o eiddo.


Mae dadansoddiad mwy manwl o gyflawnrwydd setiau data'r cofnodion EPC wedi'i gyflwyno isod, wedi'i dilyn gan ddadansoddiad ar dueddiadau mewn perfformiadau ynni gwael.

### Cwmpas Cofnodion EPC

#### Cwmpas Cofnodion EPC - gan flwyddyn

Roedd mwy na hanner y cofnodion EPC a ddadansoddwyd yn dyddio o 2012 neu cyn hynny (gweler ffigur 1).

**Ffigur 1. Nifer y cofnodion EPC fesul blwyddyn**




*Sylwer nad oedd set gyfan o ddata ar gyfer 2016 ar gael wrth gynnal y dadansoddiadau hyn.*

Wrth edrych ar bob un o'r 1,909 AGEHI, roedd nifer y cofnodion EPC a gyfrifwyd ym mhob AGEHI yn amrywio o 113 i 1,215.


**Cwmpas Cofnodion EPC - gan AGEHI**

Defnyddiwyd nifer y cofnodion EPC ar gyfer pob AGEHI a nifer yr anheddau ym mhob AGEHI i gyfrifo canran yr anheddau ym mhob AGEHI â chofnod EPC.

Rhifiadur: Defnyddiwyd y cofnod EPC diweddaraf ar gyfer pob eiddo ac roedd y data yn amrywio o 2008 i 2016 (roedd cyfanswm o 659,073 o gofnodion)

Enwadur: Nifer cyfartalog yr anheddau fesul AGEHI oedd hwn yn y blynyddoedd 2014 a 2015. Roedd hwn yn deillio o'r data enwadur a ddefnyddiwyd yn y Dangosydd Diogelwch Cymunedol yn 2017.

**Ffigur 2. Nifer yr AGEHI ym mhob band cwmpas EPC**




Wrth archwilio cwmpas data EPC AGEHI canfuwyd bod:

- 27 AGEHI lle'r oedd gan 75 y cant neu fwy o'u hanheddau gofnod EPC (ers 2008). Wrth edrych ar ddata EPC o 2014 a 2015 yn unig mae'n sylweddol llai.
- Roedd y rhan fwyaf o AGEHI â'r cyfrannau uchaf o EPC yng Nghaerdydd a Chasnewydd
- Roedd 6 AGEHI lle'r oedd 25 y cant neu lai o'u hanheddau â chofnod EPC (ers 2008), 3 ohonynt yng Nghaerdydd.

**Cwmpas Cofnodion EPC – yn ôl amddifadedd a math o anheddiad**

Isod ceir rhai dadansoddiadau plotiau blwch sy'n dangos dosbarthiad data EPC ar draws grwpiau amddifadedd sy'n deillio o safleoedd MALIC 2014 a mathau o anheddau.


**Ffigur 3. Lledaeniad Cwmpas EPC AGEHI fesul grŵp amddifadedd**




Mae Ffigur 3 yn dangos bod cwmpas cofnodion EPC yn uwch yn gyffredinol yn yr AGEHI mwyaf difreintiedig o'i gymharu â'r AGEHI llai difreintiedig.

Ar gyfartaledd, mae gan tua 55 y cant o anheddau yn yr AGEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru gofnod EPC ac mae gan ryw 40 y cant o'r anheddau yn y AGEHI lleiaf difreintiedig gofnod EPC.

**Ffigur 4. Lledaeniad cwmpas EPC AGEHI fesul math o anheddiad**





Mae ffigur 4 yn dangos nad yw'n ymddangos bod cofnodion EPC yn amrywio llawer ar draws mathau o anheddiad. Ar gyfartaledd, mae gan ychydig dros 40 y cant o anheddau AGEHI gofnod EPC ym mhob math o anheddiad.

## Tueddiadau mewn perfformiad ynni gwael


### Perfformiad ynni gwael - yn ôl amddifadedd a math o anheddiad

Isod ceir dau blot blwch: mae Ffigur 5 yn dangos dosbarthiad cofnodion EPC sydd â sgôr SAP o E i G ar draws grwpiau amddifadedd sy'n deillio o safleoedd MALIC 2014; mae Ffigur 6 yn dangos dosbarthiad cofnodion EPC sydd â sgôr SAP o E i G ar draws mathau o anheddiad. Ystyrir anheddau â sgôr SAP o E i G yn rhai gwael o ran effeithlonrwydd ynni.

**Ffigur 5. Lledaeniad sgorau EPC E-G ar draws AGEHI fesul Grŵp Amddifadedd**



**Ffigur 6. Lledaeniad sgorau EPC o E-G ar draws AGEHI fesul Math o Anheddiad**




Mae Ffigur 5 yn dangos bod AGEHI llai difreintiedig â chyfran uwch o anheddau â sgorau effeithlonrwydd ynni gwael (sgôr SAP EPC o E i G) na AGEHI mwy difreintiedig.

Mae Ffigur 6 yn dangos bod cyfran yr anheddau â sgôr SAP EPC o E i G yn sylweddol uwch nag mewn AGEHI gwledig (yn enwedig y rhai hynny a ddosberthir yn bentrefi) o'i gymharu â'r hyn a welir mewn AGEHI trefol.

**Perfformiad ynni gwael â'r math o ddeiliadaeth**

Roedd y dadansoddiad uchod yn dangos bod ardaloedd mwy difreintiedig yn dueddol o fod â sgorau EPC gwell (cyfrannau is ym mandiau E, F a G). Mae'r ffigyrau isod yn dangos sut y mae dosbarthiad cofnodion EPC yn amrywio â'r math o ddeiliadaeth. Mae gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) wybodaeth am ddeiliadaeth ar lefel eiddo (data enghreifftiol gan Experian) sydd wedi ei gysylltu â data EPC. Rhannwyd data sydd wedi'i gydgasglu a bandiau amddifadedd MALIC 2014 gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r dadansoddiadau isod yn seiliedig ar y ffigyrau hyn.

Er hyn, mae yna nifer o broblemau ansawdd data i'w ystyried:

- Ceir rhai dyblygiadau yn fersiwn BEIS o'r data EPC.
- Mae BEIS wedi paru cyfeiriadau ar sail tebygolrwydd o ddata EPC i ddata Experian. Ni fydd y broses hon 100% yn gywir.
- Mae data deiliadaeth gan Experian yn seiliedig ar ymatebion i arolygon ffordd o fyw Experian a ddefnyddir i ragweld statws pob eiddo gan ddefnyddio technegau modelu. I gael rhagor o wybodaeth, gweler: Domestic National Energy Efficiency Data-Framework (NEED) methodology (t 35-36).

**Tabl 1. Cyfrannau deiliadaeth mewn data EPC o'i gymharu ag amcangyfrifon stoc anheddau Llywodraeth Cymru**


| | Data EPC | Amcangyfrifon stoc anheddau |
|---|---|---|
| Yn eiddo i berchen-feddianwyr | 62% | 70% |
| Rhentu preifat | 19% | 14% |
| Rhentu cymdeithasol | 19% | 16% |

Mae Tabl 1 yn dangos bod y rhan fwyaf o gofnodion EPC yn berthnasol i anheddau sy'n eiddo i berchen-feddianwyr. Fodd bynnag, mae cyfran y cartrefi sy'n eiddo i berchen-feddianwyr yn is nag yn yr amcangyfrifon stoc anheddau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. Mae'n ymddangos felly bod y sector sy'n eiddo i berchen-feddianwyr wedi'i dangynrychioli yn y data EPC.


Mae Ffigur 7, 8 a 9 isod yn dangos y rhaniad rhwng bandiau A – D a E – G EPC ar gyfer pob deiliadaeth, ar draws grwpiau amddifadedd.

Maent yn dangos bod cyfran y cartrefi â sgôr EPC gwael (E - G) yn cynyddu wrth i amddifadedd leihau, waeth beth fo'r ddeiliadaeth. Mae hyn yn awgrymu na ellir esbonio'r canfyddiadau a ddangosir yn ffigur 5 (y ceir cyfran uwch o sgorau EPC gwael yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig) gan wahaniaethau o ran deiliadaeth yn unig.

**Ffigur 7. Dosbarthiad sgorau EPC ar gyfer anheddau rhentu cymdeithasol ar draws grwpiau amddifadedd MALIC 2014 (Degradd 1 yw'r fwyaf difreintiedig.)**




**Ffigur 8. Dosbarthiad sgorau EPC ar gyfer anheddau sy'n eiddo i berchen-feddianwyr ar draws grwpiau amddifadedd MALIC 2014**




**Ffigur 9. Dosbarthiad sgorau EPC ar gyfer anheddau rhentu preifat ar draws grwpiau amddifadedd MALIC 2014 (Degradd 1 yw'r fwyaf difreintiedig.)**

